



Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2020/2021





	Tudalen
Rhagair Arweinydd Cyngor Gwynedd	3
Cyflwyniad	4
Effaith Covid-19	7
Ein Gwariant	11
Rhan 1 - Blaenoriaethau Gwella	12
Rhan 2 - Adroddiadau'r Adrannau	55
Addysg	56
Oedolion, Iechyd a Llesiant	61
Plant a Chefnogi Teuluoedd	68
Economi a Chymuned	72
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	77
Tai ac Eiddo	83
Amgylchedd	88
Ymgynghoriaeth Gwynedd	93
Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth	96
Cefnogaeth Gorfforaethol	102
Gwasanaeth Cyfreithiol	107

Os ydych chi angen y ddogfen yma mewn iaith neu fformat arall
ffoniwch 01766 771000 neu ebostiwch cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru

Os ydych chi angen mwy o wybodaeth am yr Adroddiad hwn cysylltwch â Thîm Cefnogi
Busnes y Cyngor drwy ffonio 01766 771000 neu cynlluncyngor@gwynedd.llyw.cymru



Rhagair yr Arweinydd



Dwi'n gobeithio na welwn ni flwyddyn fel 2020/21 fyth eto. Ydi mae'n ddweud mawr, ond roedd hi'n flwyddyn o boen a galar i nifer o deuluoedd ac unigolion fu'n dioddef yn sgil Covid-19, a derbyniwch fy nghydeimlad i a'm cyd-aelodau a staff Cyngor Gwynedd.

Mae hi'n amhosib i beidio cyfeirio at effaith pandemig Covid-19 ar drigolion Gwynedd a beth oedd ein ymateb ni fel cyngor i'r sefyllfa wrth gyflwyno'r adroddiad hwn ar berfformiad Cyngor Gwynedd yn ystod 2020/21. Mae fy niolch yn ddiffuant i bob un aelod o staff y cyngor fu'n mynd y filltir ychwanegol er mwyn cadw trigolion Gwynedd yn ddiogel, ac yn parhau i wneud hynny. Bu staff ein cartrefi a gwasanaethau gofal ar y rheng flaen yn y frwydr yn erbyn y feirws, ac mae ein dyled iddynt yn fawr, ynghyd â phob un arall fu'n parhau i gynnal swyddi cyhoeddus megis athrawon, swyddogion gwasanaethau gwastraff, a staff yr amlogfa.

Yn dawel y tu ôl i'r gwasanaethau rheng flaen fe fu byddin o swyddogion eraill gafodd eu harallgyfeirio dros dro o'u swyddi arferol i wneud gwaith hanfodol megis sefydlu'r Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu, canfod a dosbarthu PPE, rhedeg gwasanaeth gwybodaeth a chefnogaeth i'r cyhoedd, yn enwedig y rhai oedd yn hunan-ynysu neu'n fregus. Roedd hyn oll yn waith gafodd ei flaenoriaethu gennym fel Cyngor er mwyn ceisio gwneud ein gorau dros bobl Gwynedd, ac os oedd yn rhaid i ni arafu ein gwaith ar rai cynlluniau eraill er mwyn gwneud hynny yna dyna a fu.

Mae ein dyled ni fel cyngor hefyd yn fawr i'r holl asiantaethau eraill, ac i bobl Gwynedd eu hunain, am weithio mewn partneriaeth gyda ni drwy gydol yr ymdrech i ymateb i'r pandemig. Er fod gennym bartneriaethau cryf yn barod, mae'r adroddiad hwn yn frith o enghreifftiau o gydweithio slic a llwyddiannus rhwng y cyngor a phartneriaid hen a newydd, o'r Bwrdd Iechyd i grwpiau cymunedol gwirfoddol. Mae'n rhaid i ni barhau i gynnal yr ewyllys gryf yma o gydweithio i'r dyfodol.

Wrth ddarllen yr adroddiad hwn ar ei hyd, dwi'n gobeithio y cewch chi ddarlun o ba mor amrywiol yw gwaith Cyngor Gwynedd. Mae'n fater i ymfalchïo ynddo ein bod nid yn unig wedi parhau i gynnal gwasanaethau arferol yn wyneb y pandemig ond hefyd wedi llwyddo i gychwyn neu gwblhau nifer o brosiectau dylanwadol eraill. Rydym wedi mabwysiadu Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynnwys dros 30 o gynlluniau penodol a fydd yn arwain at fuddsoddiad o £77 miliwn yn y maes tai yng Ngwynedd dros y 6 mlynedd nesaf. Agorwyd adeilad newydd Ysgol y Garnedd ym Mangor, gan roi'r cyfle gorau i genedlaethau o blant y ddinas. Cwblhawyd uned dementia newydd yn Llan Ffestiniog fydd yn agor yn fuan. Yng nghanol ail don heriol Covid-19 fis Ionawr 2021 fe gynhaliodd Arolygaeth Gofal Cymru archwiliad o'n gwasanaethau oedolion a phlant a chyflwyno adborth cadarnhaol iawn. Mae'n wych hefyd gallu dweud nad oes dim gwastraff o'r sir yn cael ei waredu'n uniongyrchol drwy dirlenwi bellach.

Mater o falchder i mi felly yw rhannu'r adroddiad yma gan bod hyn oll yn dyst bod 2020/21 nid yn unig wedi bod yn flwyddyn anodd a heriol, ond hefyd yn flwyddyn o gyflawni er gwaethaf pob rhwystr a wynebwyd.

Y Cyngorydd Dyfrig Siencyn,
Arweinydd Cyngor Gwynedd.





Cyhoeddodd y Cyngor 'Gynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023' ym mis Mawrth 2018 sy'n gosod ein huchelgais a'n blaenoriaethau ar gyfer y bum mlynedd dan sylw. Rydym wedi adolygu'r Cynllun bob blwyddyn ers hynny er mwyn ei gadw'n gyfredol ac felly mae'r adroddiad hwn yn darlunio sut aethom ati i wireddu uchelgais 'Cynllun Cyngor Gwynedd 2018/2023: Adolygiad 2020/21'. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am weddill gwaith 'dydd i ddydd' y Cyngor a'n gwariant am y flwyddyn.

Mae **Rhan 1** yr adroddiad hwn yn adrodd ar ein perfformiad fesul Blaenoriaeth Gwella, sef y meysydd ble roedd angen i ni roi sylw penodol iddynt. Mae **Rhan 2** yn disgrifio weddill ein gwaith, a cheir penodau unigol ar gyfer bob un o adrannau'r Cyngor. O fewn yr adroddiadau adrannol rydym hefyd yn diweddarau'r gwaith ar y Blaenoriaethau Lleol a gafodd eu hadnabod gan yr aelodau etholedig.

Mae'n amlwg mai'r prif effaith ar waith Cyngor Gwynedd yn ystod 2020/21, fel pob awdurdod lleol arall, oedd pandemig Covid-19. Rydym yn manylu ar ein hymateb i'r pandemig yn y bennod 'Effaith Covid-19' sy'n dilyn y cyflwyniad hwn.

Fel yr ydym wedi adrodd yn y gorffennol, mae ein **sefyllfa ariannol** fel Cyngor wedi newid cryn dipyn dros y blynyddoedd diwethaf. Er bu cynnydd mewn grant cyfwerth â chwyddiant gan Lywodraeth Cymru, nid oedd yn ddigonol i gwrdd hefyd â'r cynnydd mewn galw am wasanaethau. Felly, bydd y sefyllfa ariannol yn parhau i osod cryn her i ni wrth gynllunio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Bu 2020/21 yn flwyddyn mor wahanol i bob un arall wrth gwrs, ond mae'r Cyngor wedi dygymod gyda'r gwariant ychwanegol anorfod. Rydym hefyd wedi adolygu



ein rhaglen arbedion i sicrhau fod cynlluniau yn parhau'n gyraeddadwy. Rhwng 2015/16 a diwedd 2020/21, mae 90% o'r cynlluniau arbedion, cyfanswm gwerth £31 miliwn, wedi eu cyflawni.

Adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yw hwn, ond mae'r gwaith o fesur llwyddiant ein gwaith, a **herio ein perfformiad** ein hunain, yn digwydd gydol y flwyddyn. Arweiniodd yr heriau o ymateb i dasgau newydd yn ymwneud â Covid-19 a chynnal ein gwaith dydd i ddydd dros y flwyddyn diwethaf at ddull gwahanol yn 2020/21.

Yn dilyn diweddariadau cynnydd mewnol, cynhaliwyd cyfarfodydd herio perfformiad adrannol diwedd blwyddyn, lle mae'r Aelod Cabinet yn adolygu cynnydd yr adrannau ar eu prosiectau Blaenoriaethau Gwella a'u gwaith dydd i ddydd, gyda chefnogaeth y Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol. Ymhellach, mynychodd aelodau o'r Pwyllgor Craffu perthnasol er mwyn iddynt allu adrodd ar y cyflawniadau wrth weddill yr aelodau.

Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau cytbwys y cyfarfodydd hyn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ariannol. Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac i'r Cyngor Llawn ar gyfer ei gymeradwyo.

Gyda dyfodiad **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) (Y Ddeddf)** mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodedig weithio'n unigol a chyda'i gilydd i wella llesiant Cymru.

Yn unol â gofynion y Ddeddf, yn 2018/19 mabwysiadodd y Cyngor saith o Amcanion Llesiant sy'n cyfrannu tuag at y saith nod llesiant cenedlaethol, ac mae'r rhain yn parhau'n gyfredol. Mae'r amcanion yn seiliedig ar yr asesiad llesiant a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd a Môn ynghyd â sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd wrth ddatblygu'r Cynllun.

Nodir hefyd yr angen i weithredu yn unol â'r


pum egwyddor datblygu cynaliadwy gan

- ystyried y tymor hir
- atal rhag digwydd
- gweithio'n integredig
- gweithio'n gydweithredol
- a chynnwys pobl o bob oed.

Mae disgwyliad arnom i adrodd ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud i gyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf a cheir gwybodaeth ynghylch nifer o'r gweithgareddau hyn yng nghorff yr adroddiad. Yn ogystal, nodir pa Amcanion Llesiant y mae prosiectau unigol yn cyfrannu tuag atynt ynghyd â gwaith dydd i ddydd yr adrannau ar ddiwedd pob pennod.

Rydym wedi cytuno mai'r ffordd orau i wreiddio'r cyfrifoldeb am weithredu yn unol â'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy yw fod Timau Rheoli Adrannau yn talu sylw i'r egwyddorion wrth gynllunio ymlaen. Mae rhywfaint o dystiolaeth fod hyn yn digwydd ond cydnabyddir bod angen asesu os yw'r ffordd yma yn llwyddo ai peidio. Byddwn yn parhau i edrych ar sut y gellir gwreiddio'r 5 ffordd o weithio o fewn yr adrannau.

Amcanion Llesiant Cyngor Gwynedd	Nodau Llesiant Cenedlaethol						
Byddwn yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn:	Llewyrchus	Cydnherth	Iachach	Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu	Yn gyfrifol ar lefel byd-eang
Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel							
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau							
Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd							
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud							
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl							
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg							
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.							



Prif effeithiau argyfwng Covid-19 ar wasanaethau Cyngor Gwynedd

Ar 23 Mawrth 2020 y cyhoeddodd Prif Weinidog Prydain, Boris Johnson, y byddai'r Deyrnas Unedig yn cychwyn Cyfnod Clo yn syth gyda chyfyngiadau llym ar hawl pobl i adael eu cartrefi. Roedd difrifoldeb yr argyfwng iechyd wedi dod yn amlwg, a thros nos yn llythrennol bu'n rhaid i'r cyhoedd, sefydliadau a busnesau dderbyn ac addasu i fywyd gwbl wahanol.

Bryd hynny roedd y cyngor yn cyflogi dros 6,200 o staff ar draws ei holl wasanaethau, ac angen parhau i ddarparu gwasanaethau 'rheng flaen' angenrheidiol i drigolion Gwynedd. Doedd hi ddim yn opsiwn i'r cyngor beidio darparu'r gwasanaethau hanfodol hyn, megis gofal i oedolion a phlant bregus, neu gasglu gwastraff. Bu Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi cyfarwyddiadau a rheolau cyson ar fyw a gweithio yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn. Roeddem fel cyngor yn ymateb i'r cyfarwyddiadau hyn drwy gynllunio sut i barhau i ddarparu gwasanaeth a chefnogaeth tra'n cadw trigolion a staff yn ddiogel ar yr un pryd.

Ar ddydd Gwener 20 Mawrth y caeodd **ysgolion y sir**, gyda'r cwricwlwm yn cael ei oedi. Wyddai neb ar y pryd na fyddai'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dychwelyd i'r stafell ddosbarth tan ganol mis Gorffennaf. Ail-bwrpaswyd 62 o'n hysgolion rhwng 23 Mawrth a 17 Gorffennaf i fod yn darparu gofal am o leiaf un diwrnod rhwng Llun a Gwener i blant bregus a phlant gweithwyr allweddol. Bu gweddill y flwyddyn yn gyfnod o addasu darpariaeth addysg, yn aml ar fyr rybudd, mewn ymateb i ganllawiau Llywodraeth Cymru.

Cewch lawer fwy o fanylion am y ddarpariaeth addysg a chefnogaeth lles i blant a phobl ifanc Gwynedd ym mhennod yr Adran Addysg yn rhan 2 o'r adroddiad hwn, ond mae'n deg dweud mai chwyldro mewn darpariaeth a gafwyd yn ystod 2020/21.

Wrth reswm, un o'r meysydd amlycaf i gael eu taro gan yr argyfwng wrth i ni barhau i geisio gofalu am ein trigolion fwyaf bregus oedd y **maes gofal**. Roedd pobl dros 70 oed wedi cael cyngor i fod yn benodol ofalus ac i osgoi cymysgu cyn i'r Cyfnod Clo swyddogol cyntaf ddechrau. Yn yr un modd, cynghorwyd na ddylai ymweliadau 'diangen' i gartrefi gofal barhau.

Dylid nodi nad ar 23 Mawrth y dechreuodd y gwaith o ymateb i'r pandemig yn y maes yma felly, gyda threfniadau rheoli haint mewn cartrefi gofal ac yn y gymuned eisoes ar waith, yn ogystal ag ymdrechion i sicrhau fod staff a thrigolion bregus yn cael eu diogelu. Roeddem wedi bod yn dosbarthu stoc PPE a dderbyniwyd gan y Llywodraeth i wasanaethau gofal mewnol y cyngor yn ogystal â gwasanaethau gofal annibynnol y sir er mwyn sicrhau fod ganddynt yr offer priodol i fedru delio ag unrhyw achosion Covid-19 fyddai'n codi. Ond, o'r dyddiad hwnnw ymlaen y symudodd y broses o greu ffyrdd newydd o weithio ar garlam.

Bu nifer o swyddogion yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn canolbwyntio eu hymdrechion yn llwyr ar gynnal cyswllt rheolaidd iawn gyda'n gwasanaethau mewnol a'n darparwyr gofal annibynnol er mwyn sicrhau cefnogaeth briodol ar eu cyfer, gan gynnwys sicrhau eu bod yn ymwybodol o ganllawiau diweddaraf y Llywodraeth ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Buont hefyd

yn cadw cofnod o'r nifer o achosion Covid-19, yr angen am brofion i staff a chleientiaid, stoc offer PPE ac yn sicrhau cefnogaeth briodol yn unol â hynny. Roedden nhw hefyd yn gyfrifol am sicrhau cyswllt addas pan fo angen rhwng y darparwyr a'n gwasanaethau iechyd a diogelwch ac iechyd yr amgylchedd.

Yn ystod cyfnod cynnar yr argyfwng, hyd nes bod modd i aelodau'r cyhoedd drefnu prawf Covid-19 eu hunain, roeddem yn gyfrifol am weinyddu'r llwybr cyfeirio oedd yn galluogi staff rheng flaen y maes gofal i gael prawf pe baent yn dangos symptomau. Roedd yr adran hefyd yn cefnogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyda'r drefn o brofi'n rheolaidd yn y cartrefi gofal drwy ddarparu cymorth i ddosbarthu a chasglu profion. Bu cartrefi gofal y sir yn hynod ymrwymedig wrth iddynt roi trefniadau mewn lle i sicrhau fod profion rheolaidd yn gallu digwydd i ddiogelu trigolion. Roedd hyn yn ofyn sylweddol arnynt o ran amser ac hyfforddiant, ac yn golygu fod rhaid i staff fynychu eu gwaith ar ddyddiau lle nad oeddent yn gweithio.

Ers mis Rhagfyr 2020 rydym wedi bod yn gyfrifol am archebu a dosbarthu profion LFDs (profion lle mae'r unigolyn yn profi ei hun) ar gyfer holl ddarparwyr gofal y sir i sicrhau bod gan staff rheng flaen y maes gyflenwad digonol i allu profi dwywaith yr wythnos. Drwy gydol y flwyddyn mae swyddogion yr adran wedi bod yn dilyn materion unigol yn ymwneud â chanlyniadau profion, gan gadw cyswllt rheolaidd gyda phartneriaid allweddol fel y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru er mwyn adnabod a datrys gwendidau yn y system i sicrhau trefniadau mor hwylus â phosib.

Ers diwedd 2020 bu staff y cyngor hefyd yn cynnig cymorth trefniadaethol i'r Bwrdd Iechyd ac i feddygon teulu wrth iddynt redeg y rhaglen frechu. Buom yn cydlynu rhestrau o staff rheng flaen a oedd angen y frechlyn fel blaenoriaeth a hwyluso cyfathrebu rhyngddynt a staff gofal lle bo angen. Bu dwy ganolfan hamdden cwmni Byw'n Iach yn cael eu defnyddio gan feddygon teulu fel canolfannau brechu dros dro, ac mae staff y cyngor wedi bod yn gweithio dros dro er mwyn cynorthwyo ym mhrif ganolfan frechu y Bwrdd Iechyd ym Mangor.

Wrth i ganllawiau PPE gryfhau ac i ni adfer fwyfwy o wasanaethau, daeth yr angen am offer PPE ar draws adrannau'r cyngor yn fwy amlwg – e.e. mewn ysgolion, yn yr amlogfa ac mewn nifer o wasanaethau 'wyneb i wyneb' eraill. Adeiladwyd ar y trefniadau cychwynnol a roddwyd mewn lle yn y maes gofal er mwyn creu trefniant fwy aeddfed a dibynadwy ar lefel corfforaethol oedd yn cynnwys; darparu arweiniad Iechyd a Diogelwch ar yr angen am PPE mewn wahanol sefyllfaoedd, trefn o fonitro lefelau stoc ar draws lleoliadau, trefn archebu, rhedeg storfa PPE a chasglu a dosbarthu'r offer. Mae'r gwaith yma wedi tyfu wrth i ni weld rhagor o wasanaethau'n cael eu hadfer ac nid oes unrhyw ganllawiau sy'n awgrymu na fydd PPE yn angenrheidiol yn fuan ac felly mae'r drefn hon yn parhau'n weithredol, gyda'r tebygolrwydd y bydd elfen ychwanegol o ddosbarthu profion cartref Covid-19 i staff ar draws y Cyngor yn cael ei hychwanegu hefyd. Mae staff o adrannau Cefnogaeth Gorfforaethol, Oedolion, Iechyd a Llesiant, Tai ac Eiddo a Priffyrdd a Bwrdeistrefol i gyd wedi bod ynghlwm â'r gwaith o ddod a'r drefn yma ynghyd, ac rydym yn falch iawn o'i llwyddiant i ddosbarthu miloedd o eitemau yr wythnos ar hyd a lled y sir.

Yn ehangach, rhaid cofio hefyd bod wythnosau cyntaf y Cyfnod Clo cyntaf yn gyfnod o bryder a dryswch i nifer fawr iawn o drigolion Gwynedd, yn enwedig y rhai hynny oedd wedi cael cyfarwyddyd i hunan-ynysu (shielding) neu'n methu gadael eu cartrefi. Esgorodd hyn ar ymgyrch anferth i dynnu darparwyr a gwirfoddolwyr yn y gymuned at ei gilydd er mwyn cefnogi y rhai mwyaf bregus, a bu'r cyngor yn cydlynu llawer o'r gwaith hwn. Cryfhawyd y partneriaethau gyda nifer o fudiadau eraill megis Cyngor Môn, y Cymdeithasau Tai, Cyngor ar

Bopeth a Mantell Gwynedd, ac fe ad-leolwyd nifer o staff y Cyngor o'u swyddi arferol i fod yn rhan o'r gwaith **Gwydnwch Cymunedol**.

Rhwng Ebrill a mis Medi symudodd nifer o staff y Cyngor o'u swyddi arferol i fod yn cynnig cyngor a gwybodaeth dros y ffôn i drigolion Gwynedd fel rhan o'r Tîm Cymorth Cofid. Roedd y tîm yn canolbwyntio'n bennaf ar wneud cyswllt gyda'r unigolion a oedd wedi cael cyfarwyddyd i hunan-ynysu (shielding) er mwyn sicrhau fod ganddyn nhw'r gefnogaeth angenrheidiol i ymdopi gyda chyfnod o fethu a gadael eu cartrefi. Bu eraill yn trefnu ac yn dosbarthu pecynnau bwyd i drigolion a phlant bregus; cysylltwyd â 4,781 o bobl oedd yn hunan-ynysu a threfnwyd dosbarthu pecynnau bwyd y Llywodraeth iddynt. Ar y cyd â Menter Mon, Cyngor Môn, cwmni Dylan's a'r cymdeithasau tai fe sefydlwyd gynllun dosbarthu bwyd o'r newydd, sef 'Neges'. Bu staff o sawl adran wahanol hefyd yn pecynnu bwyd oedd yn weddill mewn ysgolion ac yn ei ddosbarthu i'r Banciau Bwyd, ac roedd gwybodaeth am ble i droi er mwyn cael nwyddau angenrheidiol fel bwyd a meddyginiaeth yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd ar wefan y Cyngor a thrwy linell ffôn y Tîm Cymorth Cofid.

Sefydlwyd y **Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu**, o dan arweiniad yr Adran Amgylchedd, ym Mai 2020 a daeth yn weithredol ar 1 Mehefin 2020. Pwrpas y gwasanaeth yw i leihau lledaeniad ar draws ein cymunedau drwy gefnogi pobl sydd wedi'u heintio neu sydd wedi bod mewn cyswllt ag achos positif i ynysu'n unol â chanllawiau, cefnogi pobl â symptomau i gael mynediad at brawf Covid-19 a gweithio â phartneriaid arbenigol i reoli risgiau i bobl sy'n ynysu ynghyd â chymunedau a busnesau ehangach. Rhwng mis Mehefin 2020 a 31 Mawrth 2021 mae'r gwasanaeth wedi ymateb i 11,315 o achosion Covid-19 yng Ngwynedd (ac eithrio cleifion mewn ysbytai).

Rydym hefyd wedi ymgymryd â gwaith sylweddol ar ran awdurdodau lleol eraill Cymru, gyda'r model yn ein galluogi i fod yn fwy gwydn ledled Cymru i leihau lledaeniad a sicrhau'r defnydd gorau o gyllid cyhoeddus.

Roedd y gwaith hwn yn flaenoriaeth uchel ac felly fe ddargyfeiriwyd 7 aelod o staff o wahanol adrannau'r Cyngor yn ogystal â 5 aelod o staff 'banc', ac fe gyflogwyd 90 o staff o'r newydd i fod yn gweithio yn y tîm. Bellach, ar ddechrau 2021/22, mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflogi 102 o weithwyr.

Er mwyn cynnig cefnogaeth ariannol i'r bobl hynny gafodd gyfarwyddyd i hunan-ynysu gan y Gwasanaeth Olrhain, bu Adran Gyllid y Cyngor yn gweinyddu'r Cynllun Taliadau Hunan Ynysu ar ran Llywodraeth Cymru. Fe wnaethant brosesu 713 cais am daliad rhwng dyddiad cychwyn y cynllun ar 16 Tachwedd 2020 a diwedd Mawrth 2021.

Mae'r Adran Amgylchedd hefyd wedi bod â rôl arweiniol o safbwynt diogelu pobl a chydlynu paratodau ail-agor, gan ddelio ag achosion o orfodaeth lle bo hynny'n angenrheidiol. Penodwyd Swyddogion Ymgysylltu Cymunedol Covid-19 yn yr Adran Amgylchedd hefyd i ddarparu arweiniad ar ganllawiau diweddaraf Covid-19 i sefydliadau, busnesau ac unigolion yng Ngwynedd tra'n eu cefnogi i gydymffurfio, yn y gobaith o osgoi sefyllfaoedd o orfodaeth. Mewn sefyllfa lle'r ydym wedi bod yn aflwyddiannus yn cael gafael ar bobl dros y ffôn, mae'r swyddogion yma hefyd wedi bod yn cefnogi'r Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu i wneud cyswllt ag achosion positif neu bobl sydd wedi bod mewn cyswllt ag achos positif. Rôl y swyddogion yma yw i ymgysylltu ac addysgu ond nid i orfodi.

Mae **busnesau Gwynedd**, yn fach a mawr ac ar draws pob sector, wedi dioddef caledi a

cholledion amlwg yn ystod 2020/21. Daeth adrannau ar draws y cyngor ynghyd i gefnogi busnesau lleol gan warchod swyddi a bywoliaethau pobl Gwynedd. Sefydlwyd tasglu penodol i arwain ar y gwaith gyda'r Adrannau Cyllid, Amgylchedd a Chefnogaeth Gorfforaethol yn chwarae ran flaenllaw yn ogystal â'r Adran Economi a Chymuned. Rhannwyd yr wybodaeth a'r cyngor diweddaraf i dros 4,300 o fusnesau a mentrau lleol drwy gyfresi o fwlletinâu gwybodaeth, ac mae'r gwaith hwnnw yn parhau ymlaen i 2021/22 wrth i'r cyfyngiadau lacio.

Cafodd yr argyfwng Covid-19 **effaith ariannol sylweddol**, gyda chyfuniad o gostau ychwanegol a cholledion incwm gwerth dros £20 miliwn i'r cyngor yn 2020/21. Bu gwariant ychwanegol ar bethau amlwg fel offer PPE nad oedd y Cyngor wedi cynllunio ar ei gyfer, ond rydym wedi gallu hawlio gwariant yn ôl gan Lywodraeth Cymru.


Cyflwynodd Llywodraeth Cymru 5 cynllun grant gwahanol yn ystod y flwyddyn er mwyn cefnogi busnesau, a bu'r cyngor yn prosesu 20,000 o daliadau am gyfanswm o £106m i fusnesau yng Ngwynedd.

O safbwynt **trefniadau gweithio** staff y cyngor a oedd ddim yn gweithio i'r gwasanaethau rheng flaen a gafodd eu blaenoriaethu, mae'r rhan helaeth wedi bod yn cyflawni eu gwaith o adref ers mis Mawrth 2020, neu drwy gyfuniad o fod adref ac allan yn y gymuned.

Bu staff yn barod i addasu i'w amgylchiadau gwaith newydd yn gyflym, a chawsant gefnogaeth technoleg gwybodaeth (TG) ble bo angen. Darparwyd dros 900 gliniadur newydd, heb ystyried y ddarpariaeth i ysgolion, ac fe wnaed gwaith ychwanegol ar yr isadeiledd er mwyn diogelu rhag ymosodiadau seibr ac i gryfhau'r cysylltiadau â'r rhynggrwyd. Llwyddwyd i barhau i ddarparu gwasanaethau cyswllt cwsmer dros y ffôn a'r we drwy gydol y flwyddyn oherwydd ein bod wedi addasu ac uwchraddio ein defnydd o dechnoleg, a datblygwyd systemau hunanwasanaeth ar-lein newydd i'n trigolion, megis ceisio am grantiau busnes neu wneud apwyntiad mewn canolfan ailgylchu.

Cryfhawyd y rhwydwaith TG ym mhob un o'n hysgolion yn ogystal, a darparwyd gliniaduron neu ipad neu gyswllt rhynggrwyd i ddysgwyr nad oedd ganddynt fynediad at y we. Roedd hyn yn hanfodol er mwyn iddynt fedru parhau gyda'u haddysg.

Fel y rhan fwyaf o weithleoedd, bu staff ac aelodau'r cyngor yn cynnal eu cyfarfodydd yn rhithiol gan amlaf drwy gydol 2020/21, a llwyddodd y tîm cyfieithu i addasu'n sydyn iawn er mwyn medru sicrhau darpariaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd rhithiol. Er bod rhywfaint o oedi mewn cynnal cyfarfodydd o bwyllgorau'r cyngor wrth i ni geisio sefydlu trefniadau i gynnal cyfarfodydd yn rhithiol a sicrhau fod hynny ar gael yn ddwyieithog gyda mynediad diogel, llwyddwyd i sefydlu trefniadau, protocol ac hyfforddi aelodau yn fuan iawn gyda chyfarfodydd rhithiol o'r Cabinet yn digwydd o Ebrill 2020 ymlaen. Dros y misoedd i ddilyn, llwyddwyd i adfer pwyllgorau eraill y cyngor yn yr un modd yn unol â threfn blaenoriaeth. O ran gallu'r cyhoedd i arfer eu hawl i ddilyn trafodaethau cyhoeddus yr aelodau, llwyddwyd i gychwyn recordio cyfarfodydd a'u cyhoeddi o fewn oddeutu 24 awr i'r pwyllgor yn gynnar iawn yn y broses, ond roedd darlledu'n fyw yn fwy o her wrth geisio sicrhau darpariaeth dwyieithog. Fodd bynnag, llwyddwyd i we-ddarlledu cyfarfod y Cabinet yn fyw o mis Tachwedd 2020 ymlaen, a'r Cyngor Llawn o fis Rhagfyr 2020 ymlaen. Byddwn yn parhau i ddatblygu yn y maes yma er mwyn ymestyn y ddarpariaeth ymhellach i'r dyfodol.



Mae adran **Ymgynghoriaeth Gwynedd** yn denu incwm ac felly roedd eu gwariant net yn

£-298,000

Rhan 1

Blaenoriaethau Gwella

Mae 8 o Flaenoriaethau Gwella wedi eu hadnabod o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023. Rhain yw'r prif feysydd y credwn y mae angen i ni weithredu ynddynt er mwyn gwneud gwahaniaeth bositif i fywydau pobl Gwynedd.

O dan y 8 Blaenoriaeth Gwella isod y mae disgrifiad o'r prosiectau fydd yn cyfrannu at wireddu'r uchelgais y mae'r Blaenoriaethau Gwella yn eu disgrifio. Ar y tudalennau nesaf ceir adroddiad ar gynnydd y prosiectau hynny yn ystod 2020/21 gyferbyn â'r hyn y gwnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud yng Nghynllun Cyngor Gwynedd: Adolygiad 2020/21.

Ceir gwybodaeth bellach ynghylch yr hyn y byddwn yn ei wneud i'r dyfodol yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 trwy ymweld â

www.gwynedd.llyw.cymru/cynllunycyngor

Blaenoriaeth Gwella 1

Gwella'r amodau ar gyfer creu economi hyfyw a ffyniannus gan anelu at fwy o swyddi sy'n cynnig cyflogau da.

Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru

Blaenoriaeth Gwella 1

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae diffyg twf yn wendid yn economi gogledd Cymru gyfan, a'r gogledd orllewin yn arbennig. Er mwyn ceisio gwyrddroi'r sefyllfa daeth chwe sir y gogledd, a rhanddeiliaid eraill megis sefydliadau addysg y rhanbarth a'r sector breifat, ynghyd i sefydlu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC).

Prif gynllun y Bwrdd yw 'Cais Twf Gogledd Cymru' ac yn Nhachwedd 2019 arwyddwyd cytundeb cychwynnol rhwng y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer gwireddu'r Cais Twf. Bydd y cais yn arwain at £1.1bn o fuddsoddiad yn rhanbarth y Gogledd dros y deg mlynedd nesaf gan greu hyd at 4,000 o swyddi ledled y Gogledd.

Fel aelod o'r Bwrdd Uchelgais, ein nod fel Cyngor yw sicrhau y bydd pobl a busnesau Gwynedd yn elwa i'r eithaf o'r buddsoddiad ariannol hwn, yn enwedig mewn cyfnod pan fydd angen ymateb i sgil-ffeithiau Brexit.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau i gyfrannu at raglen waith y Bwrdd Uchelgais, gan gynnwys gwella argaeledd band eang cyflym, datblygu safle Atomfa Trawsfynydd a datblygu Canolfan Arloesedd Gwledig yng Nglynllifon. Byddwn hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad Fframwaith Economaidd Gogledd Cymru sy'n cael ei pharatoi gan Lywodraeth Cymru i adnabod prif raglenni buddsoddi rhanbarthol i'r dyfodol.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae tîm Swyddfa Rhaglen Ranbarthol wedi cael ei sefydlu gyda chefnogaeth Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Lletya. Mae gwaith wedi ei wneud i ddatblygu manylion pecyn o brosiectau rhanbarthol i'w cyflwyno fel rhan o Gais Twf Gogledd Cymru, yn cynnwys:

- Rhaglen Ddigidol i uwchraddio isadeiledd ar draws Gwynedd
- Hwb Economi Wledig Glynllifon
- Prosiect Ynni Lleol Blaengar i gymunedau
- Datblygu Safle Gorsaf Bŵer Trawsfynydd
- Datblygu eiddo busnes Parc Bryn Cegin Bangor

Yn 2020 fe wnaeth y Cyngor graffu a chymeradwyo'r cytundeb rhwng BUEGC, Llywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru am fuddsoddiad £240m yn economi gogledd Cymru. Mae achosion busnes manwl ar gyfer y prosiectau yn y broses o gael eu paratoi gyda'r bwriad o gychwyn gweithredu'r prosiectau cyntaf yn 2022.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae gwaith paratoi wedi cychwyn hefyd o adolygu'r weledigaeth twf ar gyfer gogledd Cymru, ond mae Covid-19 wedi effeithio ar amserlen datblygu'r Fframwaith Ddatblygu newydd. Paratowyd ddadansoddiad o effaith Covid-19 ar fusnesau gogledd Cymru ac ar gyflogaeth yn y rhanbarth a chytunwyd ar gyfres o fesurau i'w blaenoriaethu i'r dyfodol yn sgil y pendemig gyda'r Llywodraeth.

Amcanion Llesiant:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gaffael, neu brynu, nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn aros yn lleol. Rydym eisoes wedi cyflwyno trefniadau newydd i geisio prynu nwyddau a gwasanaethau mewn ffyrdd mwy arloesol ac effeithlon, a chymerwyd camau er mwyn hwyluso gallu busnesau i gystadlu am gytundebau.

I'r dyfodol byddwn yn ymgysylltu gyda busnesau lleol er mwyn asesu beth fyddai'n gwneud cyfleon caffael yn fwy deniadol iddynt a pha gefnogaeth pellach sydd eu hangen arnynt. Byddwn hefyd yn adolygu ein trefniadau caffael er mwyn sicrhau bod y cydbwysedd rhwng cadw'r budd yn lleol a chael gwerth am arian yn un priodol.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

O ran gwariant refeniw, gwelwyd cynnydd yn y gwariant lleol i £78m (63% o'r holl wariant refeniw) o'i gymharu â £71m (60% o'r holl wariant refeniw) y flwyddyn flaenorol.

O fewn y perfformiad hwnnw, gwelwyd amrywiaethau mawr yn y penawdau gwariant gyda rhai meysydd yn gwario llai ac eraill yn gwario mwy. Roedd yr amrywiaethau mwyaf i'w gweld yn y meysydd canlynol:

- Costau gyda darparwyr lleol Gofal Oedolion a Phlant wedi cynyddu o £8m.
- Dosbarthu Arian Grant i fusnesau lleol wedi cynyddu o £4m.
- Gwariant peirianeg sifil wedi cynyddu o £1m.

O ran gwariant cyfalaf, gwelwyd lleihad yn y gwariant lleol i £3.6m (23% o holl wariant cyfalaf) yn 2020/21 o'i gymharu â £5.1m (33% o'r holl wariant cyfalaf) y flwyddyn flaenorol. Mae hynny oherwydd effaith o weithio gyda chyfyngiadau Covid-19 yn bennaf ble nad oedd yn bosib cwblhau gwaith ar ein ffyrdd. Hefyd, adeiladwyd ysgolion newydd megis Y Garnedd a'r Faenol ble penodwyd contractwyr o du allan i Wynedd i gyflawni'r gwaith.

Rydym wedi parhau gyda'r gwaith o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth busnesau o drefn caffael y Cyngor gan ddarganfod ffyrdd pellach i'w cefnogi i gyflawni'r gwasanaethau rydym eu hangen.

Rydym hefyd wedi sefydlu prosiect er mwyn cynnwys agweddau o fuddion cymdeithasol lleol o fewn y drefn asesu bidiau am contractau. Mae'r drefn bresennol yn edrych ar bris ac ansawdd yn unig a byddai ychwanegu'r elfen newydd yma yn ein galluogi i gyfrifo gwerth ehangach o weithredu cytundebau a roddir gan y Cyngor.

Amcanion Llesiant:

- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae cyflogau yng Ngwynedd ymysg yr isaf unman ym Mhrydain. Roedd tâl wythnosol yn y Sir yr isaf yng Nghymru yn 2019 (£459 ar gyfartaledd) â thâl isel ar ei waethaf yn ein cymunedau gwledig (£423). Mae cyflogau isel, yn anorfod, am arwain at lefelau uwch o dlodi a dad-boblogi gwledig, sydd yn eu tro yn cael effaith ar ein cymunedau, dyfodol ein pobl ifanc ac ar y Gymraeg fel iaith gymunedol iach.

Mae'r prosiect Creu Swyddi Gwerth Uchel eisoes wedi cymryd camau i wella'r sefyllfa, megis sicrhau arian Ewropeaidd i wireddu cynllun i ddatblygu gofod i fusnesau leoli yng Nghanolfan Awyrfod Eryri yn Llanbedr, a chynllun i gynyddu'r nifer o ddisgyblion ysgol sy'n astudio'r pynciau a ddymunir gan fusnesau o fewn sectorau sy'n talu'n dda.

I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r cynlluniau sydd wedi eu disgrifio uchod, a hefyd yn arwain ar gynlluniau eraill megis datblygu cynllun gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i baratoi Safle Atomfa Trawsfynydd er mwyn denu buddsoddiad i greu ynni carbon isel. Cynlluniau o'r fath fydd yn sicrhau parhad swyddi gwerth uchel yn lleol.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Wedi blynyddoedd o geisio dylanwadu ar Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear cafwyd cadarnhad yn 2020 y bydd gwaith dadgomisiynu safle Gorsaf Bŵer Trawsfynydd yn parhau gan ddiogelu gwaith ar y safle am flynyddoedd i ddod.

Sicrhawyd buddsoddiad o £20m drwy Gais Twf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ddatblygu safle Trawsfynydd ar gyfer defnydd cyflogaeth i'r dyfodol ac mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i sefydlu cwmni newydd fel cerbyd i arwain ar y datblygiad.

Mae gwaith paratoi i uwchraddio safle Maes Awyr Llanbedr wedi cychwyn ynghyd â pharatoadau i greu ffordd mynediad newydd i'r safle. Mae trafodaethau yn parhau gyda chwmnïau sydd wedi datgan diddordeb mewn lleoli ar y safle er mwyn gallu manteisio ar yr adnoddau a chael mynediad i'r parth awyr. Mae Llywodraeth Prydain wedi cyhoeddi'r safle fel un o'i safleoedd lansio awyrfod ac mae'r trefniadau rheoleiddio perthnasol yn cael eu rhoi mewn lle.

Mae paratoi pobl ifanc i elwa o'r cyfleoedd gwaith yn allweddol a thrwy gynllun [STEM Gogledd](#) cafodd 140 o bobl ifanc gyfleoedd a phrofiadau mewn meysydd yn ymwneud â gwyddoniaeth a thechnoleg yn ystod 2020 a hynny er gwaethaf y cyfyngiadau yn sgil y pandemig. Ymhlith pethau eraill cynhaliwyd gweminar i ddathlu merched lleol sy'n beirianwyr neu'n wyddonwyr, gweithdy i helpu pobl ifanc lleol i astudio i fod yn feddygon a chyfres o sesiynau i fagu diddordeb mewn pynciau perthnasol gyda disgyblion 8 o ysgolion uwchradd Gwynedd.

Mae'r diwydiannau creadigol hefyd wedi ei adnabod fel sector sydd yn cynnwys swyddi gwerth uchel ac mae'r Cyngor yn cydlynu'r rhwydwaith Gogledd Greadigol er mwyn cydweithio gyda'r sector i gynnal, creu a recriwtio swyddi. Mae bron i 800 bellach yn dilyn y rhwydwaith drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Bu'r rhwydwaith yn weithgar iawn yn cynrychioli llais y sector creadigol mewn ymateb i argyfwng Covid-19 hefyd.

Amcanion Llesiant:

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae natur ein heconomi wledig yn golygu mai un person yn unig sy'n gweithio yn 79% o fusnesau Gwynedd, ac mae gormod o waith o fewn sectorau nad ydynt yn talu'n dda. Mae hyn yn arwain at fgygythiadau o ran cynaliadwyedd ein cymunedau gwledig.

Mae sicrhau cysylltedd digidol i'n cymunedau gwledig, a bod gan y gweithlu a busnesau gwledig y sgiliau i fanteisio arnynt, yn fater sydd wedi bod yn derbyn sylw eisoes. Rydym wedi cynnal peilot i roi WiFi cyhoeddus mewn 8 tref wledig, ac i gynyddu mynediad at offer cyfrifiadurol. Rydym hefyd yn rhan o raglen ARFOR, sef buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i greu mwy a gwell swyddi mewn ardaloedd yng ngorllewin Cymru ble mae canran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

I'r dyfodol byddwn yn parhau i weithredu fel rhan o raglen ARFOR, i ymestyn y ddarpariaeth ddigidol mewn cymunedau ac yn gweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a'r sector breifat er mwyn sefydlu hwb arloesi gwledig yng Nglynllifon gan roi sylw arbennig i'r sector bwyd a diod.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Er gwaethaf heriau 2020/21 mae'r cynllun wedi cyflawni'n helaeth yn ystod y flwyddyn.

Cydlynwyd rhaglen [ARFOR](#) ar draws pedair sir gan arwain ar weithgaredd ar y cyd megis [Bwrlwm ARFOR](#) sy'n annog busnesau a'u cwsmeriaid i ymfalchïo yn y Gymraeg. Yn lleol, cynigwyd grantiau i fusnesau dyfu gan gynnwys; datblygiad unedau diwydiannol newydd yn Nefyn, cefnogi merch o'r Bala i ddychwelyd i'r fro i gychwyn busnes yn gwerthu nwyddau Cymreig a helpu busnes cig lleol ymestyn eu cynnig. Bydd y grantiau yn arwain at greu 100 o swyddi yn lleol.

Mae ARFOR yng Ngwynedd hefyd wedi helpu i sefydlu canolfan [Ffiws](#) mewn siop wag ym Mhorthmadog i roi'r cyfle i fusnesau lleol ddysgu sut i ddefnyddio offer cyfoes megis argraffwyr 3D neu beiriant torri coed a reolir gan gyfrifiadurol. Yn dilyn profiad o ddefnyddio'r offer yn Ffiws, un enghraifft o lwyddiant y fenter yw bod busnes lleol sy'n gwerthu offer cadw gwenyn wedi buddsoddi mewn offer newydd a symud i uned ddiwydiannol i alluogi'r busnes i dyfu ymhellach.

Mae'r cynllun hefyd wedi sicrhau arian i adeiladu ar waith Ffiws drwy gefnogi cymunedau i leihau gwastraff, hyrwyddo cadwyni cyflenwi lleol a chreu cyfleoedd i fusnesau Gwynedd.

Ar draws Gwynedd a Môn mae ARFOR hefyd wedi mynd i'r afael â'r her o golli pobl ifanc o'r ardal dan faner [Llwyddo'n Lleol 2050](#). Mae'r prosiect yn cefnogi pobl ifanc i fentro, cychwyn busnes a chyfleu be sy'n dda am ein hardal i'w cyfoedion.

Drwy gydol y flwyddyn mae'r rhaglen LEADER yng Ngwynedd hefyd wedi parhau i gyflawni er gwaetha'r amgylchiadau. Mae wedi cynnal ystod o weithgareddau i hyrwyddo arloesedd; yn eu plith mae cynllun sydd yn treialu darparu ceir trydan at ddefnydd cymunedol. Mae'r ceir wedi cael defnydd helaeth yn ystod y pandemig gan helpu i gludo bwyd i aelodau bregus cymdeithas a chynnig help i drigolion cymunedau anghysbell fynychu apwyntiadau meddyg gan bod llai o drafnidiaeth gyhoeddus ar gael.

Mae LEADER wedi cefnogi busnesau lleol i gychwyn masnachu ar-lein; defnyddio technoleg i fesur defnydd canol trefi yng Ngwynedd i weld beth yw effaith cyfyngiadau Covid-19 a chyfrannu at ddetholiad o gynlluniau i gefnogi cymunedau dros gyfnod y clo, er enghraifft drwy gynlluniau cludo bwyd.

Mae'r cynllun hefyd wedi parhau gyda'i ymdrechion i sicrhau fod band eang da ar gael i bawb yng Ngwynedd gan gefnogi ymdrechion cymunedau unigol megis Croesor, Pistyll a Dyffryn Ardudwy i wella argaeledd band eang.

Amcanion Llesiant:

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae canol trefi bywiog yn gallu cyfrannu'n sylweddol i lewyrch economaidd a chymdeithasol ardaloedd lleol.

Mae "stryd fawr" nifer o drefi Gwynedd angen cefnogaeth i sicrhau eu bod yn ffynnu er mwyn cynnal a chreu gwaith a darparu'r ystod o nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen ar drigolion ac ymwelwyr.

Rydym eisoes wedi bod yn cydweithio â busnesau ym Mangor a Chaernarfon i hyrwyddo'r Ardaloedd Gwella Busnes (BIDS) ac i ddenu adnoddau Rhaglen Adfywio Rhanbarthol Llywodaeth Cymru. Buom yn llwyddiannus yn sefydlu rhaglen fenthyg i uwchraddio adeiladau segur yn ardaloedd Caernarfon, Bangor, Bethesda a Phenygroes, ac yn cydweithio â phartneriaid yn Harlech er mwyn sefydlu rhaglen i adfywio canol y dref yno hefyd. I'r dyfodol byddwn yn parhau â'r gwaith uchod, ac yn paratoi cynlluniau ar gyfer 13 o ddalgylchoedd yng Ngwynedd a hynny ar sail yr hyn sydd yn bwysig i drigolion o fewn y cymunedau hyn.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Mae canol dinas Bangor wedi ei adnabod fel blaenoriaeth ranbarthol o fewn Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio Llywodraeth Cymru, ac felly yn gymwys am grantiau cyfalaf. Fel rhan o Gynllun Adfywio Canol Dinas Bangor, llwyddwyd i:

- gefnogi 9 cais gwerth £750,000 o grant ar gyfer gwella ac adfer eiddo gwag ar y Stryd Fawr
- sicrhau £1.2m ar gyfer cynllun Y Nyth cwmni Fran Wen i ddatblygu canolfan greadigol newydd yn Eglwys Santes Fair
- sicrhau cyllideb refeniw £20,000 a pharatoi adroddiad cychwynnol i ystyried lleoliadau posib ar gyfer datblygu Canolfan Iechyd a Lles newydd yng nghanol y ddinas
- arwain ar Bartneriaeth Bangor a chydweithio gydag amrediad o bartneriaid ar drawstoriad o gynlluniau o fewn y ddinas megis cynllun isadeiledd gwyrdd, cynllun canolfan i'r digartref, cynllun Bwyd Da Bangor a chynllun isadeiledd Bae Hiracl.

Bu'r Adran Economi a Chymuned yn llwyddiannus yn sicrhau pecyn benthyciadau cynhwysfawr gwerth £1.1m fydd yn targedu canol trefi ar draws y sir. Bydd yr adran yn cydweithio gyda'r Adran Tai ac Eiddo i ddod ag eiddo masnachol a phreswyl yng nghanol trefi yn ôl i ddefnydd drwy gynlluniau'r Cyngor ynghyd â chefnogi cynlluniau trydydd parti.

Bu i'r adran gydweithio gyda busnesau ym Mangor a Chaernarfon i gefnogi'r Ardaloedd Gwella Busnes. Cynhaliwyd pleidlais ffurfiol ymysg busnesau a pherchnogion eiddo yn ystod Mawrth 2021 a phenderfynwyd i barhau gyda'r Ardaloedd Gwella Busnes am y 5 mlynedd nesaf.

Mewn ymateb i bandemig Covid-19, sefydlwyd trefniadau mewn 20 o drefi a chanolfannau ar draws Gwynedd ar gyfer gweithredu mesurau diogelwch tymor byr gan ymgysylltu gyda Chynghorau Tref a Chymuned a grwpiau busnes lleol. Yn ogystal llwyddwyd i:

- ddenu grant o £365,000 o gronfa gyfalaf Llywodraeth Cymru i weithredu pecyn o brosiectau i hybu canol trefi. Mae'r pecyn yn cynnwys datblygu is-adeiledd digidol o fewn canol trefi ynghyd â gwelliannau i wneud ardaloedd masnachol yn fwy atyniadol. Bydd datblygu'r is-adeiledd ddigidol yn galluogi'r trefi i ddarparu WiFi cymunedol a chasglu data am ddefnydd ein canol trefi a threialu defnydd arloesol o'r dechnoleg sydd ar gael
- sicrhau pecyn o £135,000 o gronfa cyfalaf adfywio Llywodraeth Cymru i weithredu gwelliannau ar raddfa fach mewn canol trefi ac i weinyddu cynllun Cronfa Croesawu'r Cwsmer yn Ddiogel. Llwyddwyd i gefnogi 56 busnes o fewn y sir gyda hyd at £2,000 yr un i gefnogi busnesau i weithredu o fewn cyfyngiadau Covid-19 gan addasu eu gofodau allanol.

Amcanion Llesiant:

- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Yn ystod 2019/20 cyflwynwyd enwebiad llawn o Wynedd i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol ac i Unesco ar gyfer dynodiad Safle Treftadaeth y Byd. Mae'r enwebiad yn rhoi cyfle i ni gydnabod cyfraniad y diwydiant llechi traddodiadol ar blatfform rhyngwladol, ac i ddathlu a gwarchod y diwylliant Cymraeg sydd ynghlwm â'r ardaloedd hynny.

Rydym eisoes wedi defnyddio enwebiad Safle Treftadaeth y Byd fel arf i adfywio ein cymunedau llechi ac i gynyddu gwerth y diwydiant ymwelwyr. Mae £1m o adnoddau ychwanegol wedi eu denu i'r sir trwy'r Gronfa Dreftadaeth, Llywodraeth Cymru, Yr Undeb Ewropeaidd a Pharc Cenedlaethol Eryri trwy brosiect LleCHI.

I'r dyfodol byddwn yn cydweithio gyda'r cymunedau llechi, trwy brosiect LleCHI, i greu rhaglen o weithgareddau adfywio yn yr ardaloedd hyn fydd yn gwella gwedd a golwg cymunedau, gwella ansawdd y profiad i ymwelwyr, ac yn arwain at gynnydd ym mherchnogaeth trigolion o'u treftadaeth, iaith a diwylliant.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Yn ystod 2020/21 gwnaethom ymateb i ymholiadau ar ein henwebiad gan y corff asesu swyddogol ar ran Unesco a gwnaethom hefyd drefnu ymweliad gan asesydd swyddogol dros 7 diwrnod yn ystod yr hydref. Er gwaethaf cyfyngiadau Covid-19, bu i ni fedru cynnal ymweliad diogel a llwyddiannus gan gynnal noson groesawu swyddogol trwy Zoom gyda Phrif Weinidog Cymru, Gweinidog Llywodraeth Prydain a chynrychiolwyr lleol a chenedlaethol. Derbyniwyd adroddiad interim cadarnhaol o ran ein henwebiad gan yr aseswyr.

Fel rhan o drefniadau rheoli'r enwebiad i'r dyfodol, bu i ni lunio'r canlynol:

- Cynlluniau Rheoli Lleol gyda thirfeddianwyr
- Canllaw Cynllunio Atodol Drafft gyda thirfeddianwyr
- canllaw i ofalu am ein tirlun llechi gyda chymunedau a thirfeddianwyr
- amcanion economaidd drafft ar gyfer y dyfodol gyda rhanddeiliaid a thirfeddianwyr
- Cynllun Rheoli Risg gyda rhanddeiliaid a thirfeddianwyr
- strategaeth gyfathrebu diogelwch chwareli
- briff ar gyfer gosod gwaelodlin ieithyddol i brosiectau yn ardal yr enwebiad.

Bu i'n gweithgareddau cymunedol ac adfywio barhau trwy'r cynllun LleCHI a gyllidir trwy Gronfa Treftadaeth y Loteri, Cyngor Gwynedd, Cronfa Eryri ac Arloesi Gwynedd Wledig. Mae'r prosiect yma wedi bod yn ganolog i'r holl waith ymgysylltu, adfywio cymunedol a gweithgaredd diwylliannol sy'n ymwneud â'r enwebiad. Mae wedi cefnogi llawer o weithgareddau i hybu balchder bro, diwylliant, treftadaeth ac iaith ac hefyd yn fodd o ddathlu cyfraniad ein bröydd llechi i'r byd. Roedd gweithgareddau'n cynnwys:

- parhad gweithgareddau i Lysgenhadon Ifanc LleCHI gan gynnwys ymweliadau safle, creu fideos ac arddangosfeydd

- prosiectau celf gymunedol ac adfywio ym Methesda, Deiniolen, Llanberis, Penygroes, Blaenau Ffestiniog, Abergynolwyn a Thywyn
- datblygu Cynllun Dehongli ar gyfer y safle cyfan a dechrau ar y gwaith o ddatblygu gwefan newydd
- trafodaethau gyda phartneriaid ar gyfer cynllun olynol i LleCHI ac yn benodol gydag Amgueddfa Lechi Cymru ar ddatblygiadau posib ar y safle
- cymorth i weithredu blaenoriaethau yn y Cynlluniau Rheoli Lleol yn Llechwedd, Dorothea, Parc Padarn a safleoedd eraill.

Amcanion Llesiant:

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**
- **Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.**

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Twristiaeth yw un o brif sectorau economaidd Gwynedd ac mae'n gyflogwr pwysig. Ond mae'r cynnydd mewn nifer ymwelwyr yn ychwanegu'n sylweddol at y pwysau sydd ar isadeiledd cyrchfannau'r sir; cost sy'n cael ei ysgwyddo'n bennaf gan drigolion Gwynedd.

Rydym eisoes wedi ymgynghori â chynrychiolwyr o'r sector ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri er mwyn edrych ar sut y gallwn ddenu incwm i gefnogi'r diwydiant, a beth yw'n blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

I'r dyfodol byddwn yn edrych i barhau i gydweithio gyda'r diwydiant twristiaeth a'n partneriaid i greu Cynllun Rheoli Twristiaeth newydd i Wunedd fydd yn ystyried y ffordd orau o gael y budd mwyaf i'r diwydiant ac i drigolion Gwynedd. Drwy wneud hyn, byddwn yn ceisio gwella cyfraniad y sector i gymunedau ac economi Gwynedd, gwella darpariaeth cyrchfannau'r sir ynghyd â chynyddu safon darpariaeth y diwydiant i ymwelwyr a phobl Gwynedd.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Yn ystod 2020/21 gwnaethom barhau i gyfarfod gydag Is-grŵp Twristiaeth y Bwrdd Adfywio er mwyn deall y sector economi ymweld yng Ngwynedd a datblygu egwyddorion cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth gyda'r sector twristiaeth ac adnabuwyd arfer da mewn twristiaeth cynaliadwy o ardaloedd eraill o Brydain a'r byd.

Penodwyd ymgynghorydd gydag arbenigedd yn y maes twristiaeth cynaliadwy rhyngwladol i gyd-weithio gyda'r Cyngor ar ddatblygu egwyddorion a chynllun gweithredu cysylltiol.

Cyflwynwyd yr egwyddorion economi ymweld cynaliadwy drafft i gyfarfod o holl Aelodau'r Cyngor a Pharc Cenedlaethol Eryri fis Mawrth 2021 ac yn sgil yr adborth, cymeradwywyd yr egwyddorion drafft i ymgysylltu ac ymgynghori arnynt ar 30 Mawrth 2021. Mae'r egwyddorion drafft wedi eu selio ar y weledigaeth ganlynol:

"Economi Ymweld er budd a lles pobl Gwynedd"

A'r 3 egwyddor ac is-egwyddorion cysylltiedig canlynol:

1. Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth
 - economi ymweld ym mherchnogaeth ein cymunedau ac sy'n hybu balchder bro
 - economi ymweld sy'n arwain mewn Treftadaeth, Iaith, Diwylliant ac Awyr Agored
2. Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd
 - economi ymweld sy'n parchu ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig ac yn ystyried goblygiadau datblygiadau'r economi ymweld ar ein hamgylchedd heddiw ac i'r dyfodol
 - economi ymweld sy'n arwain mewn datblygiadau ac isadeiledd cynaliadwy a charbon isel.

3. Sicrhau bod cymunedau Gwynedd yn cael mwy o fantais nac anfantais
- economi ymweld sy'n sicrhau bod isadeiledd ac adnoddau'n cyfrannu at les y gymuned trwy'r flwyddyn
 - economi ymweld sy'n ffynnu er lles pobl a busnesau Gwynedd ac sy'n cynnig swyddi da i bobl leol trwy'r flwyddyn
 - economi ymweld sy'n hyrwyddo perchnogaeth leol, yn cefnogi cadwyni cyflenwi a chynnyrch lleol
 - economi ymweld sy'n gwella ansawdd y profiad a'r cynnig i bawb.

Yn dilyn cymeradwyo'r egwyddorion economi ymweld drafft, y bwriad fydd cynnal ymarferiad ymgysylltu ehangach efo'r cyhoedd, busnesau a phartneriaid allweddol. Bydd angen parhau i ddatblygu trefniadau i weithredu a gwireddu'r egwyddorion mewn partneriaeth gyda Pharc Cenedlaethol Eryri, y sector a chymunedau Gwynedd. Er mwyn gwneud hynny, bydd y Cyngor yn datblygu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd fydd yn cyfrannu at Fframwaith Adfywio Gwynedd

Amcanion Llesiant:

- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**
- **Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.**



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae'n gyfnod ansicr i fusnesau ar hyn o bryd o ganlyniad i Brexit a newidiadau mewn trefniadau masnachu a chystadlu. Mae Cyngor Gwynedd yn benderfynol o helpu mentrau lleol i addasu ac ymateb i'r her ac rydym eisoes wedi chwarae rhan rhagweithiol yn y trafodaethau ynglŷn â dyfodol cymorth busnes yng Ngogledd Cymru a dyfodol arian i gefnogi'r economi wedi Brexit.

Mae busnesau'r sir hefyd yn ymwneud â nifer o adrannau'r Cyngor neu'n derbyn gwasanaeth ganddynt, gan gynnwys trethi, cynllunio, safonau masnach, rheolaeth adeiladu a chaffael. Rydym eisoes wedi ymgynghori â busnesau'r sir i weld a yw'r cymorth a'r gefnogaeth y maent yn ei gael gan y Cyngor y gorau y gall fod.

I'r dyfodol, byddwn yn ymateb i farn busnesau am y cymorth a gânt gan y Cyngor ac yn sicrhau fod pob rhan o'r Cyngor yn ystyried sut gallent gynnig cymorth i gefnogi busnesau.

Byddwn hefyd yn annog busnesau Gwynedd i wneud y gorau o'r cymorth sydd ar gael gan eraill, ac i leisio anghenion busnesau Gwynedd yn rymus wrth drafod gyda'n partneriaid, yn enwedig yng ngoleuni Brexit.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Mae 2020/21 wedi bod yn flwyddyn anodd i fusnesau yng Ngwynedd o ganlyniad i Brexit ac, yn fwyaf arbennig, pandemig Covid-19.

Roedd y gwaith oedd eisoes wedi cychwyn drwy'r cynllun i hwyluso cydweithio ar draws adrannau'r Cyngor wedi gosod sylfaen gadarn wrth i ni ymateb ar frys i effaith Covid-19 ar fusnesau'r sir.

O ganlyniad, mae adrannau'r Cyngor wedi cydweithio'n agos yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau fod anghenion busnesau yn cael eu hystyried a chymorth priodol yn cael ei ddarparu.

Llwyddwyd i sefydlu tasglu rhyngadrannol yn syth wedi cychwyn y Cyfnod Clo mis Mawrth 2020 i arwain ein hymateb ac mae'r Cyngor wedi llwyddo i:

- ddosbarthu dros £110m o gymorth ariannol yn uniongyrchol i fusnesau gan ddarparu trefn ymgeisio ar-lein i helpu mentrau gael mynediad hwylus i gymorth
- sicrhau fod busnesau yn derbyn gwybodaeth briodol ac amserol i'w caniatáu i weithio'n ddiogel ac yn unol â rheoliadau
- ennyn cefnogaeth busnesau i raeadru gwybodaeth i drigolion ac ymwelwyr i'r ardal gan helpu i gadw ein cymunedau yn ddiogel
- sicrhau fod y Cyngor yn siarad gydag un llais â busnesau gydag ymagwedd o blaid eu cefnogi i'r gorau o'n gallu. Er enghraifft, bu'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn helpu busnesau i gydymffurfio ac yn eu cyfeirio at ffynonellau cymorth a'r Adran Economi a Chymuned yn hyrwyddo arfer da o ran cydymffurfiaeth ymhlith busnesau

- gynnal ymgyrch i annog trigolion lleol i gefnogi busnesau drwy brynu'n lleol.

Mae'r gwaith wedi ennyn diolch gan llawer o fusnesau, megis:

"Dim ond gair i ddiolch i Gefnogaeth Busnes Gwynedd am eich bwletinau a'r grantiau cefnogi busnes. Mae'r ddau wedi bod yn amhrisiadwy i fusnes bach fel ni ac rydym wirioneddol yn gwerthfawrogi pa mor sydyn ac effeithiol rydych wedi ymateb i amgylchiadau sydd wedi newid yn gyflym i helpu busnesau i barhau....."

Mae'r Cyngor hefyd wedi ymdrechu'n galed i sicrhau fod busnesau Gwynedd yn ymwybodol o oblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd ac unrhyw ofynion newydd. Mae gwybodaeth am y rheoliadau newydd a'r cymorth sydd ar gael wedi eu cynnwys yn rheolaidd yn ein bwletinau gwybodaeth ac rydym yn siarad yn gyson gyda busnesau lleol wrth i unrhyw heriau yn deillio o Brexit ddod i'r amlwg.

Yn yr un modd, mae'r Cyngor wedi bod yn cydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a siroedd eraill y gogledd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i leisio anghenion busnesau Gwynedd ac i gasglu a rhannu arfer da.

Amcanion Llesiant:

- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.**



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu gweledigaeth genedlaethol ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion datblygu sgiliau hanfodol yng Nghymru a'r economi ehangach, adnabod y meysydd blaenoriaeth a sut y bydd prentisiaethau yn rhan annatod o wireddu hynny.

Mae'r Cyngor eisoes wedi adnabod meysydd priodol ar gyfer sefydlu prentisiaethau ac wedi clustnodi cyllid er mwyn gwireddu'r cynlluniau hynny am y ddwy flynedd nesaf. Roedd 17 prentis wedi eu penodi i weithio yn y Cyngor erbyn diwedd Rhagfyr 2019.

I'r dyfodol byddwn yn symud ymlaen i benodi mwy o brentisiaid mewn meysydd blaenoriaeth yn ystod 2020/21 gan ystyried ymarferoldeb parhad y Cynllun tu hwnt i'r ymrwymiad presennol.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

O'r 17 prentis gwreiddiol, penodwyd un ar ddeg o ferched a chwech o ddynion. Roedd amrediad o oedrannau gyda dau brentis o dan 18, un ar ddeg prentis rhwng 18 i 24 a phedwar prentis dros 25. Erbyn diwedd 2020/21 mae wyth prentis wedi derbyn swydd o fewn y Cyngor ond yn parhau i gwblhau eu cymwysterau. Mae un prentis wedi gadael y cynllun yn wirfoddol.

Ar ddechrau 2021/22 rydym ynghanol y broses o recriwtio a phenodi 19 prentis ychwanegol mewn 9 maes gwahanol, sy'n golygu y byddwn wedi recriwtio cyfanswm o 35 prentis efo'r buddsoddiad o £300,000 a wnaed yn wreiddiol gan y Cabinet. Mae hyn yn 15 prentis yn fwy na'r hyn a dargedwyd yn y cynllun gwreiddiol, gyda'r prif reswm am hyn oherwydd bod gwasanaethau'r Cyngor wedi cyfrannu mwy at gostau'r cynllun na'r hyn a ragwelwyd fyddai'n bosibl.

Rydym wedi cynllunio i gynnig o leiaf 20 prentisiaeth y flwyddyn dros y dair blynedd nesaf. Bydd hyn oll yn ychwanegol i'r 35 prentisiaeth a sefydlwyd eisoes ac yn ein galluogi i ddatblygu ymhellach drwy weithio mwy gyda busnesau bach, contractwyr lleol a mentrau cymunedol i sefydlu a chefnogi swyddi prentisiaethau newydd.

Amcanion Llesiant:

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



27



Blaenoriaeth Gwella 2

Sicrhau fod pob disgybl yn cael y cyfle i gyflawni ei botensial drwy sicrhau fod gennym gyfundrefn addysg gynaliadwy, sy'n darparu cyfleoedd datblygu perthnasol i bawb waeth beth yw eu cefndir neu ymhle y maent yn byw.

Dalgylch Bangor, Dalgylch y Berwyn (Y Bala), Dalgylch Treferythyr (Cricieth), Darpariaeth Ôl-16

Blaenoriaeth Gwella 2

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Oherwydd fod nifer o'n hysgolion yn hen ac yn anaddas i gyfarch anghenion dysgu ac addysgu i'r dyfodol, a bod heriau ynghlwm â darpariaeth addysg uwchradd ac ôl-16 yn y sir, rydym yn cynllunio a gwireddu prosiectau arloesol i sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael eu haddysgu yn yr amgylchedd ddysgu gorau posib.

Rydym wedi cwblhau'r gwaith o sefydlu Ysgol Godre'r Berwyn, yn **nalgylch Y Bala**. Agorodd yr ysgol i ddisgyblion 3-19 oed ym mis Medi 2019, ynghyd â gwasanaethau i'r gymuned lleol megis llyfrgell a theatr. Rydym wedi cychwyn ar y gwaith i wella'r ddarpariaeth yn **nalgylch Bangor** a **dalgylch Treferythyr**. Rydym hefyd wedi bod yn **cydweithio ag ysgolion uwchradd Meirionnydd** i edrych ar y drefn o ddarparu addysg uwchradd i'r ardal, ac yn gwneud gwaith maes â rhanddeiliaid allweddol i ystyried y **ddarpariaeth ôl-16** gyfredol ar draws y sir.

Byddwn yn anelu i gwblhau Ysgol y Garnedd ym Mangor erbyn Medi 2020, Ysgol y Faenol ym Mangor erbyn Ionawr 2021 ac Ysgol Treferythyr yng Nghricieth erbyn Medi 2021. Byddwn yn parhau i gydweithio er mwyn canfod datrysiadau creadigol i'r ddarpariaeth uwchradd ym Meirionnydd ac yn llunio adroddiad ar y ddarpariaeth ôl-16 gyfredol a fydd yn sail i ddatblygiadau i'r dyfodol.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Dalgylch Bangor:

Rydym wedi cwblhau'r gwaith o sefydlu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Y Garnedd ym Mangor. Agorodd yr ysgol i ddisgyblion 3-11 oed ym mis Hydref 2020, ychydig wythnosau'n unig yn hwyrach na'r bwriad yn sgil y pandemig, ac mae hynny'n anhygoel o ystyried cyfnod heriol y pandemig, ac yn brawf i gydweithio a phartneriaeth rhwng yr holl ran-ddeiliaid. Mae cymuned yr ysgol wedi ymgartrefu yn eu cartref newydd ac yn manteisio i'r eithaf ar adeilad, awyrgylch ac adnoddau dysgu modern sydd o'r radd flaenaf.

Mae'r gwaith o ymestyn ac uwchraddio Ysgol y Faenol yn nalgylch Bangor yn parhau, ac yn sgil rhai problemau gyda'r tendrau ar gychwyn y prosiect bu oedi gyda'r amserlen sydd wedi golygu bod y gwaith o ymestyn ac uwchraddio Ysgol Y Faenol yn nes at ei chychwyn pan ddaeth y Cyfnod Clo (Mawrth 2020), ac o ganlyniad, dyddiad cwblhau diwygiedig ar gyfer yr ysgol yw Chwefror 2022.

Mae'r gwaith sydd wedi bod yn mynd rhagddo ar y safle yn Ysgol y Faenol dros y flwyddyn ddiwethaf yn adlewyrchu cydweithio a phartneriaeth dda rhwng yr ysgol, y Cyngor a'r cwmni adeiladu, mewn cyfnod hynod o heriol pan fo disgyblion ac adeiladwyr ar y safle ar yr un pryd gan orfod gweithredu o fewn cyfyngiadau ychwanegol y pandemig megis gofynion ymbellhau cymdeithasol, a chadw swigod.

Ysgol Trefferthyr:

Rydym wedi cychwyn ar y gwaith o sefydlu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Trefferthyr yng Ngricieth. Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti'r ysgol i 150 o ddisgyblion, a bydd yr adeilad newydd yn cynnwys lleoliad ar gyfer y blynyddoedd cynnar ynghyd â gofod i'r cylch meithrin. Disgwylir cwblhau'r gwaith o gynllunio ac adeiladu'r adeilad newydd ar gyfer Ysgol Trefferthyr erbyn Medi 2023, gyda'r amserlen wedi llithro yn sgil ein penderfyniad ar gychwyn y prosiect i gynnwys Ysgol Llanystumdwy fel rhan o'r ymgynghoriad cychwynol. Fodd bynnag, wedi nifer o gyfarfodydd dewisodd yr ysgol i beidio bod yn rhan o'r prosiect. Mae'r achos fusnes ar gyfer yr adeilad newydd wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac felly mae'r arian ar gyfer cychwyn y gwaith wedi ei warantu.

Meirionnydd:

Mae'r cynnydd yng nghyd-destun canfod datrysiadau creadigol i'r ddarpariaeth uwchradd ym Meirionnydd wedi bod yn araf ac wedi ei effeithio yn sgil ail-bwrpasu ysgolion i ddarparu gofal yn ogystal ag addysg o bell, ac yn dilyn hynny gefnogi dysgwyr wrth iddynt ddychwelyd yn ôl i'r ysgol yn dilyn cyfnodau clo yn sgil Covid-19.

Er hynny, rydym wedi casglu barn penaethiaid a chynrychiolaeth o Lywodraethwyr pob ysgol uwchradd ar yr heriau posib sydd yn eu hwynebu o ran darparu addysg uwchradd o ansawdd yn ardal Meirionnydd. Comisiynwyd dau gyn bennaeth uwchradd i gasglu barn penaethiaid ac fe fu i ni gynnal sesiynau ymgynghori gyda chadeirydd ac is-gadeirydd pob ysgol yn ogystal.

Bu i ni roi sylw penodol i adnabod yr heriau sy'n wynebu'r ysgolion o safbwynt recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr. Fodd bynnag, nid yw'r farn hyd yma wedi amlygu pryderon amlwg, er bod rhai agweddau penodol angen sylw.

Y cam nesaf fydd casglu barn disgyblion, rhieni a staff. Byddwn yn rhoi sylw i ansawdd y profiadau y mae'r disgyblion yn eu cael yn yr ysgolion ynghyd â barn staff am y profiad o weithio o fewn yr ysgolion yma. Er mwyn sicrhau cymhariaeth deg yr ydym am gylchredeg yr holiadur i staff, rhieni a disgyblion ysgolion Arfon a Dwyfor hefyd. Mae'r gwaith o lunio'r holiadur wedi cychwyn a byddwn yn ei rannu gyda'r holl ran-ddeiliaid yn ystod tymor yr haf 2021.

Addysg Ôl-16:

Cyflwynwyd adroddiad trosolwg addysg ôl-16 gerbron y Cabinet ar 10 Mawrth 2020 a oedd yn cynnwys ein gweledigaeth ar gyfer dysgwyr ôl-16 yng Ngwynedd, ynghyd ag argymhelliad i gynnal trafodaethau gyda rhan-ddeiliaid addysg ôl-16 Arfon.

Cynhaliwyd cyfnod o ymgysylltu anffurfiol ar addysg ôl-16 yn Arfon yn ystod Tymor yr Hydref 2020. Pwrpas yr ymgysylltu oedd rhoi cyfle i ran-ddeiliaid megis dysgwyr, rhieni, staff, llywodraethwyr a'r gymuned yn ehangach gyflwyno sylwadau a syniadau ynglŷn â'r gyfundrefn addysg ôl-16 yn Arfon, o fewn cyd-destun gweledigaeth ac amcanion y Cyngor.

Fel rhan o'r broses, cynhaliwyd cyfarfodydd rhithwir drwy gyfrwng Microsoft Teams a Zoom, gyda dysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr er mwyn rhoi cyfle iddynt leisio eu barn a holi unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r maes. Yn ogystal, cynhaliwyd sesiynau rhithwir arbennig i gasglu barn a syniadau dysgwyr yn Arfon. Mae adroddiad ar y broses wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 4 Chwefror 2021 gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad pellach gerbron y Cabinet maes o law, fydd yn cynnwys rhestr fer o opsiynau posib ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon, yn seiliedig ar weledigaeth y Cyngor, ynghyd â negeseuon o'r broses ymgysylltu anffurfiol a gynhaliwyd.

Amcanion Llesiant:

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae gwaith eisoes wedi'i gyflawni i **drawsnewid y gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad**, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ei angen yn derbyn y gefnogaeth fwyaf addas i'w galluogi i gyflawni eu potensial.

Mae'r gwasanaeth bellach yn ddarpariaeth dros Wynedd a Môn, ac mae'n canolbwyntio ar arfogi gweithlu ein hysgolion i gefnogi ein plant a'n pobl ifanc mwyaf bregus i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu potensial.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau i ddatblygu'r gwasanaeth mewn rhai meysydd megis y blynyddoedd cynnar, ôl-16 ac ysgolion arbennig. Byddwn hefyd yn adeiladu ar waith partneriaethol presennol rhwng ein hysgolion arbennig ac ysgolion prif lif i wella profiadau dysgu plant ag anghenion dwys a chymhleth.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Mae'r gwaith trawsnewid yn y maes yma yn ystod y flwyddyn hon wedi bod yn canolbwyntio ar baratoi tuag at Ddeddf Anghenion Dysgu a'r Tribiwnlys Addysg Cymru (2018) dros gyfnod estynedig, ac yn dilyn cyhoeddi'r Côt Terfynol ar 23 Mawrth 2021. Rydym yn cynllunio'r camau sydd eu hangen ar gyfer y camau cyntaf o'r trosglwyddo o'r ddeddfwriaeth bresennol i'r ddeddfwriaeth newydd ym Medi 2021. Er y bydd rhai pethau yn dod i rym ym Medi 2021, bydd 3 blynedd o gyfnod trosi llawn, gyda rhai elfennau megis ôl-16 yn cael eu hoedi.

Elfen allweddol o'r ddeddfwriaeth newydd yw pwysigrwydd rhoi'r dysgwr a'r teulu yng nghanol y broses o adnabod a darparu ar gyfer eu hanghenion unigol, ac mae hynny yn allweddol i'r paratodau ac i systemau ysgolion, sefydliadau addysg eraill a'r gwasanaethau cynhaliol. Mae'r gwaith o symleiddio'r prosesau cymaint â phosibl yn hynod o bwysig ar gyfer hyn.

O ran y paratodau ehangach rydym wedi gwneud cynnydd cryf wrth baratoi at y ddeddfwriaeth, gyda llawer o agweddau arloesol. Mae Arolwg Parodrwydd (h.y. pa mor barod ydi'r Awdurdod i drosglwyddo i'r Ddeddfwriaeth newydd) a luniwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru yn dangos bod 33 maes wedi cyrraedd parodrwydd llawn, 18 maes wedi cyrraedd parodrwydd rhannol, a 3 maes sydd yn dangos gwaith cychwynol. Mae ffrydiau gwaith yn y meysydd allweddol (e.e. ôl-16 a'r Blynyddoedd Cynnar, a Chyllid ADY) yn parhau i wneud cynnydd da wrth baratoi ar gyfer y gofynion newydd. Mae prosesau darparu gwasanaeth, sicrhau ansawdd, a hyfforddi wedi eu creu a'u sefydlu.

Amcanion Llesiant:

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**



Blaenoriaeth Gwella 3

Lleihau anghydraddoldeb o fewn y sir.

Pobl Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith

Blaenoriaeth Gwella 3

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae nifer sylweddol o drigolion ym methu â chyflawni eu llawn botensial gan eu bod wedi eu tangyflogi neu wedi eu heithrio o gyflogaeth. Mae bod y tu allan i'r byd gwaith yn lleihau cyfoeth trigolion a chynyddu'r galw ar adnoddau cyhoeddus ac mae atal hyn yn rhan allweddol o'r agenda gwrth dlodi. Ceir budd uniongyrchol o fod mewn gwaith o ran cynyddu enillion, ond hefyd ceir budd ehangach o ran iechyd, cyfleoedd bywyd plant a balchder mewn cymunedau.

Rydym eisoes wedi bod yn gweithio gyda chyflogwyr, yn arbennig o fewn y diwydiant ymwelwyr, i sicrhau fod mwy o bobl Gwynedd yn elwa o'r cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael, ac yn cefnogi trigolion Gwynedd i fagu'r sgiliau digidol sydd eu hangen i gael mynediad i waith.

I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r cynlluniau uchod ac yn datblygu cynlluniau pellach megis cydweithio yn agos gyda'n partneriaid ledled gogledd Cymru a chydag Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU i wella cydlyniad ein gwasanaethau.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Bu 2020/21 yn gyfnod heriol dros ben i drigolion Gwynedd o ran gwaith.

Yn hanesyddol, mae cyfraddau diweithdra yng Ngwynedd wedi bod yn is na'r cyfartaledd - er bod tangyflogaeth ac eithrio o gyflogaeth yn parhau yn heriau.

Gyda dyfodiad Covid-19 gwelwyd canran uchel o weithlu Gwynedd yn segur ar y cynllun ffyrlo; 16,700 yng Ngorffennaf 2020, sef 36% o'r holl weithwyr yn y sir. Gwelwyd cynnydd sylweddol hefyd yn nifer y di-waith yn y sir, yn arbennig o fewn cymunedau sy'n ddibynnol iawn ar yr economi ymweld. Roedd dros 3,200 yn chwilio am waith yng Ngwynedd yn mis Gorffennaf 2020 - dwbl y nifer yn 2019.

Er gwaetha hyn, drwy newid ei ffordd o weithio mae'r cynllun wedi parhau i gefnogi pobl leol i ymuno yn y farchnad lafur gan helpu 320 o unigolion yn ystod 2020/21. Mae 68 wedi llwyddo i gael gwaith yn uniongyrchol o ganlyniad i'r gefnogaeth.

Un enghraifft yw unigolyn oedd yn awyddus i ddychwelyd i waith a symud i'r maes adeiladu. Fe'i cynorthwywyd gyda'i CV, i gwblhau cwrs iechyd a diogelwch, magu sgiliau cyfweld ac i ennill ei drwydded gyrru wagen fforch godi. Yn ystod sesiwn mentora gyda chyflogwr lleol gwnaeth argraff dda ac o ganlyniad mae bellach yn gweithio i fusnes adeiladu yn Y Bala.

Er mwyn ymateb i'r her newydd o ddiweithdra yn y sir, mae'r cynllun wedi sicrhau arian i gyflogi mwy o weithwyr yn y maes, gan symud i gynnal cyfres o weithgareddau newydd megis hyfforddiant chwilio am waith ar y we a gweithio'n agosach gyda chyflogwyr lleol. Mae'r cynllun hefyd yn gweithio gyda partneriaid yng Ngwynedd i sicrhau fod busnesau a thrigolion lleol yn gwneud y gorau o gynllun Blaentroed Llywodraeth y DU sy'n sicrhau chwe mis o waith i bobl ifanc heb gost i'r cyflogwr.

Amcanion Llesiant:

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae angen mwy o gefnogaeth ar rai trigolion ar gyfer delio gyda heriau bywyd, ac mae'r Cyngor yn buddsoddi, darparu a chynllunio nifer o wasanaethau ac ymyraethau er mwyn cefnogi pobl i wynebu a cheisio goresgyn eu problemau. Gall y rhain amrywio o anawsterau magu teulu, i gam-ddefnyddio sylweddau, i effeithiau unigrwydd.

Rydym wedi tynnu gwasanaethau ar draws y Cyngor ynghyd i siapio'r Rhaglen Cefnogi Pobl a hyd yma rydym wedi canolbwyntio ein gwaith ar adnabod rhwystrau a gwella ein dealltwriaeth o sut mae ein gwasanaethau yn cael eu darparu ar hyn o bryd.

I'r dyfodol byddwn yn parhau i wneud gwaith mapio er mwyn deall anghenion mewn cymunedau ac ardaloedd penodol, edrych a yw cynlluniau grantiau yn cael eu defnyddio i'r pwrpas fwyaf effeithiol, ac yn parhau i adeiladu ar Raglen Plant yn Gyntaf yn ardal Maesgeirchen.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Daeth yn amlwg ym mis Mawrth 2020 bod angen i ni fel Cyngor ymateb yn gyflym i'r newidiadau dyddiol oedd yn digwydd wrth i bandemig Covid-19 ddatblygu. Oherwydd hynny, bu i ni addasu Rhaglen Waith 2020/21 er mwyn dargyfeirio ein sylw a'n adnoddau i gefnogi llesiant pobl i ymdopi gyda'r argyfwng.

Bu i ni sefydlu Tîm Cymorth Covid er mwyn cefnogi trigolion Gwynedd i gael yr help oedd ei angen arnynt i ymdopi gyda heriau'r argyfwng. Ymysg prif gyfrifoldebau'r tîm oedd:

- Cymryd galwadau a negeseuon e-bost gan y cyhoedd oedd yn ymwneud â materion Covid-19, a rhoi gwybodaeth iddynt
- Dod o hyd i'r cymorth a'r gefnogaeth fwyaf priodol i'r trigolion oedd yn cysylltu
- Cysylltu gyda phawb oedd yn cysgodi (shielding) a chynnig cymorth, ynghyd â chodi eu hymwybyddiaeth o gymorth y parseli bwyd gan Lywodraeth Cymru. Rhwng mis Ebrill ac Awst 2020, bu 5,080 o drigolion mewn cyswllt â'r tîm, gyda 4,781 o'r rheini yn bobl oedd yn cysgodi.
- Uchafu unrhyw bryderon i'r timau perthnasol o fewn y Cyngor
- Canfod beth oedd yn bwysig i'r trigolion oedd yn cysylltu, a dod o hyd i ddatrysiad
- Cysylltu gyda mudiadau a chyrrff allanol ar ran y trigolion, a gweithredu fel pwynt cyswllt rhwng y mudiad/corff a'r trigolyn pan fo hynny'n briodol.

Sefydlwyd trefniadau ar draws ein hadrannau a gyda'n partneriaid i gefnogi cymunedau i gynnal llesiant ac i helpu trigolion. Rydym wedi bod yn cefnogi grwpiau cyfaill a grwpiau cymunedol sy'n darparu help ymarferol o amgylch siopa, bwyd a chadw cyswllt gyda

thrigolion bregus. Mae ein cefnogaeth wedi bod yn ymwneud â helpu gyda recriwtio gwirfoddolwyr, ariannu'r grwpiau, cyflenwadau i'r grwpiau ac adeiladu cysylltiadau i'r grwpiau gyda gwasanaethau eraill.

Rydym wedi cefnogi'r banciau bwyd gyda chyflenwadau bwyd, offer ac eiddo a grantiau.

Rydym wedi sefydlu cynllun bocsys bwyd "Cynllun NEGES" ar y cyd gyda Menter Môn a Bwyty Dylan's i ddarparu pecyn bwyd i gartrefi bregus, y tu hwnt i'r rhaglen bwydo i unigolion bregus oedd yn cysgodi.

Rydym wedi sefydlu adran wybodaeth newydd ar wefan y Cyngor ar gyfer rhoi gwybodaeth a chynghor i drigolion ar ba help sydd ar gael iddynt i ymdopi gyda'r argyfwng – materion megis help ymarferol gyda hunan-ynysu, gwybodaeth ar gadw'n iach, a gwasanaethau a gweithgareddau sydd ar gael.

Rydym wedi sefydlu a darparu pecynnau gwybodaeth a phecynnau gweithgareddau i deuluoedd a thrigolion, ee pecynnau celf a chreffft, tabledi digidol, pecynnau garddio, gweithgareddau digidol i gadw mewn cyswllt.

Rydym wedi cydlynu ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth benodol gyda phartneriaid, ee trais yn y cartref; sgamiau a diogelwch ar lein; cyngor ariannol a budd-daliadau.

Wrth werthuso'r gwaith yma rydym wedi addasu y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol i gyfarch anghenion newydd ein trigolion yn sgil yr argyfwng. Mae'r Bwrdd Cefnogi Pobl wedi comisiynu ffrydiau gwaith penodol sef cefnogi ac atal digartrefedd; lles plant a phobl ifanc, cefnogi gofalgwyr di-dâl, taelo tlodi bwyd, tlodi digidol a chynnal gwydnwch cymunedau. Bydd y blaenoriaethu hyn yn parhau yn 2021/22.

Nid yw'r gwaith ar adolygu ein defnydd a'n trefniadau o amgylch y grantiau ataliol wedi symud ymlaen yn ystod 2002/21. Yn hytrach bu i ni addasu gweithgarwch nifer ohonynt i wireddu'r uchod a bu i ni dderbyn nifer uwch o grantiau ataliol tymor byr yn ystod y flwyddyn i'w gweinyddu.

Mae'r gwaith ar sefydlu'r Ganolfan Integredig yn rhan o'r Parth Plant wedi oedi ond bellach wedi ail-gydio gydag effaith yr argyfwng yn amlwg yn ail-siapio phwysigrwydd a'r angen am 'hyb' mewn cymunedau difreintiedig i sicrhau mynediad at yr help sydd ei angen ar bobl yn lleol.

Rydym yn hyderus bod ail-flaenoriaethu'r cynlluniau gwreiddiol wedi caniatáu i ni ymateb yn llwyddiannus i anghenion pobl fregus mewn cyfnod anarferol.

Amcanion Llesiant:

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith er mwyn sicrhau ein bod yn flaengar yn annog Merched Mewn Arweinyddiaeth ac yn adnabod a cheisio dileu unrhyw rwystrau all fod yn atal merched rhag cyrraedd swyddi arweiniol a rheolaethol o fewn y Cyngor.

Mae Grŵp Prosiect mewnol wedi cynnal ymgynghoriad â staff yn ystod 2019/20 ac i'r dyfodol byddwn yn gweithredu rhaglen waith sy'n cynnwys cyflwyno rhaglen datblygu potensial ar gyfer merched, cynnal awdit o'n dulliau recriwtio a phenodi ar gyfer swyddi rheolaethol, a chreu fforwm ar gyfer arweinwyr a darpar arweinwyr benywaidd o fewn y Cyngor.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Trefnwyd cyfres o fforymau trafod i ferched y cyngor ac Aelodau Etholedig gyda rhai o uwch swyddogion benywaidd y Cyngor yn hwyluso. Trafodwyd pynciau megis profiadau o arwain a rheoli yn ystod yr argyfwng gyda chyflwyniad gan yr hwyluswyr ar baratoi ar gyfer swyddi uwch. Mynychodd cyfanswm o 40 o ferched. Cafwyd adborth cadarnhaol am y sesiynau a mynegwyd y byddai cynnal mwy o sesiynau o fudd.

Mae'r prif negeseuon a ddeilliodd o'r "sgyrsiau dros baned" hyn wedi eu cofnodi ac o ganlyniad trefnwyd gweithgareddau pellach - sef sesiynau ar "imposter syndrome" ble bu i gyfanswm o 79 o staff, a 18 o Aelodau Etholedig fynychu. Mae trefniadau pellach ar y gweill ar gyfer cyflwyno rhaglen fentora i arweinwyr a darpar-arweinwyr benywaidd y Cyngor fel rhan o'r rhaglen datblygu potensial ar gyfer merched tra bo'r "sgyrsiau dros baned" wedi'i sefydlu fel trefniant parhaus.

Mae'r gwaith o adolygu trefniadau recriwtio a phenodi ar gyfer swyddi rheolaethol wedi llithro yn ystod y flwyddyn ond mae'r Grŵp Prosiect wedi derbyn cyflwyniad ar faterion i'w hystyried ymhellach gan y Rheolwr Adnoddau Dynol.

Amcanion Llesiant:

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn wneud rhaid i ni yn gyntaf adnabod unrhyw rwystrau sy'n wynebu rhai pobl wrth chwilio am, neu dderbyn, gwasanaethau gan y Cyngor. Ein bwriad felly yw cynnal ymchwiliad trylwyr o farn pobl Gwynedd sydd â nodweddion gwarchoddedig (fel maent yn cael eu nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010) am y gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu cynnig.

Bydd yr ymgysylltiad yma yn digwydd yn 2020/21 fel rhan o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020- 24. Byddwn yn creu Cynllun Gweithredu pellach yn seiliedig ar y dystiolaeth y byddwn yn ei dderbyn.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Yn ystod 2020/21 rydym wedi cychwyn arolwg cyhoeddus yn ogystal ag arolwg o staff y Cyngor er mwyn gwella'r wybodaeth sydd gennym am bobl gyda nodweddion gwarchoddedig. Fel rhan o'r gwaith hwn bu i ni ymgymryd ag ymgyrch gynhwysfawr i annog unigolion i fanteisio ar y cyfle i ddweud eu dweud gan adnabod a chysylltu gyda budd-ddeiliaid a grwpiau a mudiadau a chynhyrchu deunyddiau megis clipiau fideo, clipiau BSL, datganiadau i'r wasg, erthyglau a thudalennau gwefan i hyrwyddo'r arolwg.

Bu rhywfaint o lithriad i'r amserlen wreiddiol ar gyfer cynnal yr arolwg o ganlyniad i ail-flaenoriaethu adnoddau a ffyrdd o weithio oherwydd argyfwng Covid-19, ac o ganlyniad fe fydd yn parhau ar agor hyd ddiwedd Mai 2021 yn hytrach na diwedd Chwefror 2021. Bydd canlyniad yr arolwg yn rhoi gwybodaeth i ni am y sefyllfa bresennol ond y bwriad yw i barhau gyda gwaith ymgysylltu er mwyn gwella'r wybodaeth sydd gennym am bobl gyda nodweddion gwarchoddedig gan gynnwys gwaith "wyneb yn wyneb" yn ddiweddarach yn 2021.

Er mwyn gwella dealltwriaeth Aelodau Etholedig a staff o'r maes cydraddoldeb mae angen sicrhau eu bod yn derbyn yr hyfforddiant cywir. Yn ystod 2020/21 rydym wedi datblygu a threialu amrediad o ddulliau dysgu 'o bell' a chynnal ymchwil i ddeunyddiau dysgu addas. Yn y flwyddyn nesaf byddwn yn datblygu rhaglen hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o anghenion pobl Gwynedd a'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Bydd yr adborth i'r gwaith ymgysylltu yn bwydo i mewn i'r rhaglen hyfforddiant i'r dyfodol. Yn y cyfamser, fe fyddwn yn edrych ar ffyrdd o ddenu staff i wneud hyfforddiant yn y maes cydraddoldeb a sut y gellir eu hannog i adlewyrchu a sylweddoli'r angen dros y misoedd nesaf.

Rydym wedi bod yn annog staff i gwblhau'r holiadur monitro nodweddion cydraddoldeb er mwyn cael tystiolaeth ddibynadwy i'n helpu i wella amrywiaeth ein gweithlu, ac i leihau unrhyw fylchau tâl. Hyd yma, dim ond tua hanner gweithlu'r Cyngor sydd wedi cwblhau'r gofyn ac felly byddwn yn parhau i annog staff i gwblhau'r holiadur gan dargedu adrannau penodol.

Roedd bwriad i gynnal awdit ar y gwahaniaeth cyflog rhwng dynion a merched (gender pay gap) ac awdit tâl ar sail rhyw yn ystod 2020/21. Yn anffodus mae'r gwaith hwn wedi llithro rhywfaint gan ein bod angen datblygu gallu systemau cyfrifiadurol y Cyngor i gynhyrchu'r wybodaeth yn rhwyddach ac felly bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn ystod haf 2021.

Blaenoriaeth Gwella 4

Sicrhau mwy o gyflenwad o dai addas ar gyfer ein trigolion.

Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd
2019-24

Blaenoriaeth Gwella 4

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae'r galw am dai cymdeithasol a fforddiadwy i gartrefu trigolion Gwynedd ar hyn o bryd yn uwch na'r cyflenwad sydd ar gael. Mewn ymateb i'r her yma rydym eisoes wedi llunio Strategaeth Dai sydd yn anelu i wneud y gorau o'n cyflenwad o dai yng Ngwynedd, i wella eu safon yn ogystal â gwella mynediad i dai drwy gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl i'w galluogi i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau.

Datblygwyd cynllun interim ar gyfer 2020/21 er mwyn gallu cychwyn ceisio cyflawni'r strategaeth hon, ac i'r dyfodol byddwn yn datblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer y tymor canol er mwyn uchafu ein gallu ni fel Cyngor i gwrdd â'r her o ddarparu cartrefi addas i'n trigolion yng Ngwynedd.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Er mwyn cyrraedd uchelgais ein Strategaeth Tai i "*Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd*", rydym wedi mabwysiadu Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynnwys dros 30 o gynlluniau penodol a fydd yn arwain at fuddsoddiad o £77 miliwn yn y maes Tai yng Ngwynedd dros y 6 mlynedd nesaf. Bydd y cynlluniau hyn yn anelu i gyflawni'r amcanion canlynol:

- Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
- Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
- Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
- Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn cychwyn gweithredu ar y cynlluniau hyn er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i bobl leol gael cartrefi addas o fewn eu cymunedau.

Mae'r galw ar ein gwasanaeth digartrefedd wedi cynyddu yn sylweddol (26%) dros y flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i'r pandemig ac felly byddwn yn anelu i flaenoriaethu nifer o'r cynlluniau a fyddai'n cynyddu'r cyflenwad o dai ar gael i'r digartref dros flwyddyn gyntaf y Cynllun Gweithredu Tai, yn ogystal â chynlluniau i gefnogi dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd, prynu tai oddi ar y farchnad er mwyn eu gosod i drigolion y sir a chychwyn ar y broses o ddatblygu tai ein hunain i'w gwerthu i bobl leol.

Amcanion Llesiant:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



Blaenoriaeth Gwella 5

Sicrhau ein bod yn annog a hyrwyddo gallu pobl Gwynedd i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor

Blaenoriaeth Gwella 5

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau i drigolion ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ein bod yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n waith parhaus i hybu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gwasanaethau'r Cyngor, ac rydym yn ymwybodol bod angen parhau i gynnal sgiliau iaith ein staff.

Llwyddwyd hyd yma i adolygu anghenion iaith pob swydd ac i asesu gallu ieithyddol 40% o'n swyddogion yn erbyn y gofynion hynny. Cefnogwyd hyn oll gan raglen ddysgu a gloywi iaith. I'r dyfodol byddwn yn canolbwyntio ar weithio gyda gweddill gwasanaethau'r Cyngor, yn enwedig rhai rheng flaen, i gwblhau'r asesiad ac i ddatblygu sgiliau staff newydd a chyfredol gan achub ar gyfleon newydd i sicrhau ein bod yn cynnig pob agwedd ar ein gwasanaethau yn gwbl ddwyieithog.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Mae cyfanswm o 2,401 o staff wedi'u hasesu yn erbyn dynodiadau iaith eu swydd gyda 91.8% (2,204) yn cyrraedd neu'n mynd tu hwnt i'r gofynion. Golyga hyn bod 197 (8.2%) o staff wedi'u hadnabod sydd ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swydd. O'r nifer nad oeddent yn cyrraedd y gofynion, mae 11 unigolyn bellach yn cyrraedd eu dynodiadau iaith o ganlyniad i gefnogaeth a roddwyd ac mae dau reolwr (un o Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac un o'r Adran Phlant a Chefnogi Teuluoedd) yn derbyn cefnogaeth 1:1 gyda thiwtor sydd wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn cyfnod byr o amser.

Rydym wedi datblygu cwrs hunan-astudio (lefel Mynediad) i staff canolog a staff ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r cwrs hwn fel peilot ar gyfer ei gynnydd i ysgolion ledled Cymru erbyn hyn.

Mae camau wedi'u cytuno arnynt er mwyn cefnogi amcanion tymor hir y prosiect gyda threfniadau mewn lle i staff newydd gwblhau asesiadau pan y'u penodir gyda'r hunan-asesiadau yn cael eu cwblhau fel rhan o anwytho staff newydd ym maes gofal. Ymhellach, mae Fforwm Dynodiadau Iaith wedi'i sefydlu gyda cynrychiolydd/hyrwyddwr o bob adran yn aelod ac yn bennaf gyfrifol yn yr adrannau am rannu gwybodaeth ac arferion da yn ogystal ag adnabod rhwystrau a risgiau i'r dyfodol.

Amcanion Llesiant:

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ar hyn o bryd mae anghysondeb yn narpariaeth gwasanaethau dwyieithog gan gyrff cyhoeddus yng Ngwynedd sy'n golygu nad yw hi bob amser yn bosibl i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gyfathrebu efo gyrff cyhoeddus.

Byddwn yn cydweithio â sefydliadau cyhoeddus eraill, drwy **Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn**, i sicrhau ein bod yn arloesi yn narpariaeth y Gymraeg a'r gwasanaethau cyhoeddus yn y sir.

I'r dyfodol byddwn yn cyfrannu at raglen waith fydd yn tynnu Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant y Cyngor, y Bwrdd Iechyd a Chyngor Môn ynghyd i sefydlu trefniadau gweithio mewn sefyllfa ddwyieithog ar gyfer Timau Adnoddau Cymunedol, sef y timau fydd yn darparu gofal a chefnogaeth i'r bobl sydd ei angen.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?**Tim Adnoddau Cymunedol**

Gwnaethpwyd peth cynnydd yn unol â'r cynllun gwreiddiol wrth weithio gyda'r Tim Adnoddau Cymunedol i adnabod sgiliau iaith y gweithlu a datblygu egwyddorion wrth gydweithio ar draws y gwahanol bartneriaid (e.e. cydweld fod lle i hyrwyddo a hybu'r cynnig am ddewis iaith). Fodd bynnag, roedd ymateb i'r argyfwng Covid-19 wedi effeithio ar y gallu i symud y prosiect yn ei flaen.

Penderfynwyd newid trywydd gan ei bod yn amlwg fod cyfle i weithio gyda'r cwmnïau sy'n tendro i ddarparu gwaith gofal ar ran y Timau Adnoddau Cymunedol er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r angen i ddarparu pob elfen o'r gwasanaeth yn ddwyieithog ac yn cael cefnogaeth i wneud hynny.

Y camau nesaf fydd:

- cynnal sesiwn gyda'r cwmnïau darparu i'w cynorthwyo i weithredu y cynnig rhagweithiol, mewn geiriau eraill, gwneud yn siŵr fod y cynnig iaith yn cael ei wneud o'r dechrau
- adolygu'r tendrau er mwyn sicrhau fod gofynion am ddarpariaeth iaith yn glir ynddynt.

Prosiect Derbynfeydd

Pwrpas y prosiect derbynfeydd gan is-grŵp y Gymraeg (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) oedd annog pobl Gwynedd i siarad Cymraeg wrth ddod i dderbynfeydd (y Cyngor a phartneriaid). Cafodd y prosiect ei oedi gan fod nifer o'r derbynfeydd ar gau ar adegau yn ystod y cyfnodau clo. Bellach, mae arweinydd newydd ar is-grŵp y Gymraeg, a'r flaenoriaeth gyntaf yw i ailystyried y rhaglen waith i'r dyfodol.

Amcanion Llesiant:

- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae gan y Cyngor gyswllt uniongyrchol efo busnesau Gwynedd er mwyn annog busnesau Gwynedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae swyddogion Hunaniaith yn ogystal â swyddogion o fewn yr Adran Economi a Chymuned yn annog busnesau i gynyddu'r defnydd o'r iaith trwy eu gwaith yn y cymunedau.

I'r dyfodol byddwn yn parhau â'r gwaith hwn, ac hefyd yn gweithio gyda phartneriaid allanol megis Cymraeg Byd Busnes a Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn sicrhau bod pawb efo'i gilydd yn cynllunio'r ddarpariaeth y mae busnesau Gwynedd ei angen.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Mae'r gwaith hwn wedi gwreiddio fel rhan o waith dydd i ddydd erbyn hyn ac o'r herwydd ni fydd yn cael ei gydnabod ar lefel blaenoriaeth gwella corfforaethol yng Nghynllun y Cyngor yn 2021/22.

Yn ystod y flwyddyn diwethaf, mae Swyddogion Hunaniaith a swyddogion o fewn yr Adran Economi a Chymuned wedi annog busnesau i gynyddu'r defnydd o'r iaith drwy eu gwaith yn y cymunedau. Rydym hefyd wedi bod yn cydweithio er mwyn llunio tudalen ar wefan Cyngor Gwynedd a fydd yn hybu a hyrwyddo'r Gymraeg i fusnesau ac hefyd wedi cydweithio efo swyddog "Helo Blod" (Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg mewn byd busnes) i gyfeirio busnesau am gymorth.

Amcanion Llesiant:

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Er mwyn hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc o fewn y cwricwlwm ac yn gymdeithasol, rydym wedi arwain ar y Siarter Iaith Gymraeg er mwyn dylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac mae galw wedi bod i sicrhau dilyniant iddi yn yr ysgolion uwchradd.

Rydym wedi bod yn cydweithio ag ysgolion uwchradd i lunio cynlluniau gweithredu unigol er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, ac wedi rhoi sylw penodol i gyfrwng iaith y ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3, 4 a 5.

Byddwn, i'r dyfodol, yn parhau i gydweithio ar y materion hyn ac yn cefnogi'n ysgolion i gwblhau a gweithredu eu cynlluniau. Byddwn hefyd yn cefnogi ysgolion i weithredu'n unol â gofynion cenedlaethol newydd Fframwaith Siarter Iaith Llywodraeth Cymru sy'n dod i rym yn ystod 2020/21.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Yn sgil pandemig Covid-19, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r Fframwaith Siarter Iaith cenedlaethol newydd, ac nid yw wedi bod yn bosib gweithredu'r Siarter Iaith yn ei ddull arferol drwy'r ysgolion yn sgil y cyfnodau clo niferus a fu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Fodd bynnag, yn sgil y cyfnodau clo, roedd pryder y byddai hyder nifer o blant a phobl ifanc yn y Gymraeg yn gostwng yn sgil diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ar yr aelwyd, a diffyg cyfleoedd i siarad y Gymraeg gyda chyfoedion. O ganlyniad, yn ystod y Cyfnod Clo (Mawrth 2020) crëwyd nifer o adnoddau ar gyfer ein hysgolion gan Gydlynnydd y Siarter Iaith Cynradd a'r Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd, ac anogwyd ysgolion hefyd i rannu adnoddau ym maes y Gymraeg ar Hwb, a chrëwyd llyfrgell o adnoddau sirol gan yr adran, ynghyd â chyfrannu at adnoddau rhanbarthol a chenedlaethol ar gais GwE ar gyfer pob Cyfnod Allweddol. Crëwyd clipiau fideo ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 fel adnodd i annog defnydd o'r iaith lafar, ynghyd â throsglwyddo hyfforddiant a gynhaliwyd ar egwyddorion trochi yn y Cyfnod Sylfaen i gyfrwng digidol at ddefnydd ein holl ysgolion.

Wrth i'r ysgolion ail-agor ym Medi 2020, rhoddwyd cefnogaeth ychwanegol i rai grwpiau o ddysgwyr yn yr ysgolion uwchradd a oedd wedi colli hyder yn eu defnydd a'u sgiliau Cymraeg yn sgil y cyfnod clo gan Gydlynnydd y Strategaeth Iaith Uwchradd. Yn yr un modd, rhoddwyd cefnogaeth ddwys i rai ysgolion cynradd i atgyfnerthu'r Gymraeg gan Gydlynnydd y Siarter Iaith.

Wrth i ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen ddychwelyd yn ôl i'r ysgol yn sgil Cyfnod Clo pellach (Ionawr-Mawrth 2021), rhannwyd holiadur i bob ysgol er mwyn sefydlu gwaelodlin o sefyllfa'r Gymraeg, adnabod strategaethau oedd ar waith gan yr ysgolion i atgyfnerthu'r Gymraeg, ynghyd ag adnabod unrhyw anghenion pellach o ran cefnogaeth. Rydym yn y broses o ddadansoddi negeseuon o'r holiadur hwn, ac yn bwriadu cylchredeg holiadur cyffelyb yng nghyd-destun Cyfnodau Allweddol 2, 3, a 4 yn ddiweddarach yn Nhymer yr Haf 2021.

Bydd y wybodaeth yma fel gwaelodlin yn cyfeirio rhaglenni gwaith y Cydlynwyr Iaith, gwaith clwstwr a grantiau yng nghyd-destun y Gymraeg, ynghyd â blaenoriaethau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) y byddwn yn ymgynghori arno fel cynllun 10 mlynedd newydd yn rhyngor yr Hydref 2021.

Rydym hefyd wedi rhoi sylw penodol i gefnogi sgiliau iaith y gweithlu er mwyn ceisio hwyluso dyfodol cyfrwng Cymraeg i'r ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3, 4 a 5 trwy dreialu cynllun peilot Cymraeg Gwaith i Athrawon ar gyfer Llywodraeth Cymru gyda staff addysgu un ysgol uwchradd yn y sir.

Amcanion Llesiant:

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.

Blaenoriaeth Gwella 6

Sicrhau fod gennym wasanaethau gofal sy'n helpu pobl i fyw eu bywydau fel y dymunant.

Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal

Blaenoriaeth Gwella 6

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae anghenion gofal yn y sir yn newid, ac rydym wedi bod yn cydweithio â'r Bwrdd Iechyd i sicrhau mynediad syml ac uniongyrchol at wasanaethau sy'n cefnogi'r hyn sy'n bwysig i oedolion Gwynedd. Bydd dull o weithio sy'n rhoi mwy o bwyslais ar iechyd a llesiant a gwaith ataliol yn sicrhau gwell deilliannau i unigolion, yn eu galluogi i fyw'n annibynnol cyn hired a phosib ac yn lleihau'r angen am ofal dwys.

Rydym wedi sefydlu 5 Tîm Ardal Lleol sy'n darparu gwasanaeth di-dor ac yn adeiladu ar gryfderau'r unigolyn a'r gymuned. Maent hefyd yn sicrhau bod ein trefniadau gadael yr ysbyty yn effeithiol ac yn cyd-fynd â'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn. Yn 2020/21, byddwn yn gweithio i adnabod a dileu rhwystrau pellach i weithio'n integredig, megis drwy wella a llyfnhau'r broses cyfeirio at wasanaethau a chryfhau trefniadau rhannu gwybodaeth. Rydym wedi ymestyn peilot ar gyfer ffordd newydd o ddarparu gofal cartref ar draws y sir, ac hefyd wedi gweithio i ddatblygu a gwella'r ddarpariaeth yn ein cartrefi preswyl gan gynnwys agor Unedau Dementia yn Nhywyn a Bangor.

I'r dyfodol, byddwn yn paratoi i roi'r ffordd newydd o ddarparu gofal cartref ar waith erbyn haf 2020 ac yn gweithio i ddatblygu'r ddarpariaeth dementia, tai gofal ychwanegol, gofal anghenion corfforol dwys a llety addas i unigolion ag anabledau dysgu. Byddwn hefyd yn gweithio ar ddatblygu'r gwasanaethau iechyd meddwl sydd ar gael yn y sir gyda ffocws ar ymyrraeth a chefnogaeth buan

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Mewn perthynas â'r gwaith i ddatblygu gwasanaethau integredig rydym wedi cynnal gweithdai rhithiol ar gyfer y Tîmau Adnoddau Cymunedol er mwyn cytuno ar flaenoriaethau a rhaglenni gwaith lleol gyda threfniadau i bob ardal adrodd ar gynnydd, llwyddiannau a rhwystrau'n fisol. Mae'r trefniadau hyn yn weithredol ers Tachwedd 2020. Rydym hefyd wedi datblygu rhaglen waith benodol i adolygu trefniadau cydweithio gydag ysbytai ac wedi cytuno ar brosesau gwaith tymor byr er mwyn cefnogi'r weledigaeth sydd gennym o'r Tîmau Lleol yn cymryd perchnogaeth dros gefnogi unigolion i adael yr ysbyty yn amserol. Bydd gweithwyr Tîm Gwaith Cymdeithasol Ysbyty Gwynedd yn cael eu hadleoli o fewn y Tîmau Adnoddau Cymunedol i gryfhau capasiti cymunedol. Er ei bod yn gynnar i ddweud, mae

arwyddion o newid diwylliant a chydweithio'n agosach rhwng proffesiynau sydd yn ei dro'n lleihau yr angen i bobl ailadrodd eu straeon i nifer o weithwyr proffesiynol gwahanol.

Yn anffodus, mae argyfwng Covid-19 wedi golygu nad oedd yn addas i gynnal trefniadau tendro ar gyfnod mor heriol i ddarparwyr gofal ac felly mae llithrad wedi bod yn yr amserlen i symud ymlaen â'r ffordd newydd o ddarparu gofal cartref. Fodd bynnag, rhoddwyd cynllun tymor byr mewn lle gyda'n darparwyr gofal er mwyn ceisio sefydlogi'r farchnad a rheoli'r capasiti hyd nes y byddai modd mynd allan i dendr ar y cytundebau newydd. Yn ystod 2020/21, cynhaliwyd gweithdai lleol gyda'r gwasanaeth a'r darparwyr i gytuno sut i gael gwell rheolaeth dros y capasiti darpariaeth gofal lleol a rhestrau aros. Mae'r darparwyr gofal yn rhan hefyd o drafodaethau lleol o fewn y Timau Adnoddau Cymunedol yn y rhan helyw o ardaloedd. Mae'n ddyddiau cynnar ar hyn o bryd ond mae'r trefniadau hyn i weld yn gwella cydweithio hyd yma.

Mae ein gwaith i foderneiddio ein darpariaeth breswyl wedi parhau ac yn ystod y flwyddyn cafodd gwaith o greu Uned Dementia newydd ei gwblhau yn ein cartref yn Llan Ffestiniog. Cadwyd y ddarpariaeth hon fel adnodd wrth gefn yn ystod yr argyfwng ond rydym yn edrych ymlaen i agor yr uned. Ochr yn ochr â hyn, mae rhaglenni buddsoddi gwerth hanner miliwn wedi parhau ar ein cartref yn Nolgellau lle y byddwn yn uchafu ansawdd adnoddau a chreu darpariaeth bariatrig newydd, ac rydym hefyd yn creu Uned Dementia yn ein cartref yn y Bermo. Bydd yr adnoddau hyn o gymorth i gwrdd ag anghenion amrywiol trigolion Gwynedd gan hyrwyddo annibyniaeth ac urddas. Mae gwaith ar ddatblygiad Tai Gofal Ychwanegol Pwllheli yn parhau dan arweiniad cymdeithas dai Adra.

Mewn perthynas â llety addas i unigolion ag anabledau dysgu, mae'r nifer o unigolion sydd wedi'u adnabod i fod angen lleoliad llety a chefnogaeth wedi cynyddu ac mae'r diffyg eiddo addas yn lleol yn bryderus ac yn arwain at sefyllfaoedd cartref bregus a phwysau ychwanegol ar ofalwyr. Rydym wedi bod yn cydweithio ag amryw o rhanddeiliaid a chymdeithasau tai i geisio cwrdd â'r anghenion llety hyn a buom yn rhan o lunio Cynllun Gweithredu Tai yr Adran Tai ac Eiddo, sydd bellach wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet. Rydym hefyd mewn trafodaethau gyda Grŵp Cynefin ac Adra i weld sut allwn ni weithio'n agosach i wneud y mwyaf o unrhyw dai sy'n wag ganddynt.

Rydym yn parhau i gydweithio â'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu gwasanaethau iechyd meddwl y sir, ac mae'r gwaith ar ganolfannau ICAN yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar gan gydweithio â mudiadau trydydd sector. Mae'r gwasanaeth yma'n darparu 'one stop shop' i unigolion sydd angen cefnogaeth, ac mae'n ein galluogi i wneud y cyswllt rhyngddynt ag unrhyw asiantaethau tai, Cyngor ar Bopeth ayb fel sydd angen er mwyn eu helpu i ddelio â materion sy'n achosi straen ac yn cael effaith negyddol ar eu iechyd meddwl. Yn ystod cyfnod yr argyfwng, mae'r gefnogaeth yma wedi bod yn cael ei ddarparu'n rhithiol i ystod eang o unigolion. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi sefydlu hwb newydd yng Nghaernarfon mewn partneriaeth â Gisda er mwyn cynnig cefnogaeth i bobl ifanc ac mae bwriad ymestyn hyn i Flaenau Ffestiniog hefyd.

Amcanion Llesiant:

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau**

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Er mwyn helpu pobl i gadw cysylltiadau, lleihau unigrwydd a chynnal iechyd meddyliol a chorfforol, mae angen mynd ymhellach na darparu gwasanaethau cymorth yn y cartref neu ofal preswyl. Rydym wedi bod yn ysgogi a chefnogi cymunedau Gwynedd i fod yn fwy gwydn er mwyn darganfod datrysiadau ataliol sy'n cynyddu opsiynau gofal lleol i bobl.

Rydym wedi mapio gwasanaethau a grwpiau sy'n bodoli mewn cymunedau er mwyn adnabod bylchau, a chysylltu unigolion sydd angen cymorth gyda gwasanaethau, yn ogystal â hybu mentrau cymunedol. Mae adnoddau newydd wedi'u creu megis Cynllun Trafnidiaeth Gymunedol Dyffryn Nantlle a Shed Ddynion Pwllheli.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau i adnabod bylchau mewn darpariaeth yn ein cymunedau, gyda'r nod o gytuno ar flaenoriaethau lleol gyda'r cymunedau hynny. Erbyn Mawrth 2021, byddwn yn glir ar flaenoriaethau llesiant ymhob un o ardaloedd y Cyngor ac yn dechrau ystyried sut fyddwn ni'n siapio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu'r model o hybiau cymunedol ar draws y sir er mwyn darparu ystod eang o gyfleoedd llesiant i oedolion ag anableddau dysgu yn eu cymunedau lleol.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Yn sicr mae cyfnod yr argyfwng wedi amlygu cryfderau ein cymunedau wrth i bobl ddod yn-ghyd i gefnogi ei gilydd. Mae'r cyfnod hefyd wedi ein galluogi i ddod i ddeall llawer mwy am y bylchau sy'n bodoli wrth i ddegau o staff y Cyngor fynd ati i ymgysylltu ag aelodau mwyaf bregus ein cymunedau fel rhan o dîm Cymorth Covid-19. Ond er y dysgu sydd wedi ei wneud o ran hyn yn ystod y flwyddyn a fu yn anffodus ni lwyddom i gytuno ar flaenoriaethau lleol yn unol â'r bwriad gwreiddiol. Y rheswm am hynny oedd yr angen i flaenoriaethu amser swyddogion er mwyn gallu ymateb yn llawn i'r argyfwng oedd yn ein wynebu.

Cafodd y gwaith o adnabod blaenoriaethau llesiant ymhob un o ardaloedd y Cyngor hefyd ei oedi am flwyddyn gyda chaniatâd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y gwaith yma bellach yn cael ei gwblhau erbyn Mawrth 2022. Byddwn yn diweddarau'r Asesiad Anghenion Poblogaeth yn fuan, a bydd y Cyngor hefyd yn arwain ar raglen adfywio cymunedol dros y cyfnod nesaf. Bydd yr holl waith yma'n ein caniatáu i adolygu ein bwriadau ac yn bwydo i'n hystyriaethau o sut y byddwn yn siapio ein gwasanaethau i'r dyfodol.

Mewn perthynas â'r gwaith i ddatblygu'r model o hybiau cymunedol ar draws y sir sy'n darparu cyfleon llesiant i oedolion ag anabledd dysgu yn eu cymunedau lleol, nid ydym wedi gallu gwneud y cynnydd a fwriadwyd yn ystod y flwyddyn gan fod y gwasanaeth wedi gorfod blaenoriaethu cynnal gwasanaethau a chefnogaeth i oedolion ag anabledd dysgu a'u teuluoedd i'r gorau o'n gallu. Fodd bynnag, rydym wedi agor hwb cymunedol newydd yn y Felin-heli ac mae'r hybiau wedi bod o fudd mawr i ni allu darparu gwasanaeth mewn modd diogel yn ystod cyfnod yr argyfwng. Mae'r cynllun i ail-adeiladu Hwb Dolgellau (Dolfeurig) hefyd yn symud yn ei flaen gyda'r bwriad i'r gwaith fod yn cychwyn yn Ionawr 2022.

Er bod ein gallu i gyflawni amcanion y prosiect wastad wedi bod yn ddibynnol ar gydweithio effeithiol ar draws gwasanaethau, partneriaid a chymunedau, mae ein profiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi amlygu'r angen i adolygu sut orau i gydlynu'r gwaith a chyflawni'r nod wrth symud ymlaen. Un newid sydd mewn lle bellach ydi na fyddwn yn adrodd ar gynnydd y gwaith hwn fel prosiect unigol i'r dyfodol, ond yn hytrach yn ei blethu mewn i'r cynllun ehangach sydd gennym mewn lle ar gyfer Cefnogi Llesiant Pobl.

Amcanion Llesiant:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae recriwtio i'r maes gofal yn heriol am amryw o resymau. Mae gennym weithlu effeithiol ac ymroddedig, ond mae'n rhaid i ni sicrhau fod gennym ddigon o weithwyr â'r sgiliau angenrheidiol er mwyn ymdopi gyda'r angen cynyddol sy'n debygol o godi yn y dyfodol.

Rydym wedi bod yn ymdrechu i geisio deall yn well yr her sy'n bodoli ar draws y maes ac mewn ymateb i hynny datblygwyd rhaglen waith sy'n ceisio cyfarch rhai o'r pryderon. Bydd y gwaith o sefydlu trefn darparu gofal cartref newydd yn effeithio'n bositif ar elfennau megis cyflogau staff rheng flaen y sector breifat, hyd cytundebau gwaith a hybu llwybrau gyrfa'n y maes.

Y themâu fydd yn derbyn sylw dros y flwyddyn sydd i ddod fydd Amodau a Thelerau Gwaith, Cynllunio a Datblygu'r Gweithlu, Delwedd a Phroffil Swyddi'r Maes, a Chyfathrebu a Marchnata

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Mae argyfwng Covid-19 wedi amlygu ein heriau recriwtio fwy nac erioed ac wedi golygu fod rhaid i ni flaenoriaethu rhai agweddau o'r prosiect hwn gan bwysleisio ar recriwtio staff yn y tymor byr. Mae hyn yn golygu bod llithriad anorfod wedi bod mewn rhaglenni gwaith datblygol fyddai wedi cael effaith bositif ar agweddau megis amodau a thelerau gwaith y gweithlu.

Bu'n hynod heriol i gynnal gwasanaethau rheng flaen yn ystod y cyfnod argyfwng, a'r prif her oedd medru ymateb i fylchau staffio sylweddol. Cymeradwyodd y Cabinet adnoddau ychwanegol ym mis Hydref er mwyn ymateb i'r bylchau staffio yr oeddem yn ei ragweld fyddai'n ein wynebu. Hwylusodd hyn ein gallu i gynnal ymgyrchoedd recriwtio i ddenu mwy o weithwyr i'r maes.

Rhoddwyd trefniadau mewn lle i gefnogi a hyfforddi unigolion oedd yn gwbl newydd i'r maes, boed hynny'n unigolion ar ddechrau eu gyrfaedd neu'n rai a oedd yn dymuno ail hyfforddi yn dilyn colli gwaith o ganlyniad i'r argyfwng. Fel rhan o'r ymgyrch [SOS #Galw Gofalwyr \(llyw.cymru\)](#) gynhaliwyd rhwng Tachwedd 2020 a Ionawr 2021, cafodd dros 100 o unigolion eu hadnabod fel unigolion allai fod yn addas i'w cyflogi yn y maes.

Defnyddiwyd dulliau gwahanol i'r hyn a ddefnyddiwyd yn y gorffennol, gyda chydweithio agos â thîm cyfathrebu canolog y Cyngor. Enghraifft o hynny oedd defnyddio ffyrdd gwahanol o dargedu ardaloedd penodol yn y sir drwy wefannau cymdeithasol.

Bu'r ymdrech yn llwyddiannus wrth i ni lwyddo i gyrraedd unigolion na fyddai wedi ystyried y maes gwaith yn y gorffennol yn ogystal ag unigolion na fyddent yn gweld hysbyseb ar wefan y cyngor ac yn ymateb iddo. Mae'r gwaith yma wedi ein galluogi i fod ag adnoddau a deunyddiau gwell yn ogystal â rhoi'r gallu i ni dargedu ardaloedd a grwpiau penodol. Yn sgil yr ymgyrch hon rydym wedi bod yn derbyn 2 neu 3 ymgais am swyddi; cyn hynny roeddem yn aml yn methu a denu unrhyw ymgeiswyr. Mae sawl enghraifft ar draws y maes o fod yn

penodi trwy ddulliau newydd a gwahanol megis trwy'r cynllun prentisiaethau, a chynllun diweddar y Llywodraeth 'Kickstart' sy'n rhoi cyfleon gwaith i unigolion ifanc.

Amcanion Llesiant:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib



Blaenoriaeth Gwella 7

Sicrhau fod y Cyngor cyfan yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Arfogi Unedau i roi Ffordd Gwynedd ar Waith

Blaenoriaeth Gwella 7

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ein cyfrifoldeb ni fel Cyngor yw sicrhau, wrth i ni ddarparu ein gwasanaethau, mai anghenion pobl Gwynedd sy'n llywio sut y byddwn yn cynnig y gwasanaethau hynny. Trwy wneud hyn fe ddylem osgoi unrhyw drefniadau gwaith diangen. Pwrpas y prosiect hwn felly fydd arwain timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac ystyried a oes lle i wella.

Mae'r Strategaeth Ffordd Gwynedd wreiddiol a gyhoeddwyd yn Hydref 2015 wedi dod i ddiwedd ei hoes. Cymeradwywyd Cynllun Ffordd Gwynedd ar ei newydd wedd yn ystod 2019/20.

I'r dyfodol byddwn felly'n gweithredu rhaglen waith Cynllun Ffordd Gwynedd, sy'n cynnwys cynllunio'r gweithlu, cyswllt â'r cwsmer, ac amodau gwaith a herio perfformiad fel rhai o'i prif flaenoriaethau.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Mabwysiadwyd Côt Ymddygiad diwygiedig ar gyfer staff y Cyngor, sydd yn adlewyrchu'r ymddygiadau disgwylidig a berthyn i'r diwylliant gwaith. Mae pob un o'r amodau gwaith yn cael eu hadolygu yn eu tro i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â diwylliant Ffordd Gwynedd ac fe ystyrir cynnwys y Côt fel y sylfaen ar gyfer hynny.

Llwyddwyd i barhau efo'r rhaglen hyfforddi ar gyfer cefnogi datblygiad y "ffordd o weithio" ar draws y Cyngor. Hwyluswyd y gwaith hwn yn dilyn sefydlu trefniadau dysgu o bell yn ystod ail hanner y flwyddyn. Addaswyd yr hyfforddiant chwe diwrnod ar gyfer rheolwyr ac arweinyddion, i'w gyflwyno mewn sesiynau byrrach, a chynhaliwyd nifer o weithdai ar gyfer timau penodol er mwyn cefnogi adolygiadau gwasanaeth a datblygiad y meddylfryd o fewn y gwasanaethau hynny. Bydd modd adeiladu ac ymestyn y gefnogaeth yma ar sail y gwaith a gyflawnwyd eleni gyda'r bwriad o ganolbwyntio ar roi'r adolygiadau ar waith a gwneud gwahaniaeth.

Adolygwyd trefniadau herio perfformiad gyda golwg i gynhyrchu adroddiadau misol i'r Aelodau Cabinet o hyn ymlaen. Byddwn yn parhau i gynnal cyfarfodydd herio perfformiad rheolaidd ond yn canolbwyntio ar y prif risgiau adnabyddir o fewn y Gofrestr Risg, sydd yn eu tro yn cael eu hadlewyrchu yn y blaenoriaethau gwella gytunwyd arnynt yng Nghynllun y Cyngor.

Mae'r gwaith penodol yng nghyswllt cynllunio'r gweithlu yn cael ei adnabod fel blaenoriaeth gwella newydd yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2021/22 ac mae'n ymgorffori y gwaith sydd eisoes yn digwydd efo prentisiaid a hyfforddeion proffesiynol yn ogystal â'r rhaglen datblygu potensial ar gyfer staff presennol y Cyngor.

Cynhaliwyd asesiad annibynnol o ddatblygiad Ffordd Gwynedd o fewn y Cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd yr asesiad yn cydnabod i gamau breision gael eu cymryd ond yn tynnu sylw at rai materion a fyddai'n galluogi'r Cyngor i wreiddio'r diwylliant gwaith yn ehangach ac yn ddyfnach ar draws ein gwasanaethau.



Blaenoriaeth Gwella 8

Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd

Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd

Blaenoriaeth Gwella 8

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ers Mawrth 2019 mae'r Cyngor wedi bod yn mesur yr holl gamau yr ydym eisoes yn eu cymryd i leihau ein ôl-troed carbon ac i baratoi ein cymunedau ar gyfer ymateb i newidiadau hinsawdd i'r dyfodol. Buom hefyd yn ymchwilio i ddulliau newydd arloesol y gallwn eu mabwysiadu i'r dyfodol, nid yn unig fel Cyngor ond ar draws cymunedau Gwynedd, ac yn dechrau ar y broses o ymgynghori ar y syniadau hynny ac unrhyw syniadau eraill y gallem fod wedi eu methu. Yn 2020/21 byddwn yn cyhoeddi a gweithredu ar Gynllun Ymateb i Newid Hinsawdd fydd yn adeiladu ar y camau yr ydym eisoes yn eu cymryd i leihau ôl-troed carbon er mwyn sicrhau ein bod yn uchafu cyfraniad y Cyngor a'r sir wrth ymateb i'r argyfwng. Bydd gwireddu'r Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd yn gyfrifoldeb ar bob un o adrannau'r Cyngor a bydd angen i ni sicrhau bod ein trefniadau mewnol ein hunain yn gadarn yn eu lle cyn i ni symud ymlaen at weld sut y gallwn gydweithio â phartneriaid eraill.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Yn anffodus, bu i argyfwng Covid-19 dorri ar draws y gwaith a oedd yn mynd rhagddo i lunio Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd ond mae swyddogion wedi bod yn gweithio ar ddrafft. Bwriad y papur drafft yw amlygu'r hyn y mae'r adrannau yn bwriadu ei gyflawni er mwyn bod yn sail i weithdy aelodau yn fuan yn 2021-22. Bydd hyn yn arwain at fabwysiadu Cynllun Gweithredu i'r dyfodol.

Buom hefyd yn paratoi i benodi Swyddog Prosiect ar gyfer arwain y gwaith yma, a fydd yn ei le yn ystod 2021-22.

Amcanion Llesiant:

- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

Rhan 2

Adroddiadau'r Adrannau

Adran Addysg

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael yr un cyfleoedd ac yn derbyn yr addysg a'r profiadau gorau posib.

Mewn blwyddyn arferol, byddai'r adroddiad hwn yn gyfrwng i gyflwyno dadansoddiad cryno o safonau ysgolion Gwynedd yng nghyd-destun y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 o ran y sector cynradd, a Chyfnod Allweddol 3 a 4 o ran yr uwchradd. Byddem wedi adrodd ar y dangosydd newydd sef y sgôr Capió 9 sydd yn cael ei gyfrifo ar gyfanswm maint naw TGAU (neu gymhwyster cyfatebol cydnabyddedig) gorau pob dysgwyr. Fodd bynnag, yn sgil pandemig Covid-19, a'r Cyfnod Clo, ble gwelwyd ysgolion yn cau ar 20 Mawrth 2020, ac yn cael eu hail-bwrpasu o 23 Mawrth ymlaen i ddarparu gofal i blant bregus a phlant gweithwyr allweddol gyda'r cwricwlwm wedi ei oedi, nid oes dadansoddiad ar gael o safonau ar draws y Cyfnodau Allweddol, gan gynnwys Cyfnod Allweddol 4 gan na gynhaliwyd arholiadau allanol TGAU a Safon Uwch yn unol â'r drefn arferol.

Yn ychwanegol, ni fu i ESTYN arolygu ein hysgolion yn ystod y cyfnod, ac felly nid yw'r proffil arolygiadau ysgolion Gwynedd wedi newid o'r hyn yr adroddwyd arno yn 2019/20. Fodd bynnag, er na fu ESTYN yn arolygu ysgolion yn ystod 2020/21, ar gais Llywodraeth Cymru, bu iddynt gynnal adolygiad o waith awdurdodau lleol i gefnogi'u cymunedau dysgu mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn ystod y cyfnod o fis Mawrth i fis Hydref 2020, gan gyflwyno adroddiad unigol i bob

awdurdod lleol ar eu canfyddiadau. Dyfynnir o'r adroddiad hwn isod.

Bu 2020-21 felly yn flwyddyn o newid cyson a pharhaus i'r Adran Addysg, i ysgolion, ac i blant a phobl ifanc, gyda'r ysgolion yn cael eu hail-bwrpasu i ddarparu gofal i blant bregus a phlant gweithwyr allweddol o 23 Mawrth 2020 ymlaen, gyda'r cwricwlwm yn cael ei oedi. Gwelwyd sawl cyfnod clo yn ystod y flwyddyn, ac yn ystod y cyfnodau hynny, bu ein hysgolion yn gyfrifol am addysgu o bell, ynghyd â sesiynau dysgu byw er mwyn sicrhau'r addysg orau bosibl i'n plant a phobl ifanc, gyda'r pwyslais amlwg hefyd ar sicrhau ar les a hapusrwydd y plant a'r bobl ifanc o dan yr amgylchiadau.

Mae'r Adran Addysg yn cydnabod yr effaith sylweddol y mae'r pandemig hwn wedi ei gael ar blant a phobl ifanc ac yn sicrhau pob cefnogaeth iddynt. Wrth i ddysgwyr ddychwelyd i'r ysgol roedd pryder y gallai rhai plant a phobl ifanc gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu cyrhaeddiad addysgol, ac y byddai angen cymorth ychwanegol ar rai ohonynt i gau'r bwlch hwnnw, ynghyd â'r angen am gefnogaeth gyda'u lles. Er mwyn ymateb i'r pryder hwn, ers Medi 2020, mae pob ysgol yng Ngwynedd yn gweithredu 'Rhaglen Cyflymu'r Dysgu' gydag arian gan Lywodraeth Cymru, er mwyn ymateb i effaith y Cyfnod Clo ar les a chyrhaeddiad rhai grwpiau penodol o ddysgwyr 5-16 oed. Mae'r Adran Addysg ar y cyd gyda GwE (y Gwasanaeth Gwella Ysgolion) yn cefnogi'r ysgolion i weithredu'r rhaglen hon. Mae'r Adran Addysg hefyd yn rhoi sylw penodol i effaith y pandemig ar les a chyrhaeddiad plant yn y blynyddoedd cynnar, ynghyd â'i effaith ar les, cyrhaeddiad a'r rhagolygon ar gyfer pobl ifanc ôl-16. Bydd yr adran yn gallu dweud mwy am y ffrydiau gwaith yma yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Yn sgil ail-agor ysgolion, bu'r Adran Addysg hefyd yn cefnogi ysgolion unigol pan fo achosion o Covid-19 yn codi, gan ddarparu arweiniad a chyngor priodol, gan ddilyn arweiniad y gwasanaeth profi, ôl-rhain a diogelu, tra ar yr un pryd sicrhau parhad addysg drwy ddarpariaeth o bell i swigod o ddysgwyr fyddai wedi gorfod aros adref yn hunan-ynysu am gyfnod.

Yn ystod y flwyddyn o newid cyson a parhaus, felly, bu i'r Adran Addysg roi bri mawr ar gyfathrebu gyda rhan-ddeiliaid, gan geisio sicrhau arweiniad, canllawiau a phenderfyniadau amserol i alluogi ysgolion weithredu yn y modd mwyaf priodol o dan yr amgylchiadau. Cyflëir arwyddocâd y cyfathrebu amserol hwn yn Adroddiad Thematig Estyn:

'Arweinyddiaeth a Chydweithio

Mae'r Pennaeth Addysg wedi cynnal cyfathrebu uniongyrchol a chyson gyda swyddogion, arweinwyr ysgol a gydag aelodau etholedig trwy gydol y pandemig. Bu cydweithio cadarn o fewn y fforwm strategol cynradd a fforwm strategol penaethiaid uwchradd yn ystod y cyfnod clo. Daethpwyd i gytundeb am yr holl benderfyniadau, cynlluniau a pholisïau drwy'r fforymau hyn a thrwy'r dull cyson hwn o gyfathrebu. Roedd arweinwyr ysgol yn gwerthfawrogi hyn ac yn teimlo ei fod yn adlewyrchu'r cydgyfrifoldeb a rennir rhwng yr awdurdod lleol ac ysgolion.'

Bu i'r Adran Addysg weithio mewn partneriaeth agos gyda'r penaethiaid, GwE, adrannau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru er mwyn gallu darparu'r arweiniad a'r gefnogaeth orau i'r ysgolion o dan amgylchiadau anodd a hynod heriol iddynt.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

Er mwyn hwyluso addysg o bell yn ystod y flwyddyn, ond yn fwy penodol mewn ymateb i'r Cyfnod Clo cyntaf, bu'r Adran Addysg yn rhagweithiol a blaenllaw iawn ym maes TGCh, gan sicrhau 1,200 o ddyfeisiadau chromebook a 175 o ddyfeisiadau MiFi i deuluoedd heb fynediad at dechnoleg a/neu gyswllt i'r we yn ystod y Cyfnod Clo cyntaf. Gwnaeth hyn wahaniaeth mawr i wella mynediad at addysg a phrofiadau addysgol plant dros y cyfnod, er hynny, roedd rhai heriau o hyd o safbwynt nifer annigonol o ddyfeisiadau i deuluoedd mawr, gan arwain at rai plant yn gorfod rhannu dyfeisiadau, a cholli allan ar wersi byw os oedd teuluoedd yn gorfod blaenoriaethu gwersi un plentyn ar draul y llall. Bu'r Adran Addysg hefyd yn flaenllaw wrth lunio polisïau a gweithdrefnau er mwyn caniatáu ysgolion Gwynedd i fod yn dysgu o bell drwy dechnoleg dysgu byw. Bu i bolisi blaengar Gwynedd maes o law gael ei fabwysiadu gan nifer o awdurdodau eraill, a bu'r adran yn rhagweithiol yn hyrwyddo ac annog sesiynau dysgu byw gyda'n hysgolion, gan weld manteision amlwg hynny i'r dysgwyr. Dyma gameo o Adroddiad Thematig ESTYN (Ionawr 2021) ar waith yr Adran i gefnogi ysgolion ac UC Dau:

'Dysgu Digidol fel etifeddiaeth o'r pandemig.

Mae'r awdurdod wedi cyflymu ei gynllun strategol i ddarparu gliniadur i bob disgybl ym mlynnyddoedd 5-11, gyda'r dyraniad cyntaf i'w dosbarthu yn y gwanwyn ar gyfer y rhai yng nghyfnod allweddol 4. Hefyd, mae'r strategaeth hon yn cynnwys darparu gliniadur gwaith newydd i bob athro er mwyn hwyluso dysgu digidol. O ganlyniad, mae ysgolion yn gallu cynllunio ar gyfer dyfodol lle mae gan ddysgwyr fwy o fynediad at TGCh, gan sicrhau felly fod medrau digidol newydd a ddysgwyd yn ystod cyfnodau clo wedi'u gwreiddio yn yr

addysgu a'r dysgu at y dyfodol.'

Mae'r gwaith o fod yn darparu dyfeisiadau i bob dysgwr ac athro yn parhau gyda 900 iPad, 5,500 Chromebook a 3,500 gliniadur wedi eu prynu yn unol â'r weledigaeth a amlygir yn ein Strategaeth Addysg Ddigidol.

Bydd yr Adran yn gallu dweud mwy am ddatblygiadau TGCh yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Y Gymraeg

Yn ystod y Cyfnod Clo, bu i staff y Canolfannau Iaith orfod addasu a thrawsnewid y ffordd yr oeddent yn darparu cefnogaeth i hwyrddyfodiaid i gaffael y Gymraeg. Yn wir, staff y Canolfannau Iaith oedd y cyntaf i beilota cynnal sesiynau dysgu byw yn ystod Tymor yr Haf 2020, a hynny er mwyn cynnal iaith lafar hwyrddyfodiaid a fu'n mynychu'r Canolfannau Iaith yn ystod y flwyddyn addysgol 2019/20. Roedd staff y Canolfannau Iaith a'r ysgolion yn cydnabod mai dim ond drwy'r sesiynau dysgu byw yma roedd mwyafrif o'r dysgwyr a oedd yn hwyrddyfodiaid yn cael mynediad i'r Gymraeg a chyfle i ymarfer eu sgiliau siarad a gwrando. I ategu'r sesiynau dysgu byw, roedd staff y Canolfannau Iaith hefyd wedi sefydlu Google Classrooms i'r dysgwyr ar Hwb i roi cyfleoedd pellach i'r hwyrddyfodiaid ymarfer a chaffael y Gymraeg. Dyma gameo o Adroddiad Thematig ESTYN ar waith yr Awdurdod Lleol i gefnogi hwyrddyfodiaid:

'Cefnogi dysgwyr sy'n newydd i'r iaith Gymraeg

Un enghraifft o gydweddiad clos yr awdurdod lleol a GwE yw eu hymagwedd at gynorthwyo ysgolion i ddatblygu medrau iaith Gymraeg disgyblion. Gwelodd rai ardaloedd arfordirol o Wynedd fewnlifiad sylweddol o bobl nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg yn ystod y cyfnod clo. Ychwanegwyd at yr her o ddarparu ar gyfer

eu hanghenion ieithyddol pan ail-agorodd ysgolion yn mis Medi gan yr anawsterau wrth gynnal unedau iaith Gwynedd ar eu ffurf draddodiadol. I wrthsefyll hyn, er mwyn cynorthwyo ysgolion cynradd, trefnodd yr awdurdod lleol i'r athrawon arbenigol ddarparu gwasanaeth all ymestyn ar sail clwstwr, tra bod swyddog cefnogi gwelliant y clwstwr yn gweithio gyda'r ysgolion i greu ac addasu cynlluniau gwaith Cymraeg.'

Yn sgil y pandemig mae staff y Canolfannau Iaith wedi parhau i ddarparu cefnogaeth i hwyrddyfodiaid drwy gyfrwng dysgu cyfunol, sef sesiynau wyneb yn wyneb yn yr ysgolion, sesiynau dysgu byw drwy TEAMS, ynghyd â gwaith ar Google Classrooms, fodd bynnag, ystyrir ail-agor y Canolfannau Iaith i ddysgwyr am y tro cyntaf yn sgil y pandemig yn ystod Tymor yr Haf 2021.

Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (ADY a CH)

Mae'r Gwasanaeth ADY a Ch wedi adolygu'r model darparu mewn cyfnod byr iawn i ymateb i'r Cyfnod Clo dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn galluogi parhad mynediad at y gwasanaeth i ddysgwyr. Roedd hyn yn heriol wrth gwrs oherwydd cyfyngiadau mewn cyfnod a oedd yn hynod o wahanol a heriol i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Law yn llaw gyda'r cyfnod hwn, mae'r dyletswydd statudol i ddarparu yn unol â Deddf AAA (2002) wedi parhau, a'r gwaith trawsnewid ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd yn y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol hefyd wedi parhau. Bu i'r gwasanaeth weithredu ar dair haen er mwyn ymateb i'r lefelau gwahanol o angen:



Bu angen rhoi pwyslais pendant ar gefnogi llesiant ar yr haenau uchod gydag elfennau o hynny yn dod o'r cyswllt ar lefel unigol, hyfforddiant wedi ei dargeddu, a hyfforddiant ac adnoddau cyffredinol. Er enghraifft:

- Adnoddau ar gyfer delio gyda trawsnewid, pum ffordd at les ar y wefan (www.adyach.cymru). Bu defnydd o'r wefan yn uchel iawn
- Hyfforddiant Tyfu Drwy'r Tymhorau (delio gyda colled a galar) ac Ymwybyddiaeth Ofalgar
- Goruchwyliaeth ar gyfer cymorthyddion ELSA (Emotional Literacy Support Assistant) a oedd yn cefnogi disgyblion bregus yn ystod y cyfnod
- Sesiynau llesiant ar gyfer Penaethiaid
- Ac yn fwyaf newydd, adnoddau ymateb i'r cyfnod o ansicrwydd ar gyfer blynyddoedd 11 -13.

Mae'r gwasanaeth lles yn cefnogi ysgolion i hyrwyddo presenoldeb. Gall anawsterau presenoli fod yn sgil ystod o ffactorau e.e. anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/ neu ddatblygiad cymdeithasol. Yn ystod y cyfnod mae elfennau o rôl y Swyddogion Lles wedi newid yn anorfod gyda threfniadau erlyn arferol rhieni ar saib. Drwy'r cyfnod Covid-19 maent wedi cefnogi'r ysgolion trwy roi cymorth i ddysgwyr a'u teuluoedd ble roeddynt yn cael anawsterau i fynychu'r ysgol am nifer o resymau yn sgil Covid-19. Mae'r anawsterau hyn wedi cynnwys pryder am y firws a'r trefniadau newydd, diffyg cymhelliant oherwydd y sefyllfa, ynghyd ag anawsterau hanesyddol yn parhau ac yn dwysáu.

Yn ystod y Cyfnod Clo, adnabuwyd 153 o unigolion blynyddoedd 7-10 oedd angen cefnogaeth o ran eu lles, gydag 80% wedi ymgysylltu'n wythnosol ac 20% yn ad-hoc drwy ymgymryd â phecynnau gweithgaredd wedi eu gyrru i'r cartref, cefnogaeth gyda ffitrwydd a diet, cefnogaeth gyda lles emosiynol, cefnogaeth ar safle'r ysgol, ynghyd â darpariaeth ADTRAC i ddysgwyr blwyddyn

11 oedd yn risg uchel o fod yn NEET.

Yn ogystal, adnabu ESTYN bod yr Adran Addysg wedi rhoi cymorth pwrpasol i benaethiaid a staff ysgolion gan daro cydbwysedd effeithiol rhwng cefnogaeth ar gyfer lles penaethiaid, staff a dysgwyr tra ar yr un pryd yn hyrwyddo dysgu. Dyma gameo o Adroddiad Thematig ESTYN (Ionawr 2021):

'Cydbwyso cefnogaeth ar gyfer lles a hyrwyddo dysgu

Roedd y swyddogion addysg ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda phob pennaeth. Yn y cyfarfodydd hyn, roedd ffocws penodol ar lwyddiant ysgolion wrth ymgysylltu â dysgwyr sy'n fregus. Mae wedi sicrhau bod staff uwchradd i gyd wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol ar sut i ddarparu'n dda ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Yn ogystal, mae'r holl benaethiaid wedi derbyn hyfforddiant buddiol ar les meddwl a lles emosiynol. Diben hyn yw sicrhau bod penaethiaid yn teimlo bod cefnogaeth dda iddynt wrth reoli eu lles eu hunain yn ogystal â theimlo wedi'u grymuso i gefnogi lles eu staff. Mae penaethiaid wedi nodi bod yr hyfforddiant a'r cymorth hwn wedi bod yn werthfawr iawn.'

Arlwyo a Glanhau

Bu i staff y gwasanaeth arlwyo a glanhau ymateb yn gadarnhaol i'r galw amrywiol fu arnynt yn ystod y flwyddyn. Ar ddechrau'r Cyfnod Clo bu'r gwasanaeth arlwyo yn darparu pecynnau bwyd i ddysgwyr oedd yn gymwys am ginio am ddim, fodd bynnag dim ond 224 o blant cymwys oedd yn dod i gasglu pecyn bwyd. O ganlyniad, o 20 Ebrill hyd at Medi 2020, trefnwyd taliadau uniongyrchol i ddysgwyr oedd yn gymwys am ginio am ddim, gyda 2,249 o blant yn derbyn taliad uniongyrchol cinio am ddim ar 14 Awst 2020. Bu i'r taliadau uniongyrchol hyn barhau drwy gyfnod gwyliau ysgol hyd at Pasg 2021. Yn sgil ysgolion yn ail-agor, trefnwyd taliadau uniongyrchol i blant cymwys oedd yn rhan

o swigen mewn ysgol ac yn gorfod hunanynysu, gyda gweddill y plant cymwys yn derbyn cinio am ddim yn yr ysgol.

At hyn, bu i 230 o staff arlwyo gynorthwyo gyda glanhau ysgolion yn ystod y dydd o 29 Mehefin 2020 hyd at 17 Gorffennaf 2020. Ers Medi 2020, mae staff yn glanhau ysgolion yn ystod y dydd ac ar ôl ysgol, ac er bod heriau staffio gan y gwasanaeth, mae'r gwasanaeth arlwyo wedi llwyddo i ddarparu cinio ysgol arferol bob dydd i holl ysgolion Gwynedd.

Tlodi Mislif

Derbyniwyd grant gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi mislif yn y gymuned ac yn ein hysgolion er mwyn galluogi merched i gael nwyddau hylendid yn rhad ac am ddim. Yn sgil y grant, mae nwyddau mislif ar gael i holl ddysgwyr ysgol o flynyddoedd 5-13 sydd eu hangen, ac yn ystod y Cyfnod Clo, roedd modd i ddysgwyr gysylltu â'u hysgol am y nwyddau. At hyn, bu i'r cynllun TRAC 11-24 ddosbarthu pecynnau o nwyddau mislif eco-gyfeillgar y gellir eu hail-ddefnyddio i bobl fregus, difreintiedig neu nad ydynt mewn cyswllt â'r system addysg brif-ffrwd. Dosbarthwyd dros 160 o becynnau i bob rhan o'r sir. Mae gwaith wedi ei gyflawni i ddosbarthu pecynnau yn uniongyrchol o fewn cymunedau hefyd, gyda 420 o becynnau wedi eu rhannu efo grwpiau cymunedol sydd wedi eu sefydlu i gefnogi unigolion a theuluoedd bregus yn ystod y cyfnod.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor drwy ddarparu'r gefnogaeth amserol sy'n angenrheidiol i alluogi bobl Gwynedd i fyw eu bywyd fel y maent eisiau ei fyw.

Covid-19

Mae argyfwng Covid-19, a darodd ym Mawrth 2020 wedi cyflwyno heriau sylweddol i'r Adran hon drwy gydol 2020/21. O ystyried y flwyddyn digynsail sydd wedi bod mae perfformiad yr Adran wedi bod yn dda. Mae gwaith yr Adran hon yn parhau beth bynnag yn yr argyfwng gyda'r ffocws yn gorfod bod ar addasu a newid y gefnogaeth a roddir i drigolion. Gwelwyd yn ystod y flwyddyn fod nifer angen cefnogaeth yn yr un modd a'r arfer, os nad mwy, ac roedd rhai penderfyniadau i oedi rhai gwasanaethau yn anodd iawn i'w gwneud. Bu rhai o'n gwasanaethau canolfannau dydd ar gau am gyfnod, ac mae rhai canolfannau yn parhau ar gau oherwydd y risgiau, ond fe fu ein staff yn gwneud eu gorau i ddarparu cefnogaeth tu allan yn y gymuned lle'r oedd hynny'n bosibl. Fodd bynnag, mae'r Adran wedi llwyddo i barhau i ddarparu'r mwyafrif o'i wasanaethau (mewn ffyrdd gwahanol i'r arfer mewn nifer o sefyllfaoedd) ac wedi ymdrechu'n gref i alluogi a chefnogi ein darparwyr gofal annibynnol i allu gwneud yr un peth.

Un her sylweddol i nifer o'r unigolion rydym yn eu cefnogi a'u teuluoedd oedd yr angen i rwystro ymwelwyr rhag ymweld â chartrefi gofal. Wrth reswm cafodd hyn effaith negyddol ar drigolion a theuluoedd. Er y cyfyngiadau gwnaethpwyd pob ymdrech i hwyluso ymweliadau mewn sefyllfaoedd o waeledd difrifol.

Ar ddechrau'r argyfwng bu cyfnodau o ansicrwydd a gwagle mewn arweiniad ar agweddau megis rhyddhau cleifion o ysbytai. Mewn ymateb i hyn rhoddwyd canllawiau mewn lle i sicrhau eglurder i weithwyr rheng flaen ac i ddiogelu ein trigolion. Ar ddechrau'r argyfwng hefyd, roedd prinder pryderus iawn o offer PPE a newidiadau cyson mewn canllawiau yn achosi ansicrwydd ymysg ein staff gofal. Yn ogystal, roedd yr angen i rai staff hunan ynysu am wahanol resymau'n amlygu'r heriau recriwtio yr ydym wedi bod yn eu wynebu ers rhai blynyddoedd. Ceir rhagor o wybodaeth am faterion PPE ym mhennod Covid-19 yr Adroddiad ac am recriwtio yng ngwybodaeth y Blaenoriaethau Gwella.

Agwedd arall mae'r maes wedi gorfod addasu ac ymdopi ag o oedd yr angen i brofi staff rheng flaen a thrigolion sy'n derbyn cefnogaeth yn rheolaidd. Er mor allweddol oedd hyn i warchod rhag lledaeniad, mae'r newid cyson i'r trefniadau wedi bod yn heriol gan gyfrannu ar brydiau tuag at ansicrwydd yn deillio o fod yn aros am ganlyniadau neu gan nad oedd y canllawiau ar y pryd yn caniatáu profi rhai carfanau o staff. Law yn llaw ag ymdopi â'r gofynion newydd hyn, dylid cydnabod yr ymdrech arwrol sydd wedi bod ar draws y maes wrth frechu staff allweddol a'n trigolion bregus.

Roedd hyblygrwydd o fewn gwasanaethau a staff yr Adran i ymgymryd â chyfrifoldebau a dyletswyddau newydd dros nos yn gwbl allweddol i lwyddiant ein hymateb i'r argyfwng. Enghraifft wych oedd sefydlu'r Tim Cefnogi Covid a'r trefniadau gafodd eu rhoi mewn lle ar ddechrau'r argyfwng, ac sy'n parhau, i gefnogi darparwyr gofal ar draws y sir. Mae rhagor o wybodaeth am yr agweddau yma i'w ganfod yn y bennod Covid-19 ar ddechrau'r adroddiad.

Her pellach i ni rŵan wrth gwrs yw i bwysu a mesur ein opsiynau wrth ail adeiladu yn well, rhoi sylw i wersi a ddysgwyd, a thrwy hynny ystyried siâp ein gwasanaethau i'r dyfodol. Fel rhan o hyn bydd angen i ni asesu effaith tymor hirach y pandemig ar ein cymunedau a'r galw fydd ar ein gwasanaethau. Byddwn yn cychwyn ar y daith honno yn ystod y flwyddyn sydd i ddod trwy ail ymweld â'n 'asesiad o anghenion ein poblogaeth'.

Un elfen bositif yn sgil argyfwng Covid-19 yw'r ffaith ei fod wedi amlygu pa mor allweddol yw rôl staff gofal wrth gynnal a chefnogi gwasanaethau iechyd ac mae'n braf gweld hynny'n cael ei gydnabod. Bydd yn hollbwysig i ni sicrhau fod y gydnabyddiaeth yna'n parhau i'r dyfodol i sicrhau gwell cydweithio a gwasanaethau o'r ansawdd gorau i'n trigolion.


Pobl Hŷn, Anableddau Corfforol a Synhwyrdd

Mae'r gwaith ar y Rhaglen Drawsffurfio Iechyd a Gofal Cymunedol yn mynd yn ei flaen gyda phwyslais ar integreiddio'r diwylliant hanfodol o fewn ein 5 Tîm Lleol ac arfogi arweinwyr a staff i sicrhau eu bod yn cadw'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn wrth wraidd ei ofal. Mae'r timau hyn, sy'n cynnwys staff iechyd, gofal, y trydydd sector a'r sector annibynnol, yn cael cyswllt rheolaidd ar lefel is-ardaloedd; gan rannu gwybodaeth ac adnoddau, cydweithio i ddeall y sefyllfa'n lleol a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau. Mae elfennau eraill y rhaglen yn cynnwys prosiectau sy'n hwyluso'r drefn i bobl adael yr ysbyty, prosiect rhannu gwybodaeth ar draws asiantaethau a'r prosiect ail-ddylunio gofal cartref yn y sir.

Er bod yr amserlen wedi llithro rywfaint oherwydd argyfwng Covid-19, mae'r cynlluniau yn mynd yn eu blaen, gyda'n gweledigaeth yn barhau i ffocysu ar symud y gwasanaethau gofal cartref tuag at fodel sy'n seiliedig ar ardaloedd lleol, a chomisiynu ar sail canlyniadau i unigolion a gwerth

cymdeithasol. Rydym yn bwriadu cynnal proses dendro ar gyfer ardaloedd penodol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Ein prif fesur fel gwasanaeth bellach yw a ydym wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn sy'n cael ei gefnogi gennym. Mae'r data yn ystod y flwyddyn a fu yn dangos ein bod wedi cyflawni hyn mewn 71% o'r achosion hynny. Llwyddwyd wedyn i gyflawni'r hyn sy'n bwysig yn rhannol mewn 23% o'r achosion, gan adael yn anffodus 6% (24 unigolyn) ble na chafwyd llwyddiant.



Penderfynodd nifer i roi stop ar eu gofal am gyfnod ar ddechrau'r cyfnod clo cyntaf gan eu bod yn y categori 'gwarchod' a theulu'n eu cefnogi adref. Roedd ail ddechrau'r gofal i'r unigolion hyn wrth i deuluoedd ddychwelyd i weithio'n heriol ac mae hyn wedi cyfrannu at y diffyg cynnydd yn y nifer o bobl yn nodi ein bod yn cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt. Fel y disgwyl hefyd mae unigrwydd a diffyg cwmnïaeth wedi cael effaith ar lesiant unigolion. Adlewyrchir hynny yn yr achosion hynny ble nad yw wedi bod yn bosib cyflawni'r hyn sy'n bwysig gyda rhesymau'n cynnwys enghreifftiau megis methu gweld aelodau o deulu neu nad yw wedi bod yn bosib cymdeithasu a ffrindiau mewn canolfan

ddydd.

Rydym yn parhau i wynebu her i ddarparu gwasanaethau gofal o fewn rhai cymunedau'r sir, yn benodol rhai ardaloedd gwledig lle mae prinder gofalwyr a phoblogaeth sy'n heneiddio yn golygu pwysau cynyddol ar ein gwasanaethau. Yn anffodus, mae hyn wedi'i amlygu yn ystod argyfwng Covid-19 gyda'r rhestrau aros am ddarpariaeth gofal cartref wedi cynyddu a darparwyr yn rhoi pecynnau gofal yn ôl i sylw'r Cyngor o ganlyniad i broblemau staffio. Ond yn fwy diweddar yn ystod misoedd Chwefror a Mawrth 2021 rydym wedi gweld y sefyllfa'n gwella cryn dipyn gyda'r niferoedd sy'n aros am ddarpariaeth gofal cartref wedi gostwng.

Iechyd Meddwl

Mae Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn wasanaeth integredig ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Mae'r Bwrdd Iechyd yn arwain y gwasanaeth hwn, gyda'n gweithwyr cymdeithasol a chydweithwyr y Bwrdd wedi eu lleoli mewn timau aml-ddisgybledig yn Uned Hergest ac Ysbyty Alltwen.

Yn ystod yr argyfwng, mae'r timau Iechyd Meddwl wedi parhau i gefnogi unigolion, boed hynny yn y gymuned neu drwy ein canolfannau ICAN. Mae'r gefnogaeth yma wedi bod yn rhithiol yn bennaf ond mae ymweliadau wyneb i wyneb wedi parhau ar gyfer unigolion sy'n dirywio neu mewn crisis. Mae rhagor o wybodaeth ar ddatblygiadau'r gwaith ICAN i'w ganfod o dan y prosiect Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal yn yr adran Blaenoriaethau Gwella.

Mae'r her i gael meddyg addas i gyflawni gwaith o dan Adran 12 y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn parhau. Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol wedi uchafu'r pryderon i'r Bwrdd Iechyd ac wedi gofyn am gynllun

gweithredu er mwyn cyfarch y broblem. Mae'r diffyg yma'n achosi oediad wrth geisio sicrhau mynediad amserol i'r ysbyty ac mae risg i gyflwr meddyliol unigolion ddirywio ymhellach.

Anableddau Dysgu

Mae cynnig ymyrraeth ataliol yn gyrru'r gwelliannau yn y maes Anableddau Dysgu gyda ffocws ar ddatblygu gwasanaethau cymunedol sy'n cyfarch yr hyn sy'n bwysig i unigolion. Mae mesurydd perfformiad y gwasanaeth yn dangos perfformiad cadarnhaol gan nodi fod 85% o'n achosion wedi adrodd ein bod wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt, a 15% pellach yn nodi ein bod wedi llwyddo'n rhannol. Wrth ystyried y data ar gyfer y flwyddyn a fu dylid cydnabod fwy nac erioed fod yr hyn sy'n bwysig i drigolion yn gallu newid yn ddibynnol ar y sefyllfa ar y pryd. Roedd yn gwbl allweddol ein bod yn gallu bod yn greadigol a hyblyg wrth addasu'r gefnogaeth i unigolion a hynny er mwyn gallu cyfarch beth sy'n bwysig mewn ffyrdd gwahanol i'r arfer.

Gwyddwn fod y materion sy'n ein rhwystro rhag cyflawni'r hyn sy'n bwysig yn llawn yn bennaf yn ymwneud â lletya a chyfleon gwaith. Mae gennym fwrdd prosiect yn y ddau faes blaenoriaeth yma ar hyn o bryd er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch, a hynny yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau Rhaglen Drawsffurfio Anabledd Dysgu Gogledd Cymru. Rydym wedi dechrau gweithio gyda Chymdeithasau Tai ac Adran Tai ac Eiddo'r Cyngor er mwyn cyfarch y prinder llety addas ar gyfer unigolion gydag Anableddau ar draws y sir. Mae darparu cyfleon hyfforddiant a phrofiadau gwaith i unigolion ag Anableddau Dysgu hefyd yn flaenoriaeth a bydd hyn yn galluogi unigolion i ddysgu a chyfranogi mewn cymdeithas. Yn ogystal â chyd-weithio gyda chyflogwyr yn y sector breifat, mae'n bwysig ein bod ni fel gwasanaeth ac fel Cyngor yn arwain y ffordd.

Mae Hwb Cymunedol yn cael ei ddatblygu yn Nolfleurig, Dolgellau ac mae Gwasanaeth 'Pryd ar Glud' yn cael ei weithredu yn ardal y Ffôr, Pwllheli mewn cydweithrediad ag Agoriad, a bydd y ddau ddarpariaeth yma yn cynnig cyfleoedd hyfforddiant a gwaith cyflogedig.

Yn ystod y cyfnod clo, rydym wedi llwyddo i barhau gyda sesiynau i hybu lles unigolion – yn gorfforol, emosiynol a chymdeithasol. Rydym wedi darparu sesiynau rhithiol megis ioga, dawnsio, celf gydag artist lleol, cwis, disgo, ynghyd â Chôr Makaton a llawer mwy. Cynhaliwyd gweithgareddau eraill hefyd megis grwpiau cerdded yn y gymuned a sesiynau trafod cyfrinachol 'Blwch Siarad' mewn cydweithrediad â Mind. Yn ystod y flwyddyn, roedd 134 o unigolion wedi derbyn cefnogaeth neu ymuno'n y sesiynau.

Llwyddwyd hefyd i barhau i ddarparu cyfleon dydd ac ysbaid ar sail un i un mewn rhai sefyllfaoedd blaenoriaeth ac rydym wedi darparu gwasanaethau pwrpasol drwy ddefnyddio ein hybiau cymunedol yn hyblyg i sicrhau cadw at reoliadau Covid-19. Yn ogystal, ers mis Medi, mae'r gwasanaeth Anableddau Dysgu wedi dechrau defnyddio uned ysbaid newydd ym Mhwllheli i ddarparu gwasanaeth ysbaid dros nos i unigolion ag anableddau, sy'n helpu gofawyr gyda'r pwysau sylweddol sydd arnynt, ac yn sicrhau ein bod yn cwrdd â'r angen cyn bod angen ymyrraeth fwy dwys.

Llesiant

Rydym yn gweithio er mwyn gwella ansawdd bywyd drwy gysylltu pobl, ond rydym hefyd yn rhoi ffocws ar gefnogi gofawyr teuluol/di-dâl.

Sefydlwyd tudalen Facebook yn ystod y cyfnod argyfwng er mwyn hyrwyddo llesiant pobl drwy hybu'r 5 Ffordd at Les gan Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy rannu ystod eang o

wybodaeth a digwyddiadau iechyd a llesiant yng Ngwynedd. Cynhaliwyd pythefnos greadigol ar-lein dan y teitl **Llesiant i Mi** hefyd rhwng 18/1/21-31/1/21 gyda'r nod o gefnogi lles meddyliol yr unigolion oedd yn cymryd rhan. Roedd y digwyddiad am ddim i unrhyw un dros ddeunaw, a'r holl weithgareddau'n seiliedig ar y 5 Ffordd at Les gan gynnwys gweithgareddau creadigol, fideos, sgysiau, syniadau, ysbrydoliaeth, ymdeimlad o gefnogi'n gilydd a llyfryn i dywys pob unigolyn drwy'r cyfnod.

Mae'r argyfwng yn sicr wedi amlygu'r pwysau sydd ar ofalwyr di-dâl ac yn ystod 2020/21 rydym wedi gweithio â mudiadau eraill i sefydlu Rhwydwaith Gofalwyr Gwynedd, lle bu gwaith ar y gweill yn ystod y flwyddyn i gefnogi gofawyr di-dâl yn ystod yr argyfwng. Cafodd y llyfryn 'Edrych ar ôl Rhywun' ei baratoi i gefnogi gofawyr hefyd. Ym mis Awst 2020, cynhaliwyd Gŵyl Gofalwyr Ar-lein am dair wythnos gyda'r nod o ddarparu gwybodaeth, cefnogi llesiant gofawyr a chael hwyl. Law yn llaw, cynhaliwyd Diwrnod Hawliau Gofalwyr sef ymgyrch ar-lein i godi ymwybyddiaeth o hawliau gofawyr. Rydym hefyd wedi bod yn rhan o bartneriaeth i greu cerdyn adnabod ac Ap i Ofalwyr Ifanc. Mae'r ap yn ei gwneud yn haws i ofalwyr ifanc a'u teuluoedd gael cefnogaeth a hysbysu eu hysgolion o unrhyw sefyllfaoedd sy'n codi, a byddwn yn rhedeg peilot ohono'n fuan.

Ein Darpariaeth Mewnol

Mae gennym fel cyngor 13 o gartrefi preswyl (11 ar gyfer oedolion hŷn, a 2 ar gyfer pobl ag anableddau dysgu) ac rydym yn falch iawn o'r modd y mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i gynnal ansawdd y gofal drwy gydol yr argyfwng.

Yn ystod y flwyddyn mae cartrefi wedi wynebu sawl her ac mae trigolion a staff wedi addasu'n rhyfeddol. Rydym yn hynod falch o'r ymdrechion a'r ymrwymiad i roi

lles pobl yn ganolog gan eu cefnogi i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd drwy ddulliau technoleg, i gymryd rhan mewn gwasanaethau crefyddol ar-lein ac i gynnal gweithgareddau i'w diddanu. Rydym wedi ymrwymo i uwchraddio cysylltiadau Wi-Fi ymhob cartref ac erbyn hyn mae offer newydd wedi ei osod yn bron bob un.

Rydym wedi parhau â'r rhaglen i fuddsoddi a moderneiddio ein cartrefi er mwyn gwella ansawdd a sicrhau adnoddau pwrpasol i gwrdd ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Mae gwaith addasu wedi'i gwblhau yn ein cartref yn Llan Ffestiniog ac mae gwaith yn digwydd yn ein cartrefi yn Nolgellau a'r Bermo.

Mewn perthynas â **Blaenoriaethau Lleol** yr adran, mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygiad Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwllheli. Gyda hyn, byddwn yn rhoi sylw i wella'r ddarpariaeth gofal yn ardal wledig Llŷn i'r dyfodol. Mae'r gwaith o adnabod safleoedd ar gyfer datblygiad yn ardal Dolgellau ac ardaloedd eraill ym Meirionnydd hefyd yn parhau. Anelir i gael cynllun pendant ar o leiaf un o'r safleoedd yn ei le erbyn gwanwyn 2022.

Mae'r gwaith uchod yn derbyn rhagor o sylw fel rhan o brosiect Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal yn yr adran Blaenoriaethau Gwella.

Diogelu a Diogelwch Cymunedol

Mewn cyfnod o 12 mis, mae 598 o **ymholiadau diogelu** wedi eu gwneud, gyda 93% ohonynt wedi eu cwblhau o fewn 7 diwrnod. Mae'r canran yma'n is na'r llynedd (95%) o ganlyniad i'r cynnydd sylweddol eleni yn nifer yr adroddiadau diogelu (437 o ymholiadau yn 2019/20). Fodd bynnag, er bod 7% o ymholiadau nad oeddent wedi eu cwblhau o fewn 7 diwrnod, dylid nodi eu bod wedi cael sylw a'r risgiau wedi eu rheoli ymhob achos.

**o'r holl atgyfeiriadau
amddiffyn oedolion
sydd wedi eu
cwblhau yn ystod
y flwyddyn,
llwyddwyd i reoli'r
perygl 92% o'r amser**



Dylid nodi bod y ffigwr uchod yn cynnwys yr achosion hynny lle y bu i'r unigolion wrthod ymyrraeth (llwyddwyd i reoli'r perygl 98% o'r amser wrth eithrio yr achosion hynny).

Mae'n gwaith **Diogelwch Cymunedol** yn digwydd mewn partneriaeth ar draws Gwynedd a Môn er mwyn taclo a lleihau trosedd ac anrhefn er budd diogelwch a lles pobl y ddwy sir. Mae cynllun 2020-21 y Bartneriaeth wedi'i gyflawni a [chynllun 2021-22](#) wedi'i baratoi.

Mae llwyth gwaith y maes hwn wedi cynyddu'n ystod y flwyddyn. Yr enghraifft amlycaf o hyn yw'r gwaith yn ymwneud ag Adolygiad Lladdiad Domestig (DHR). Rydym ar hyn o bryd yn gweithio ar bedwar adolygiad ac mae hynny heb os yn ein cyfyngu i fod yn gallu rhoi sylw i faterion allweddol eraill.

Sicrwydd Ansawdd

Rydym wedi ailgyfeirio adnoddau ar sail dros dro er mwyn cynyddu ein capasiti i gwblhau gwaith **sicrwydd ansawdd** yn fwy rhagweithiol. Rydym wedi parhau i wella ein gwaith drwy gasglu gwybodaeth cynnar, ond serch hynny rydym yn parhau i weld prinder capasiti parhaol i gwblhau'r gwaith ataliol yn llawn. Cafodd y prinder yma'i amlygu yn ystod argyfwng Covid-19 lle bu holl gapasiti'r tîm (tri gweithiwr llawn ac un rhan amser),

yn ogystal â chapasiti ychwanegol o dimau eraill yn yr Adran, yn canolbwyntio ar gefnogi ein partneriaid gofal. Mae mwy o wybodaeth am y gwaith yma yn y bennod Covid-19 ar ddechrau'r adroddiad.

Yn ystod mis Ionawr 2021 bu i'r Adran gael archwiliad gan Arolygaeth Gofal Cymru. Rydym yn falch o adrodd y cafwyd adborth cadarnhaol ganddynt a dylid cydnabod hefyd pa mor heriol oedd amseriad yr ymweliad o ystyried ein hymdrechion a'r blaenoriaethu oedd yn rhaid digwydd ar y pryd mewn ymateb i ail don y pandemig.

Gwasanaeth Busnes

Mae cyfran uchel o waith y Gwasanaeth Busnes yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi ei yrru gan yr argyfwng. Boed hynny wedi bod trwy ailgyfeirio staff, cefnogi darparwyr gyda'r trefniadau profi neu weinyddu cymorth cyllidol ychwanegol i'r maes. Er y blaenoriaethu sydd wedi gorfod digwydd mae'r gwaith craidd o gefnogi timau rheng flaen y maes gofal wedi gallu parhau, gydag enghreifftiau yn ogystal ble rydym wedi gallu manteisio ar y cyfle i wella a symleiddio rhai o'n prosesau gwaith megis ein dull o dalu darparwyr preswyl a nyrsio annibynnol.

Darpariaeth sy'n cael ei gomisiynu

O ran y ddarpariaeth sy'n cael ei gomisiynu, rydym yn cydnabod ac yn diolch am yr holl waith sydd wedi digwydd i ymateb i'r argyfwng ac i edrych ar ôl ein trigolion bregus ar draws y sir. Yn benodol yn y maes Pobl Hŷn er enghraifft, rydym wedi wynebu sawl sefyllfa heriol yn ystod y flwyddyn lle'r oedd angen cydweithio'n agos gyda darparwyr ac asiantaethau perthnasol. Yn anffodus gwelwyd Cartref Penrhos ger Pwllheli yn cau yn yr Hydref, a chefnogwyd unigolion a'u teuluoedd yn ystod y cyfnod anodd hwn gan hwyluso unigolion i symud i gartrefi gofal eraill o'u dewis. Buom yn cefnogi nifer o gartrefi

eraill, oedd yn wynebu sialensau'n ystod y flwyddyn, ar faterion megis rheolaeth ac arweinyddiaeth.

Mae'r angen i edrych ar wella cyflogau staff rheng flaen y maes wedi'i amlygu fwy nac erioed a byddwn angen sicrhau mewnbwn llawn i'r trafodaethau ehangach fydd yn digwydd o ran hyn. Mae'r agwedd hon yn allweddol i'r hyn sydd wedi'i adnabod fel blaenoriaeth gwella i sicrhau gweithlu cadarn i'r dyfodol. Mae hyn hefyd wedi cyfrannu'n rhannol at yr her rydym fel Awdurdodau Lleol ar draws Cymru yn ei wynebu o ran y ffioedd safonol sy'n cael eu talu i ddarparwyr gofal i ofalu am ein trigolion. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn cydweithio â darparwyr i ddod i ddeall yn well y gwir gost o ddarparu gofal gan gynnig opsiynau ar y ffordd ymlaen fyddai'n cyfrannu at gynaliadwyedd a sefydlogrwydd y farchnad.

Crynodeb

Mewn blwyddyn anodd mae perfformiad yr Adran wedi bod yn dda. Y prif faterion fydd angen sylw pellach yn ystod 2021/22 a thu hwnt yw:

- Parhau gyda'r gwaith o ail ddylunio ein gwasanaethau gofal gan hybu ymhellach y gwaith o gryfhau gwydnwch ein cymunedau
- Sicrhau darpariaeth gofal addas a chynaliadwy ar draws y sir
- Sicrhau gweithlu cadarn yn y maes gofal i'r dyfodol, ac
- Ailadeiladu ac addasu ein gwasanaethau gan ystyried yr hyn a ddysgwyd o'r cyfnod argyfwng

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Yn amlwg, mae eleni wedi bod yn flwyddyn wahanol iawn i ni i gyd. Rydym wedi gorfod newid ein ffordd o weithio, er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant plant a'u teuluoedd drwy'r cyfnod heriol hwn. Braf ar ddiwedd blwyddyn fel hon yw cael edrych yn ôl a datgan fod ein hymarfer a pherfformiad yn gyffredinol ar draws y maes Plant wedi parhau'n gadarn. Braf oedd derbyn adborth cadarnhaol unwaith eto gan Arolygiaeth Gofal Cymru o'u hymweliad gyda'n gwasanaethau ym mis Ionawr 2021. Canmolwyd yr adran am ein llwyddiant i gadw cyswllt gyda phlant a theuluoedd drwy ymweliadau, galwadau cadw mewn cyswllt a drwy gyfryngau rhithiol. Canmolwyd yr adran am ei phroffesiynoldeb ac ymdrech ein gweithwyr i gefnogi sefydlogrwydd teuluoedd a lleoliadau, a sicrhau pob cefnogaeth posibl i gadw teuluoedd gyda'i gilydd yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Llwyddodd yr adran i barhau i gefnogi a diogelu plant a chadw plant a'u teuluoedd gyda'i gilydd mewn cyd-destun o gyfyngiadau ar ddulliau arferol o weithio; mabwysiadu gweithdrefnau PPE, profion a brechu; dargyfeirio staff i arwain gwaith y Tîm Cymorth Covid ac i'r Tîm Profi, Orlhain a Diogelu. Bu i ni ddatblygu ymyraethau a gwasanaethau newydd i ddiogelu ac i gyfarch anghenion teuluoedd wrth iddynt ymdopi gyda'r pandemig megis darparu bocsys bwyd wythnosol am dri mis i bob cartref ble roedd plentyn ar y gofrestr diogelu; darparu bocsys adnoddau babis i famau newydd mewn ardaloedd difreintiedig; darparwyd pecynnau bwyd i gefnogi lleoliadau pobl ifanc ôl-ofal; cefnogwyd cynlluniau i greu a darparu

Pecynnau Gweithgareddau Celf, Garddio a Sachau Chwarae i gartrefi drwy'r sir. Mae pobl ifanc y sir wedi elwa o fforymau sgwrsio a chymorth ar-lein, ac mae gweithgareddau cymdeithasol fel creu miwsig, cwis, ffitrwydd a choginio ar-lein i gyd yn ymgais i adeiladu gwydnwch a hyrwyddo llesiant mewn cyfnod anodd.

Darparwyd sesiynau chwarae a hwyl i deuluoedd a gefnogir gan ein Tîmau Gwaith Cymdeithasol dros gyfnod gwyliau'r haf.

Comisiynwyd partneriaid yn y trydydd sector i ddarparu cefnogaeth newydd i dargedu rhieni ifanc sydd â risg uwch o gyrraedd trothwy gofal gyda'u sgiliau rhiantu, a chefnogaeth ychwanegol i deuluoedd ddelio gyda gwrthdaro, gyda heriau iechyd meddwl a llesiant a chefnogaeth benodol i dadau. Byddwn yn parhau i gomisiynu'r gwasanaethau hyn y tu hwnt i gyfnod yr argyfwng oherwydd y canlyniadau llwyddiannus a gafwyd gan ein teuluoedd.

Aethom ati i groesawu'r cyfleoedd newydd a ddaeth yn sgil dyfodiad gweithio'n rhithiol a bydd rhai teuluoedd yn parhau i ddewis ymgysylltu gyda'n gwasanaethau fel hyn i'r dyfodol. Rydym hefyd wedi gweld y Cyfnod Clo yn fanteisiol i nifer o'n teuluoedd wrth iddynt bellhau o bwysau bywyd a chael yr amser i ganolbwyntio ar eu perthnasau.

Mae'r argyfwng wedi golygu bod nifer o asiantaethau allanol wedi adleoli staff neu gymryd penderfyniadau i warchod lles staff drwy atal eu cyswllt wyneb yn wyneb gyda phlant a theuluoedd. Mae hyn wedi arwain at lai o blant a theuluoedd yn cael eu hadnabod a'u cyfeirio atom am gymorth; llai o gyswllt rhwng asiantaethau eraill gyda phlant a theuluoedd ac wedi golygu mai gweithwyr yr adran ar adegau oedd yr unig weithwyr mewn

cyswllt gyda theuluoedd bregus yn darparu cynhaliaeth a chefnogaeth.

Gan dderbyn fod partneriaid, fel y gwnaethom ninnau, wedi bod drwy gyfnod o newid a heriau newydd, mae parodrwydd rhai i gamu yn ôl wedi ein gwneud ni'n bryderus o berchnogaeth pawb i sicrhau diogelu plant. Nododd Arolygiaeth Gofal Cymru ein bod wedi gweithredu fel asiantaeth unigol yn y maes diogelu am gyfnodau yn ystod y flwyddyn. Er hynny rydym wedi parhau i gynnal safonau uchel wrth ymateb i gyfeiriadau, a all fod yn rhai diogelu, neu rhai ag angen gofal a chefnogaeth.

Rydym wedi parhau i gynnig cefnogaeth gynnar i deuluoedd pan fo anghenion yn amlygu. O ddarparu cyngor a gwybodaeth drwy ein Hwb Teuluoedd, i ddarparu cefnogaeth uniongyrchol ar gyfer materion megis sgiliau rhiantu, ymddygiadau heriol plant, gwrthdaro mewn teuluoedd ac oediad mewn datblygiad plant. Pan fo teulu angen cefnogaeth i ddelio gyda nifer o faterion mae ein Tîm o Amgylch y Teulu yn cydlynu cefnogaeth iddynt, a derbyniodd 61 o deuluoedd gefnogaeth gan Gydlynnydd yn ystod 2020/21. Rydym wedi uchafu ac addasu ein rhaglenni presennol megis Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, a'r Cynnig Chwarae a Gofal Plant a sefydlu rhaglenni newydd megis y Rhaglen Datblygiad Plentyn i gynnal ein gwasanaethau ataliol.

Fel rhan o'u gwaith dydd i ddydd mae'r Timau Gwaith Cymdeithasol yn cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth amserol i blant a'u teuluoedd ac yn tynnu ar ymyrraethau mwy arbenigol os yw'n briodol.

Mae'r Tîm Trobwynt yn gweithio'n ddwys gyda phlant a theuluoedd bregus, a phlant ar fin mynd i ofal. Maent yn gallu cefnogi teuluoedd gyda materion megis rhiantu, cwnsela, cam-ddefnyddio sylweddau, cyfarfodydd er mwyn tynnu aelodau'r teulu

estynedig i mewn, cymedroli, therapi teuluol, a chefnogaeth ymdopi gyda phrofiadau plentyndod negyddol (ACE'S). Rydym yn parhau i ddatblygu'r gefnogaeth arbenigol yma yn ddibynnol ar anghenion ac adborth teuluoedd.

Un prosiect arbenigol o'r fath yw Adlewyrchu sy'n cynnig cefnogaeth i rieni sydd â phlant yn y system gofal yn barhaol. Yn ystod 2020/21, rhoddwyd cefnogaeth i 9 rhiant. Ar gyfartaledd mae'r merched yn adrodd cynnydd mewn 7 allan o 10 o'u canlyniadau personol. Mae hyn yn cynnwys gwell cymhelliant, cymryd cyfrifoldeb a sgiliau bywyd.

Rydym hefyd wedi sefydlu Tîm Emrallt gyda'r nod o geisio lleihau nifer yr achosion o ymddygiad rhywiol niweidiol sy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau statudol yn dilyn digwyddiad o gam-drin drwy nifer o ymyrraethau amserol a phriodol. Er mwyn gwireddu ein nod, rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn digwyddiadau codi ymwybyddiaeth a mynediad i becynnau hyfforddi ataliol ac arbenigol gan Brook, yr NSPCC ac AIM.

Mae llwyddiant cydweithio rhwng y teuluoedd a'n gwasanaethau yn golygu bod nifer o blant wedi gallu aros adref gyda'u teuluoedd, rhai wedi gallu dychwelyd yn ôl adref o ofal maeth a gofal preswyl, ynghyd â sicrhau bod lleoliadau maeth bregus wedi'u sefydlogi yn sylweddol.

Ar ddiwedd Mawrth 2021 roedd 281 o blant yng ngofal y Cyngor, ac roedd 71% o'r rhain yn derbyn gofal mewn lleoliad maeth, gyda 35% o ofalwyr maeth yn deulu neu ffrindiau ac 18% o blant mewn gofal wedi eu lleoli gyda'u rhieni, ac felly'n parhau gartref.

O gymharu'r nifer plant mewn gofal dros y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd graddol o 194 (yn 2015/16) i 291 (yn 2019/20); eleni

(2020/21) rydym wedi gweld peth gostyngiad am y tro cyntaf i 281. Gall y gostyngiad hwn fod yn dechrau dangos fod ein strategaeth i gadw teuluoedd gyda'i gilydd yn cael effaith, ac felly mae'r strategaeth hon yn flaenoriaeth i'r adran ar gyfer 2021/22, er mwyn parhau gyda'r nod o leihau niferoedd plant sy'n dod i ofal.

Mae plant a phobl ifanc yn dod i'n gofal o dan amgylchiadau anodd iawn ond rydym yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun. Mae gennym Swyddogion Adolygu Annibynnol sydd yn monitro cynlluniau gofal pob un plentyn a pherson ifanc sydd yn ein gofal, ac maent yn rhoi sicrwydd i ni fel Cyngor bod buddiannau'r plentyn yn cael eu sicrhau drwy gydol eu hamser mewn gofal. Yn ystod 2020/21, cynhaliwyd adolygiadau cynlluniau gofal a chynadleddau amddiffyn plant yn rhithiol. Mae hyn wedi creu heriau ond hefyd wedi arwain at gyfleoedd newydd i gysylltu â phlant a'u teuluoedd. Er cyfyngiadau'r pandemig wrth gynnal adolygiadau a gwaith dydd i ddydd, mae ein swyddogion wedi parhau i lwyddo i gynnal a datblygu ein perthynas gyda phlant a'u teuluoedd. Canmolodd Arolygiaeth Gofal Cymru ein gwaith yn y maes hwn yn dilyn eu harchwiliad.

Rhan allweddol o'r gwasanaeth i blant yw'n gallu fel Cyngor i leoli plant gyda rhieni maeth. Rydym yn hynod falch o'n rhieni maeth fel Cyngor ac mae'r Tîm Maethu yn parhau i sicrhau fod gennym ddigon o rieni maeth i ddiwallu anghenion plant sydd yn methu byw gartref. Arweiniodd ein hymgyrch rithiol eleni i recriwtio mwy o ofalwyr ac 16 ymholiad. Gwnaethom hefyd eleni sefydlu llinell gymorth i ofalwyr maeth i'w cefnogi drwy'r flwyddyn heriol hon.

Mae gwaith yr Uned Ddiogelu a Sicrwydd Ansawdd yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod ein trefniadau diogelu yn gadarn. Yn ystod

2020/21 cynhaliwyd 389 o 'gynadleddau' amddiffyn plant. Roedd canran y cynadleddau achos lle ystyriwyd fod yr asesiadau risg o safon uchel yn 97% ac yn gyson â'r blynyddoedd diweddar. Mae'r perfformiad cyson uchel yma'n dangos effaith ein buddsoddiad mewn ymarfer i sicrhau penderfyniadau da sy'n gwarchod hawliau plant a'u teuluoedd. Mae'r gwaith yma'n parhau'n flaenoriaeth trwy'r gwaith arloesol ar Amddiffyn Plant yn Effeithiol.

Yn ôl ein Swyddogion Adolygu Annibynnol mae 97% o adolygiadau yn uchelgeisiol dros y plant sydd mewn gofal



Mae clywed a gwrando ar lais y plentyn wedi parhau yn flaenoriaeth i ni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Panel Rhiant Corfforaethol wedi bod yn gweithio ar gryfhau'r elfen yma o'i waith fel ei fod yn cadw cyswllt agos gyda'r hyn sy'n bwysig i blant sydd yn ein gofal.

Yn anffodus, yn ystod 2020/21 mae rhai blaenoriaethau oedd gennym wedi lithro rhywfaint neu wedi eu rhoi i'r neilltu am y tro er mwyn rhoi ffocws ar gynnal a darparu ein gwasanaethau hanfodol.

Bu raid oedi sawl elfen o Raglen Trawsffurfio Plant Gogledd Cymru a oedd gyda'r bwriad o dreialu dulliau newydd o weithio ac ymyrraethau newydd er mwyn gwella a newid gwasanaethau. Nid oedd yn bosibl i ni symud ymlaen gyda chynllun ar y cyd gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion i adnabod ffyrdd gwahanol o weithio gyda phlant a rhieni oddi fewn i deuluoedd sy'n dod i gyswllt gyda'n hadran. Bu i ni hefyd fethu a sefydlu Tîm Isranbarthol Aml-ddisgyblaethol fyddai'n darparu cefnogaeth ddwys, tymor byr i deuluoedd ag anghenion dwys a chymhleth.

Nod y peilot oedd ymateb i'r newid ym mhroffil poblogaeth plant mewn gofal, cynnydd yng nghyfartaledd cost lleoliadau preswyl, a diffyg argaeledd lleoliadau arbenigol i gwrdd ag anghenion cymhleth a dwys. Gan fod diwallu anghenion dwys a chymhleth mewn teuluoedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac yn risg i ni, byddwn yn ail-gydio yn y flaenoriaeth hon ar gyfer 2021/22.

Rydym hefyd mewn gwell sefyllfa erbyn hyn i allu symud ymlaen gyda gwireddu casgliadau'r adolygiad o wasanaethau i blant gydag awtistiaeth. Byddwn yn 2021/22 yn sefydlu Cynllun Awtistiaeth yng Ngwynedd ar y cyd gyda'n partneriaid.

Rydym yn ffodus iawn o'n gweithlu eto eleni. Bu'n orfodol i ni yn ystod y flwyddyn heriol hon ddargyfeirio staff i ymateb i fylchau staffio mewn timau er mwyn cynnal ac addasu'n gwasanaethau'n ddiogel er mwyn diogelu a chefnogi plant a'u teuluoedd. Dengys parodrwydd a hyblygrwydd ein gweithwyr i ymateb i'r anghenion staffio hyn eu hymroddiad parhaus i'r gwasanaeth ac i deuluoedd bregus Gwynedd. Fodd bynnag bydd recriwtio, datblygu'r gweithlu a chynnal a chefnogi gweithwyr yn flaenoriaeth i ni yn y flwyddyn nesaf i ymateb i'r heriau staffio ac anghenion ein gweithwyr.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**

Adran Economi a Chymuned

Yn ogystal â'r gwaith mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.


Datblygu Economi Gwynedd

Fe wnaeth Covid-19 greu argyfwng economaidd yn 2020 sydd yn parhau hyd heddiw. Ar yr un pryd, mae gadael yr Undeb Ewropeaidd wedi creu heriau i nifer fawr o fusnesau ac mae'r gwasanaeth wedi ceisio cynghori busnesau Gwynedd gyda threfniadau masnachu a marchnadoedd newydd. Cyn hyn, roedd economi Gwynedd wedi bod yn perfformio yn gymharol dda ar lefel Cymru ond ddim o'i gymharu â rhanbarthau eraill o Brydain ac Ewrop. Mae lefelau cyflog yng Ngwynedd wedi bod yn llawer is na rhannau eraill o Gymru a gwerth cynhyrchiant busnesau yn isel o'i gymharu ag ardaloedd eraill. Fe wnaeth Cyngor Gwynedd gymryd camau rhagweithiol yn 2020/21 i geisio achub a chynnal busnesau lleol, cefnogi trigolion lleol sydd wedi colli eu gwaith a chreu'r amodau fydd yn galluogi busnesau i adfer ac i dyfu yn y dyfodol.

Rydym wedi newid ein blaenoriaethau ac ailgyfeirio ein hymdrech i ymateb i'r argyfwng gan ddwyn timau newydd ynghyd ar draws yr adran a chydweithio'n agos â rhannau eraill o'r Cyngor.

Yn ystod 2020/21 derbyniodd 1,550 o fusnesau gymorth gan yr adran, 520% o gynnydd o'i gymharu â 2019/20.

Nifer busnesau'n derbyn cymorth



Ar ei anterth, roedd yr adran yn ymateb i hyd at 500 o ymholiadau'r wythnos gan fusnesau lleol o ganlyniad i Covid-19.

Yn ogystal â dosbarthu cymorth ariannol mae'r adran wedi gweithio'n galed yn ystod y flwyddyn i sicrhau fod gan fusnesau lleol yr wybodaeth orau am ganllawiau a chyngor masnachu yn sgil Brexit a Covid-19, i'w galluogi i gadw ar y blaen a chadw eu staff a'u cwsmeriaid yn saff. Sefydlwyd tudalen arbennig ar wefan y Cyngor ynghyd â chylchlythyr sydd bellach yn cael ei dderbyn gan dros 4,370 o fusnesau lleol o leiaf ddwywaith yr wythnos. Mae adborth busnesau i'r bwletinâu hyn wedi bod yn hynod o gadarnhaol.

Er gwaetha'r pandemig, mae'r galw gan fusnesau am fwy o dir ac eiddo addas wedi parhau. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo cyllideb o £2 filiwn er mwyn ymateb i'r galw hwn ac mae gwaith i baratoi cynlluniau wedi cychwyn.

Mae'r gwaith o baratoi Fframwaith Adfywio Gwynedd hefyd wedi cychwyn yn 2020 a bydd 13 cynllun ardal yn cael eu paratoi yn 2021/22 i adnabod blaenoriaeth lleol i'r dyfodol. Mae rhaglenni adfywio canol tref Llywodraeth Cymru wedi parhau dros y flwyddyn ddiwethaf gyda phwysigrwydd

adfywio'r stryd fawr wedi cynyddu. Datblygwyd amrediad o gynlluniau yng nghanol dinas Bangor sydd yn cyfrannu at wella hyfywdra y stryd fawr gan gynnwys cynlluniau i adfer 9 eiddo gwag.

Yn sgil Covid-19 mae'r adran wedi adolygu trefniadau adfywio ac wedi sefydlu pwyntiau cyswllt i 20 tref neu gyrchfan o fewn y sir er mwyn rhannu gwybodaeth yn effeithiol gyda Aelodau Lleol a'r sector fusnes. Mae'r trefniadau hyn wedi bod yn allweddol ar gyfer rhannu gwybodaeth am gefnogaeth a mesurau ail agor yn ddiogel. Bu'r adran yn llwyddiannus mewn ceisiadau am gefnogaeth ariannol i greu gwelliannau i'r trefi hyn ynghyd â chefnogi 59 o fusnesau i addasu eu ffordd o weithio mewn ymateb i'r cyfyngiadau.

Mae'r diwydiant twristiaeth yn gyflogwr allweddol yng Ngwynedd. Gyda gwerth economaidd o dros £1.3biliwn, mae dros 18,000 o bobl yn gweithio yn y maes. Dyma un o'r sectorau sydd wedi derbyn yr ergyd fwyaf yn sgil Covid-19 oherwydd y cyfyngiadau ar fusnesau i adfer yn ddiogel. Yn ystod 2020/21 rhoddwyd pwyslais ar ddarparu gwybodaeth i'r sector ymweld i'w galluogi i ymateb i'r argyfwng. Rhannwyd negeseuon cyrchfan cyfrifol ac ymweld ar wefan Eryri Mynyddoedd a Môr yn ddiogel gyda dros 576,000 o ymweliadau â'r wefan. Gan fod yr economi ymweld wedi bod ar gau am gyfnod sylweddol o'r flwyddyn mae'r ffigwr yn is na'r flwyddyn flaenorol (944,000). Bu i 67,900 ymgysylltu drwy ein cyfrifon cymdeithasol. Cwblhawyd adolygiad o flaenoriaethau twristiaeth yr ardal fydd yn sail i egwyddorion economi ymweld cynaliadwy ar gyfer y cyfnod hyd at 2030.

Yn ystod 2020/21 gwelwyd ymwelwyr newydd yn dod i Wynedd, a nifer helaeth ohonynt heb arfer ag ardaloedd gwledig neu arfordirol ym Mhrydain a gwelwyd problemau yn sgil hynny. Er i'r adran ymateb e.e. trwy gyflogi swyddogion diogelwch ar gyfer

lleoliadau penodol, nid oedd yn bosib ymateb ymhob achos oherwydd diffyg adnoddau a maint y galw.

Mae'r adran yn rheoli 301km o arfordir Gwynedd gan ganolbwyntio ar 8 o draethau Baner Las, nifer o draethau trefol a gwledig eraill, 4 harbwr a 2 marina. Mae sylw wedi ei roi yn ystod y flwyddyn i adolygu trefniadau rheoli'r Hafan a harbwr Pwllheli i'r dyfodol a rhaglennu gwaith carthu manwl yn Harbwr Pwllheli gan hefyd edrych ar opsiynau cynaliadwy at y dyfodol.

Cefnogi Cymunedau Cryf ac Iach

Mae'r Gwasaneth Cefnogi Cymunedau wedi parhau i gefnogi grwpiau gwirfoddol yn ystod y flwyddyn 2020/21, yn ogystal â chefnogi grwpiau newydd sydd wedi ffurfio er mwyn cynnig cefnogaeth i unigolion bregus yn y cymunedau. Mae'r cyfnod wedi bod yn heriol i grwpiau cymunedol ac mae'r gwasanaeth wedi bod yn cynorthwyo i oresgyn rhai o'r heriau sy'n eu wynebu. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn rhan o'r gwaith o gydlynu grwpiau canol trefi er mwyn adnabod ac ymgynghori ar fesurau Covid-19.

Mae Cronfa Cefnogi Cymunedau wedi ariannu 21 o brosiectau eleni gan ddenu £206,000 o arian i'r sir. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi dyrannu £25,000 o arian i gefnogi'r ymgyrch wirfoddol Covid-19 ar ran Magnox.

Gan ddilyn gorchmynion diogelwch y Llywodraeth, roedd llyfrgelloedd y sir ar gau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Yn ystod y cyfnod hwn, gwelwyd fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru yn y cynnig digidol cenedlaethol, a gwelwyd twf sylweddol ym menthyciadau e-lyfrau, e-lyfrau llafar ac e-gylchgronau a sicrhawyd mynediad o'r cartref i wefan ancestry i ddefnyddwyr. Buddsoddodd Llyfrgelloedd Gwynedd hefyd mewn gwasanaeth digidol lle gall

defnyddwyr gael mynediad i bapurau newydd cenedlaethol a rhyngwladol am ddim ar-lein. Nid yw ffigyrau defnydd e-adnoddau ar gael ar hyn o bryd.

Gyda chyfyngiadau yn cael eu codi, agorwyd rhai o brif lyfrgelloedd y sir yn ystod mis Gorffennaf 2020, gyda'r holl lyfrgelloedd ar agor erbyn mis Medi ar gyfer clicio a chasglu a gwasanaeth cludo yn unig. Adferwyd hefyd y gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref (Caeth i'r Tŷ) a gwelwyd sefydlu trefn hollol newydd lle'r oedd defnyddwyr llyfrgell yn gallu cysylltu i archebu llyfrau unai trwy ffôn, e-bost neu ar-lein, gydag opsiwn i gasglu'u pecyn o'u llyfrgell neu gael eu pecyn llyfrau wedi'i ddanfôn i'w cartref. Roedd nifer yn dewis yr opsiwn hwn am resymau gwahanol, ac roedd yn opsiwn hanfodol ar gyfer y sawl oedd yn gwarchod neu'n fregus eu hiechyd.

Yn ystod y cyfnod 2020/21 benthyciwyd 77,641 o eitemau (sydd yn 18% o'r ffigwr blynyddol arferol) gydag oddeutu 2,000 o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth yn fisol (o'i gymharu â 7,000 y mis mewn blwyddyn arferol). Yn ystod y naw mis rhwng Gorffennaf-Mawrth, cludwyd 2,385 pecyn i'r cartref, sef 265 pecyn y mis ar gyfartaledd, a llwyddwyd hefyd i gynnig nwyddau mislif am ddim trwy'r cynllun grant Trechu Tlodi, lle gwelwyd dros 500 o archebion yn ein cyrraedd, a'r stoc yn rhedeg allan o fewn dyddiau.

Dechreuwyd gynnig amseroedd stori ar-lein i deuluoedd ar ddechrau Ionawr 2021. Yn ystod y cyfnod hwn cynhaliwyd 24 sesiwn byw ar-lein gyda 179 o blant ac oedolion yn mynychu.

Buom yn cydweithio gyda'r Rhwydwaith Cyfuno ar gomisiwn i ddarparu pecynnau llyfrau ar gyfer y Cynllun Darllen Teulu. Crëwyd a rhannwyd 135 o becynnau gyda theuluoedd plant y Cyfnod Sylfaen yn yr ardaloedd darged.

Cydweithwyd hefyd gydag Arloesi Gwynedd

Wledig a chynlluniau'r Economi Gylchol yng Nghymru i sicrhau nawdd i sefydlu 'Llyfrgell y Pethau' mewn 3 lleoliad yng Ngwynedd.

Cefnogodd rhai o staff y Gwasanaeth Llyfrgell y Tim Covid-19 Galwadau Cymunedol hefyd yn ystod y cyfnod cyntaf.

Bu Neuadd Dwyfor ar gau yn ystod 2020/21, a hynny oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Fodd bynnag, cychwynwyd gwaith adeiladu'r prosiect gwella yn ystod mis Tachwedd yn dilyn cais buddsoddiad cyfalaf llwyddiannus i'r Cyngor a dechreuwyd ar y gwaith o gynllunio model newydd o weithio, mewn trafodaethau gyda'r tîm Llyfrgell a'r tîm Theatr/Sinema, a fyddai'n gweld y ddau dîm yn darparu un gwasanaeth i gwsmeriaid Neuadd Dwyfor. Sefydlwyd Tîm Defnyddwyr yn gefn i'r prosiect hwn yn ogystal. Llwyddwyd i ddenu £125,000 gan Lywodraeth Cymru i'r prosiect ail-ddatblygu.

Mae'r Cyngor yn parhau i gynnal amgueddfeydd, orielau ac archifau yng Ngwynedd. Yn 2020/21 trefnodd yr amgueddfeydd a'r orielau weithgareddau cymunedol ac addysgol. Darparwyd 10 pecyn dysgu newydd ar lein. Anfonwyd 120 o becynnau celf allan i'r gymuned. Cefnogwyd 6 ysgol a 55 o deuluoedd gan gynllun Llofnod Dysgu Teulu o Adref. Sicrhawyd bod y casgliadau yn ddiogel yn y Cyfnod Clo, a phan agorodd Storiell yn ystod Hydref/Tachwedd roedd 73% o'r ymwelwyr o Wynedd.

Cefnogwyd plant a phobl Gwynedd gan 27 o brosiectau Celfyddydau Cymunedol. Un enghraifft oedd "Llesiant i Mi" lle gwelodd 83% gynnydd yn eu llesiant. Derbyniodd 23 sefydliad/artist grant a threfnwyd cynhadledd Dal i Fynd i'r sector. Gwylodd 5,000 gyngherddau byw gan gerddorion o Wynedd ar Facebook. Dosbarthwyd dros 1,000 o becynnau prysur i blant a theuluoedd y sir drwy fanciau bwyd a phartneriaid eraill.

Mae llyfr lloffion o holl weithgaredd Celfyddydau Cymunedol ar gael [yma](#). Cynhaliwyd gynhadledd lwyddiannus dros Zoom i amlygu sut roedd y celfyddydau wedi newid, arbrofi a llwyddo i gynnal gweithgareddau a chefnogi cymunedau, unigolion a llesiant pobl Gwynedd yn ystod y Cyfnod Clo.

Bu'r Archifdai ar gau am rhan helaeth o'r flwyddyn, ond llwyddwyd i agor i nifer cyfyngedig am gyfnod o 13 wythnos. Yn ystod yr wythnosau hynny ymwelodd 191 gan weld 2,558 o ddogfennau. Yn ystod y flwyddyn ymatebodd y Gwasanaeth i 2,174 o ymholiadau, defnyddiodd 23,339 ein catalogau ar-lein, ac aethpwyd ati yn ystod y Cyfnod Clo i ddarparu 143 o gasgliadau i'w hychwanegu i'r catalogau ar-lein. Nid oedd modd i'r Swyddog Addysg ymweld â'r ysgolion ond crewyd 42 o becynnau unigryw o adnoddau i ysgolion amrywiol.

Mae'r adran yn gyfrifol am rwydwaith o 12 o Ganolfannau Byw'n lach ar draws Gwynedd. Ers 2019 mae'r canolfannau hyn yn cael eu rheoli drwy gytundeb gyda Chwmni Byw'n lach Cyf. Mae'r canolfannau wedi bod ar gau am gyfnodau helaeth yn 2020/21 oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Pan lwyddwyd i agor y drysau yn mis Medi 2020, bu i 91% o ddefnyddwyr adrodd eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda gwasanaeth Byw'n lach. Mewn ymateb i Covid-19 fe wnaeth Cwmni Byw'n lach gychwyn gwasanaeth ymarfer rhithiol a chynhaliwyd 818 o sesiynau ffitrwydd rhithiol dros y cyfnod.

Er gwaethaf bod nifer o swyddogion y Tim Chwaraeon wedi bod yn gweithio ar y cynllun Profi, Olrhain a Diogelu (TTP) am ran helaeth o'r flwyddyn, llwyddwyd i barhau i gynnig cyfleoedd cyfranogi cynhwysol mewn gweithgareddau chwaraeon a chorfforol. Roedd rhan helaeth o'r sesiynau hyn yn rhithiol, ond pan oedd yn bosibl bu i'r tîm barhau i ymweld ag ysgolion a chynnig

sesiynau gwella ffitrwydd – tu allan – ynghyd â nifer o gyrsiau a chystadlaethau gwahanol. Bu i'r tîm hefyd hyrwyddo a chynnig cefnogaeth i glybiau chwaraeon Gwynedd gwblhau ceisiadau am grantiau amrywiol gan Chwaraeon Cymru oedd yn cynnig cymorth ariannol yn sgil Covid-19.

Mae'r adran yn gyfrifol am ddau Barc Gwledig - Parc Glynllifon a Pharc Padarn. Yn ystod 2020/21 bu raid i'r ddau barc gau i ymwelwyr yn ystod cyfnodau clo a hynny oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Mae'r Ysbyty Chwarel wedi bod ar gau i'r cyhoedd drwy'r flwyddyn a hynny oherwydd newidiadau tu mewn i'r adeilad sy'n cynnwys mesurau i sicrhau diogelwch y wardeiniaid.

Yn ystod y flwyddyn 2020/21 fe fu Glynllifon yn llwyddiannus yn eu cais am arian Cynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ac mae'r gwaith o adfer rhai strwythurau hanesyddol a gwella diogelwch y Parc wedi cychwyn. Ym Mharc Padarn hefyd y flaenoriaeth oedd sicrhau diogelwch y cyhoedd a phenodwyd penseiri cadwraeth i archwilio strwythurau'r safle a rhoi mesurau diogelwch newydd yn eu lle.

Blaenoriaethau Lleol – Cynllun y Cyngor

Un o'r blaenoriaethau lleol a nodwyd yng Nghynllun y Cyngor ydi'r dyhead i ddenu mwy o swyddi tymor hir sy'n talu cyflog da. Bu i Aelodau yn ardal Porthmadog, Ffestiniog a Phenllyn nodi hyn fel blaenoriaeth uchel i'w hardaloedd. Mae'r prosiect Creu Swyddi Gwerth Uchel wedi ei sefydlu er mwyn ymateb i'r broblem ac mae'n canolbwyntio ar gyfleoedd fydd yn dod â budd i'r cymunedau hyn (gweler Rhan 1 o'r adroddiad hwn).

Mae gwella cysylltedd gwael ffonau symudol a band eang yn ardal Dolgellau yn un arall o'n blaenoriaethau lleol, ac rydym yn ceisio sicrhau blaenoriaeth i'r sir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau yn y maes drwy

ddilyn egwyddorion Gwynedd Ddigidol ynghyd â gweithio'n frwdfrydig gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd ac Arloesi Gwynedd Wledig i gwrdd â'r angen.

Yn sgil pryderon ynglŷn â dyfodol y Ganolfan Gymunedol yn Ffestiniog mae'r tîm adfywio wedi cynnal arolwg diweddar ar adeiladau cyhoeddus ar hyd a lled Gwynedd. Dangosodd yr arolwg fod defnydd aneffeithiol yn cael ei wneud o nifer o adeiladau cyhoeddus ym Mlaenau Ffestiniog gan gynnwys y Ganolfan Gymunedol, sy'n adnabod cyfle i rannu adnoddau yn well i'r dyfodol.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir

Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn wahanol iawn i ni gyd ac wedi ein profi i'r eithaf. Gallwn fod yn falch fodd bynnag o'r hyn sydd wedi'i gyflawni mewn amgylchiadau newydd ac heriol ac mae'r adran wedi llwyddo i sicrhau parhad ein gwasanaethau tra'n cydymffurfio â gofynion yr argyfwng.

Gwastraff ac Ailgylchu

Mae'n bwysig iawn i bobl Gwynedd bod eu gwastraff yn cael ei gasglu ar yr amser rydym wedi addo ei gasglu. Yn ystod 2020/21 cyflawnwyd tua 4,556,708 o gasgliadau gwastraff. O'r rhain, cafwyd 10,417 o gwynion am fethiant casglu (sydd yn gyfystyr â 0.002%). Roedd rhai o'r methiannau hyn oherwydd materion yn codi mewn perthynas â'r cyfnod argyfwng, ond roedd canran uchel yn parhau oherwydd rhesymau tebyg i'r arfer megis effeithiau tywydd garw neu ddiffygion ar ein rhan ni. Er ein bod wedi gwella profiadau pobl Gwynedd o'r gwasanaeth gan leihau achosion o gasgliadau wedi ei methu a gwella, rydym bellach wedi adolygu ein harferion gwaith ac rydym wrthi'n newid trefniadau'r cylchdeithiau casglu gwastraff. Rydym eisoes wedi cwblhau'r drefn yn ardal Arfon a Dwyfor. Oherwydd cyfyngiadau Covid-19 nid oedd yn bosib cwblhau'r gwaith yn ardal Meirionnydd fel y bwriadwyd yn 2020/21 ond mae'r drefn wedi'i gyflwyno bellach ac mae'r arwyddion cynnar yn galonogol.

Mewn ymateb i gwynion am flerwch a sbwriel yn cael ei ollwng neu ei golli o gerbydau casglu sbwriel ac ailgylchu, mae'r newidiadau patrwm gwaith yn gam ymlaen. Mae effaith positif iawn wedi'i weld ers cyflwyno ein cerbydau casglu newydd gyda llai o ddeunyddiau yn cael eu colli.

Yn ystod 2021/2022 byddwn yn parhau i ymateb i bryderon ein trigolion gan adeiladu a gwella ar ein trefniadau ymateb a chwynion.

Mae'n hanfodol ymdrin â gwastraff mewn modd cywir os am amddiffyn ein hamgylchedd ac osgoi creu problemau i'n plant a phlant ein plant. Mae economi sy'n hybu aildddefnyddio ac ailgylchu gan leihau gwastraff (a elwir yn Economi Gylchog) yn hanfodol wrth i ni weithio tuag at y nod yma. Rydym yn gweithio er mwyn hyrwyddo'r economi gylchog yng Ngwynedd ac yn sicrhau bod cynlluniau ail ddefnyddio ac atgyweirio yn dod yn fwy o ran o'n gwaith dydd i ddydd. Byddwn hefyd yn trefnu ymgyrchoedd er mwyn cyfarch y gwaith pwysig hwn a dyhead y sir i hybu ail-dddefnyddio. Trwy wneud hyn gallwn sicrhau bod deunyddiau'n parhau i gael eu defnyddio ac osgoi gwastraff – bydd hyn yn cyfrannu at ein hagenda Cymru ddiwasttraff.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi llwyddo i ddenu gwerth **£1.4m** o arian grant yn y maes Economi Gylchol sydd wedi ein gweld yn cyflawni sawl prosiect cyffrous iawn megis:

- Prosiect Addasu Canolfan Ailgylchu Llandygai Bangor gan gynnwys sefydlu siop ail-dddefnyddio
- Prosiect addasu cyfarpar trin deunyddiau ailgylchu yn Caergylchu, Caernarfon
- Prosiect darpariaeth bwyd cymunedol
- Prosiect Warws Werdd ar y cyd gydag Antur Waunfawr
- Prosiect caffi trwsio
- Prosiect ail-dddefnyddio/eitemau swmpus
- Gorffen dosbarthu'r Cartgylchu

Rydym yn falch o gofnodi ein bod wedi ailgylchu, aildddefnyddio neu gompostio 67% o wastraff cartrefi Gwynedd yn 2020/21. Mae hyn yn gynydd o 2.26% ers 2019/20. Roedd angen i ni gyrraedd targed statudol o fod yn ailgylchu 64% o wastraff y sir erbyn 2019/2020 ac ein targed statudol nesaf yw bod ar berfformiad o ailgylchu 70% o wastraff y sir erbyn diwedd Mawrth 2025.

Ailgylchu Gwynedd



Mae claddu gwastraff yn y ddaear yn achosi llygredd i'r tir, dŵr a'r awyr. Roeddem yn gobeithio cyrraedd y nod o anfon dim gwastraff i'w dirlenwi erbyn diwedd 2020/21 ac yn falch o gadarnhau, gyda safle llosgi gwastraff gweddilliol Parc Adfer yn llawn weithredol, nad oes dim gwastraff o'r sir yn cael ei waredu'n uniongyrchol drwy dirlenwi bellach.


Byddwn yn gweithio ar strategaeth wastraff newydd i'r sir. Bydd y strategaeth yn ystyried dulliau arloesol i annog aildddefnyddio a chynyddu ailgylchu er mwyn sicrhau y gallwn gyrraedd y targed statudol newydd o 70% yn cael ei ailgylchu erbyn 2025. Bydd hefyd yn cyd-fynd â strategaeth ddiweddaraf Llywodraeth Cymru.

GwyrAD

GwyrAD yw ein safle trin bwyd sydd wedi'i leoli yn y sir ac sy'n trin yr holl fwyd a gesglir gennym yn wythnosol gan drigolion a busnesau.

Gwelir yn y graff sy'n dilyn fod y tunelli o wastraff bwyd domestig sy'n cyrraedd y

safle wedi cynyddu'n ystod 2020/21 tra bod y tunelli o wastraff bwyd masnachol wedi gostwng yn sylweddol. Mae hyn yn dangos sgil effaith y pandemig ar ein casgliadau, ond wedi dweud hynny, rydym yn falch o nodi fod y cyfanswm o dunelli o wastraff bwyd sy'n cyrraedd y safle yn sefydlog er gwaetha'r argyfwng.



Oherwydd natur y gwaith wyneb i wyneb sydd ynghlwm ag ymdrechion i gynyddu casgliadau bwyd, prin iawn yw'r cyfleoedd wedi bod i gyflawni'r gwaith hwn yn ystod cyfnod yr argyfwng. Mae'r gwaith yma fodd bynnag yn parhau'n flaenoriaeth i'r Adran dros y cyfnod nesaf.

Gwasanaethau Gwastraff Masnachol

Rydym yn darparu casgliadau gwastraff ac ailgylchu masnachol i dros 2,000 o fusnesau'r sir ac yn y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld gwelliant yn y lefelau o wastraff masnachol sy'n cael ei ailgylchu neu gompostio. Yn 2020/21 roedd 49% o wastraff masnachol yn parhau i gael ei ailgylchu/gompostio. Mae'r flwyddyn diwethaf wedi gweld nifer o fusnesau ar gau o ganlyniad i'r argyfwng wrth gwrs ond mae'n flaenoriaeth gennym dros y cyfnod nesaf i annog ein cwsmeriaid masnachol i fanteisio ar y gwasanaeth ailgylchu ac ailgylchu bwyd.

Edrychiad Strydoedd a Thiroedd Cyhoeddus

Mae'r amgylchedd leol yn hynod bwysig ac elfen fawr o hyn yw gweld ein strydoedd a thiroedd yn lân, yn daclus ac yn ddiogel. Rydym yn defnyddio mesurydd o'r enw 'Mynegai Glendid' (sy'n gyfuniad o asesiad mewanol ac allanol) er mwyn asesu safon glendid ac edrychiad strydoedd. Yn 2019/20 roedd ein safon glendid yn 73% ond nid oedd modd casglu'r data yma eleni oherwydd cyfyngiadau'r argyfwng. Cadwch Gymru'n Daclus sydd fel arfer yn cynnal arolwg allanol i sefydlu faint o 'ddiffygion' sydd ar ein strydoedd (megis sbwriel, chwyn, baw cŵn, gwm cnoi a stympiau sigarêts) ond yn anffodus, ni chyflawnwyd y gwaith yma'n ystod 2020/21.

Bu pwysau sylweddol ar y gwasanaeth glanhau a gwasanaethu biniau wrth ail-agor dros haf 2020 gyda biniau stryd dan gryn bwysau o ganlyniad i lefelau uwch o ymwelwyr nac arfer. Bydd yr Adran yn ail-edrych ar ein trefniadau glanhau a gwasanaethau biniau ar gyfer ail-agor y tymor yn 2021. Mae'n bwysig i ni ddysgu o brofiadau'r llynedd wrth ail agor eleni. Byddwn hefyd yn gosod biniau ailgylchu ychwanegol ar y stryd fel rhan o gyfleon i drigolion ailgylchu wrth ymweld â chanol trefi.

Rydym wedi bod yn cydweithio ar brosiect *Delwedd Bangor*, sydd â'r nod o wella edrychiad amgylchedd y ddinas. Mae rhai o'r prosiectau yn cynnwys cael gwared ag arwyddion tai ar osod, cefnogi ymgyrch *Bangor di-blastig*, gwella edrychiad y Stryd Fawr a threialu hysbysu ar gylchfannau. Wrth i ni ystyried partneriaethau tebyg ledled y sir, gwelwyd fod angen edrych ar ein gweledigaeth ar gyfer cymunedau glân a thaclus yn ehangach, ac mae'r mater yma bellach wedi ei gynnwys fel prosiect blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2021/22.

Cynnal Tiroedd

Mae'r adran yn gyfrifol am gynnal ymylon ffyrdd a thiroedd agored er mwyn gwella ansawdd amgylchedd ein trefi a'n pentrefi a'u gwneud yn fwy diogel i drigolion.

Mae lleiniau tir yn gallu gwneud cyfraniad bositif i'n amgylchedd leol, nid yn unig o ran edrychiad, ond hefyd oherwydd ei botensial fel cynefin. Mae hybu bioamrywiaeth o fewn ein lleiniau tir bellach yn flaenoriaeth a rydym wedi addasu ein patrymau torri gwair ar hyd ffyrdd sirol er mwyn cefnogi'r nod hwn. Rydym hefyd wedi ymrwymo i leihau ein defnydd o chwynladdwr niweidiol.

Rydym wedi denu grantiau ar gyfer ein gwaith i hybu cynefinoedd naturiol, blodau gwyllt a bioamrywiaeth, fel y gwelir yn y tabl a ganlyn:

Prosiect	Disgrifiad
Mannau Gwyrdd Gwydn: Coridorau a Mannau Gwyrddach <i>Ffynhonnell ariannu: Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru (ENRaW)</i>	Ymgysylltu a chefnogi grwpiau a chynghorau cymunedol i fabwysiadu ymylon lleol fel rhan o fenter i helpu i amddiffyn, rheoli a chynyddu cynefinoedd cyfeillgar i beillwyr er mwyn sicrhau bod coridorau bywyd gwyllt yn cael eu cynyddu a'u cysylltu'n well.
Ffridd Rasys a Llwyn Isaf: Prosiect i sefydlu blodau gwyllt a choedwigoedd ar safleoedd tirlenwi <i>Ffynhonnell ariannu: Cronfa Her Partneriaeth Lleoedd Natur / Cynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur</i>	Sefydlu dolydd blodau gwyllt a choed / llwyni brodorol. Gwella bioamrywiaeth trwy reoli glaswelltir yn well. Rheoli hawliau tramwy yn well yn ogystal â mynediad mwy agored i dir a dŵr.

Prosiect	Disgrifiad
Lleoedd Lleol ar gyfer Natur <i>Ffynhonnell ariannu: Cynllun WCVA - Partneriaeth Natur Leol</i>	Pecyn o brosiectau sy'n cynnwys rheoli rhywogaethau ymledol, plannu coed brodorol, creu dolydd blodau gwyllt, plannu coed stryd a phlanhigion peillwyr. Bydd llawer o'r prosiectau'n cael eu cyflawni mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol.
Isadeiledd Gwyrdd Trefol - Bangor	Cynyddu'r isadeiledd gwyrdd trwy ddisodli arwynebau caled presennol mewn meysydd parcio gydag ardaloedd glaswelltrog, coed brodorol ac opsiynau draenio cynaliadwy.

Caeau Chwarae Plant

Rydym yn gwybod bod meysydd chwarae yn bwysig i blant, rhieni a gofalgwyr plant ond oherwydd bod offer chwarae'n ddrud ac arian yn hynod brin, mae eu cynnal mewn modd sy'n ddiogel i blant a phobl ifanc allu eu mwynhau yn heriol.

Rydym wedi llythyru â chynghorau cymuned am eu sylwadau cychwynnol i bartneriaethu a byddwn yn parhau gyda'r trafodaethau hyn yn ystod 2021/22. Byddwn hefyd yn cysylltu â grwpiau a phartneriaid eraill o fewn y gymuned byddai â diddordeb partneriaethu gyda'r gwasanaeth.

Gwasanaeth Profedigaeth

Er gwaethaf yr holl heriau ychwanegol a ddaeth gydag argyfwng Covid-19, rydym

yn falch iawn o adrodd ein bod wedi gallu parhau i gynnal ein gwasanaeth profedigaeth ar draws y sir drwy gydol 2020/21.

Toiledau Cyhoeddus

Mae cyfanswm o 73 o doiledau cyhoeddus yn y sir, 35 o doiledau cymunedol mewn lleoliadau fel caffis a thafarndai ac mae 17 o doiledau cyhoeddus yn eiddo i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae ein cynllun partneriaethu gyda'r cynghorau cymuned a thref yn sefydlog erbyn hyn a bu'r gwasanaeth yn hynod brysur wrth i'r sir ail-agor dros haf 2020. Roedd rhaid cyflwyno newidiadau er mwyn cyfarch gofynion yr argyfwng, gan gynnwys sicrhau bod arwyddion priodol yn eu lle ynghyd â threfniadau glanhau ychwanegol.

Teledu Cylch Cyfyng

Mae datblygiadau yn y dechnoleg teledu cylch cyfyng bellach yn eu lle ac yn ystod 2020/21 rydym wedi llwyddo i ehangu'r rhwydwaith o deledu cylch cyfyng yn ardaloedd Caernarfon a Bangor.

Mae'r gwasanaeth hefyd wedi cydweithio â Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn i gyflwyno bid i'r Heddlu er mwyn ymestyn y rhwydwaith i rannau pellach ym Mangor.

Gwasanaeth Fflyd

Mae'r gwasanaeth yma yn arwain, rheoli a rhoi cymorth i adrannau'r cyngor i sicrhau defnydd priodol, diogel a chyfreithlon o'n fflyd.

Rydym wedi bod yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru ar brosiect dad-garboneiddio fflyd ac yn disgwyl canlyniad yr adolygiad. Un elfen o waith ar y ddaear yw treialu cerbydau gwahanol a bu hyn ddigwydd yn ystod haf 2020. Roedd gennym gerbyd trydan casglu gwastraff mewn un ardal ac roedd y treial yn llwyddiannus a'r

cerbyd yn perfformio'n dda iawn, gan allu cario'r un math o dunelledd heb unrhyw broblemau o deithio yn yr ardal wledig. Byddwn yn treialu cerbydau pellach yn 2021/22 gyda'r bwriad o allu manteisio ar grantiau i newid ein fflyd. Rydym hefyd yn rhan o grŵp trafod hydrogen sydd yn edrych ar sefydlu hybiau yn y Gogledd.

Cynnal Priffyrdd

Mae'n bwysig bod trigolion, busnesau ac ymwelwyr i Wynedd yn medru symud yn rhwydd a diogel o fewn y sir. Er mwyn sicrhau hyn, rydym yn cynnal 2,697 cilomedr o Ffyrdd Sirol ynghyd â 199 cilomedr o Gefnffyrdd (sef priffyrdd o bwysigrwydd cenedlaethol, ar ran Llywodraeth Cymru).

Tra bod y cyflwr yn cadw'n eithaf sefydlog, yn hanesyddol mae cyflwr ffyrdd dosbarth C yn amlygu'r canran uchaf sydd angen sylw. Mae cryn bwysau ar ein cyllidebau i gadw safon ein ffyrdd mewn cyflwr da. Ni lwyddwyd i gyflawni'r rhaglen 'tar and chip' (wynebu ffyrdd) yn ystod 2020/21 oherwydd diffyg eglurder ar reoliadau gweithio'n agos yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Gall hyn arwain at ddirywiad pellach erbyn Gaeaf 2021 felly bydd adfer y sefyllfa'n flaenoriaeth i'r adran yn symud ymlaen.

Mae effeithiau newid hinsawdd yn fater i ni eu hystyried wrth i fwy o law, mwy o lifogydd a gaeafau caletach effeithio ar wyneb ein ffyrdd. Bydd yr adran yn parhau i fonitro ac ystyried y sefyllfa yma wrth flaenoriaethu rhaglen cynnal a chadw ffyrdd sirol.

Rydym yn y broses hefyd o adolygu ein Cynllun Cynnal Asedau Priffyrdd er mwyn adlewyrchu'r gofyn newydd o flaenoriaethu ar sail risg.

Cynnal a Chadw Pontydd a Strwythurau

Rydym yn cynnal a chadw pontydd a

strwythurau ar draws y sir. Mae hyn yn cynnwys cynnal archwiliadau statudol rheolaidd, delio â digwyddiadau wedi llifogydd sylweddol a gwaith cynnal cyffredinol.

Rydym yn cynnal a chadw 629 pont drwy'r sir. Mae 338 pont bwa a 96 pont wedi eu rhestru sydd â gofynion ychwanegol. Yn ogystal, mae gennym 1,618 o waliau cynnal drwy'r sir sydd hefyd yn cael eu cynnal a'u cadw gan yr Adran.

Cawsom gryn ddifrod i nifer o'n pontydd yn ystod stormydd a llifogydd gaeaf 2020 ac roedd rhaid trefnu gwaith brys i'w diogelu a'u trwsio.

Yn gyffrous iawn, mae cais cynllunio wedi'i gyflwyno erbyn hyn ar gyfer adeiladu Pont Newydd Bodfel ger Pwllheli. Hon fydd y bont bwa hiraf i ni ei hadeiladu o'r newydd a'n gobaiith yw dechrau'r gwaith yn ystod haf 2021.

Goleuo Stryd

Rydym yn parhau i drwsio goleuadau stryd yn brydlon, ac ar gyfartaledd mae'n cymryd dau ddiwrnod a hanner i'w trwsio – ffigwr sydd wedi bod yn eithaf cyson dros y blynyddoedd diwethaf.

Fel rhan o raglen "buddsoddi i arbed" y Cyngor mae gennym raglen sylweddol i newid goleuadau stryd i dechnoleg LED sydd wedi bod yn weithredol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ystod 2020/2021 newidiwyd 1,700 o unedau golau stryd ac arwyddion i LED sydd ychydig yn llai na'r hyn yr oeddem wedi'i raglennu. Ers 2015/16, rydym wedi newid dros 14,300 o oleuadau ac arwyddion stryd i dechnoleg LED. Mae'r tabl isod yn dangos y lleihad sydd wedi bod yn ein allyriadau carbon o ganlyniad i'r rhaglen hon. Rydym yn falch iawn o weld y budd amlwg o'r newidiadau hyn.

Blwyddyn	Tunelli o CO ₂
2014/15	3435
2015/16	3002
2016/17	2426
2017/18	1703
2018/19	1208
2019/20	959
2020/21	811

eu hadnabod fel risg uchel. Rhaid hefyd ystyried gwaith adfer ac ail-blannu gyda rhywogaethau addas fel rhan o'r her newid hinsawdd.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir

Clwy yr Onnen

Dros y flwyddyn rydym wedi cychwyn casglu data am y nifer coed sydd wedi eu heintio â'r clwyf ar draws y sir. Bu i'r gwaith yma gael ei gario allan rhwng misoedd Mehefin a Hydref tra'r oedd y coed mewn dail. Mae'r data a gasglwyd yn cyfleu maint y broblem ar draws rhai o asedau'r cyngor a'r risgiau mae'r coed sydd wedi eu heintio yn ei beri i ddefnyddwyr ffyrdd, ysgolion a thiroedd eraill y cyngor. Mae crynodeb o'r canlyniadau i'w gweld yma:

- archwiliwyd 14,968 o goed
- roedd 8,867 ar diroedd y cyngor neu ar ymylon priffyrdd
- adnabuwyd 5,276 yn y categori coch sef risg uchel

Rhaid cadw mewn cof mai'r cam cyntaf mewn rhaglen llawer mwy sydd wedi'i gyflawni ac mae'n debygol y bydd yn cymryd hyd at bum mlynedd i gael rheolaeth o'r sefyllfa. Byddwn yn parhau gyda'r archwiliadau gan weithredu rhaglen o waith torri/ymdrin coed sydd wedi

Adran Tai ac Eiddo

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaeth Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Sefydlwyd yr adran newydd hon ym mis Medi 2019 ac mae'r gwaith o uno'r Gwasanaeth Eiddo a'r Gwasanaeth Tai wedi mynd rhagddo'n llyfn. Mae strwythur newydd wedi ei gyflwyno yn y Gwasanaeth Tai er mwyn ein galluogi i roi sylw teitwng i'r heriau cynyddol yn y maes tai fforddiadwy i bobl Gwynedd ac i ymateb i'r argyfwng digartrefedd sy'n wynebu pob rhan o'r wlad erbyn hyn.

Effaith Covid-19 ar waith yr Adran

Yn ystod 2020/21, mae'r rhan fwyaf o staff wedi addasu i weithio gartref ac rydym wedi newid trefniadau a dulliau gweithio pan nad yw hynny'n bosib.

Mae rhai o'r unedau wedi cael eu heffeithio yn fawr yn sgil Covid-19, yn bennaf yr Uned Ddigartrefedd, sydd wedi gweld cynnydd sylweddol mewn unigolion a theuluoedd sy'n cyflwyno'n ddigartref ynghyd â'r gofyn statudol newydd i gynnig llety i unrhyw un sy'n ddigartref, beth bynnag bo'i hamgylchiadau. Yn ogystal, mae'r Tim Opsiynau Tai wedi gweld cynnydd sylweddol mewn ymholiadau a cheisiadau i gael mynd ar y gofrestr tai cymdeithasol.

Bu i'r Adran gyfrannu tuag at waith i ymateb i'r pandemig gyda staff yr Unedau Swyddfeydd a Glanhau yn sicrhau bod ein swyddfeydd yn ddiogel er mwyn galluogi rhai o'n staff i barhau i weithio yno os nad oedd yn bosib gweithio o gartref. Yr Adran oedd yn arwain ar yr ymdrech i ddosbarthu PPE i wasanaethau rheng flaen allweddol yn y dyddiau cynnar gan ymateb yn gyflym i sefyllfa o argyfwng ar y pryd.

Dargyfeiriwyd adnoddau staff i gynorthwyo'r Adran Amgylchedd gyda thrwyddedu er mwyn lletya gweithwyr allweddol a hwyluso'r ymdrech i sefydlu canolfannau brechu, Ysbyty Enfys, a chlinigau'r Bwrdd Iechyd mewn lleoliadau amgen dros dro. Bu i'r Adran hefyd arwain ar sefydlu partneriaeth gyda'r Cymdeithasau Tai er mwyn cynorthwyo i ddosbarthu pecynnau bwyd i drigolion mwyaf bregus Gwynedd.

Gwasanaeth Eiddo

Er mwyn ymateb i'r heriau sy'n codi o newid hinsawdd, a sicrhau fod cymunedau Gwynedd yn cael eu paratoi ar gyfer y dyfodol bu i'r Cyngor fabwysiadu **cynllun rheoli carbon** fis Mai 2010. Mae'r cynllun wedi bod yn fuddsoddiad sylweddol er mwyn gostwng allyriadau carbon gweithgareddau'r Cyngor, yn ogystal â chyfrannu tua'r amcan ehangach o Wynedd garbon isel.

Lleihad mewn allyriadau CO2 o weithgareddau'r Cyngor*



*ers mabwysiadu'r Cynllun Rheoli Carbon yn 2010

Mae natur cynlluniau o'r fath yn annatod yn cael eu mesur dros gyfnod hir, gyda gwahaniaethau bychan rhwng cyfnodau monitro yn cael effaith gronnu dros dymor ehangach. Mae hyn oll wedi arwain at arbedion ariannol blynyddol o £1.1m i'r Cyngor.

Mae'r ffaith bod rhan helaeth o staff yn gweithio o adref dros y flwyddyn ddiwethaf yn sgil Covid-19 yn debygol o fod wedi cyfrannu'n sylweddol at y lleihad mewn allyriadau carbon ein hadeiladau a hefyd wrth deithio. Mae'r Uned Cadwraeth Ynni yn cydnabod y bydd yr allyriadau yn debygol o gynyddu eleni os bydd mwy o ddefnydd o'n hadeiladau a chyfyngiadau Covid -19 yn llacio.

Mae'r cyfrifoldeb o sicrhau fod ein holl ysgolion, cartrefi gofal, canolfannau hamdden ayb yn ddiogel i'w defnyddio gan drigolion y sir yn gorwedd gyda'r **Uned Diogelwch Eiddo**. Er gwaethaf y rhwystrau dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r uned wedi gallu parhau i gynnal archwiliadau diogelwch yn ein hadeiladau, megis arolygon cyflwr asbestos ac adolygiadau risg tan. Maent hefyd wedi llwyddo i fuddsoddi i wella cyflwr ein hadeiladau gyda phrosiectau gwerth £4.3 miliwn yn cael eu gwireddu yn ystod y flwyddyn.

Cyn y cyfnod clo cyntaf, roedd yr **Uned Cynnal a Chadw** wedi llwyddo i leihau'r nifer o ddyddiau a gymerwyd i gwblhau pob darn gwaith yn gyson, ond gyda chyfyngiadau ar safleoedd a'r ffaith bod rhai o'r staff wedi eu dargyfeirio i weithio ar brosiectau eraill, fel y disgwyl, mae cynnydd wedi bod yn y cyfartaledd yma yn ystod 2020/21 i 8.3 diwrnod o gymharu â 6.8 diwrnod yn 2019/20. Er hynny, mae'r adborth a dderbynnir drwy ein harolygon boddhad cwsmer yn dangos bod 84% o'r cwsmeriaid a holwyd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth, gyda chanmoliaeth gyson i'r gweithlu cynnal a chadw mewnol. Bu modd ymestyn y tim hwnnw dros y flwyddyn a aeth heibio a bellach mae gennym drydanwyr

a swyddogion profi ansawdd dŵr wedi ei hychwanegu at y seiri, plymwyr a swyddogion gosod a thrwsio offer Teleofal.

Mae bodlonrwydd cwsmer y Tim Difa Pla wedi bod yn uchel iawn drwy'r gydol 2020/21 hefyd gyda chanmoliaeth fawr am waith prydlon ac effeithiol. Bu modd iddynt barhau i gynnig y gwasanaeth allweddol hwn hyd yn oed dros y cyfnodau clo. Rydym yn casglu adborth cwsmeriaid yn fisol a dros y flwyddyn ddiwethaf roedd 94% o'r cwsmeriaid a holwyd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan yr uned. Yn gyffredinol, materion gyda biliau a thalu am y gwasanaeth oedd y rheswm pam nad oedd cwsmeriaid yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth.

Mae ein **Huned Glanhau a Swyddfeydd** wedi bod yn brysur yn sicrhau bod ein swyddfeydd yn ddiogel i staff allweddol fedru parhau i'w mynychu. Maent wedi cyflwyno llu o drefniadau lechyd a Diogelwch newydd dros nos er mwyn sicrhau lles pawb sydd wedi gorfod parhau i fynd i'w gweithle.

Rydym hefyd wedi cychwyn mesur boddhad cwsmer ar gyfer defnyddwyr ein swyddfeydd a gyda'n cwsmeriaid glanhau gyda chanlyniadau positif hyd yma.

Mae ein **Huned Stadau** wedi gweld gwelliant sylweddol yn eu sgôr bodlonrwydd cwsmer dros y flwyddyn gyda 95% yn gwbl fodlon â'r gwasanaeth y maent wedi ei dderbyn ar gyfartaledd sydd yn welliant sylweddol ar yr 83% oedd yn gwbl fodlon â'r gwasanaeth y flwyddyn flaenorol. Mae'r uned hefyd wedi dod yn gyfrifol am unedau diwydiannol a chanolfannau menter y Cyngor bellach ac yn edrych ar effeithlonrwydd y ddarpariaeth ac eisoes wedi cyflawni arbedion heb effeithio ar ansawdd y gwasanaeth a gynigir i denantiaid.

Yn ystod 2020/21, mae'r **Tim Datblygu Eiddo** wedi llwyddo i barhau i yrru ein prosiectau cyfalaf yn eu blaenau, er gwaetha'r pandemig.

Ym mis Hydref 2020, agorwyd Ysgol y Garnedd Newydd - adeilad newydd ar gyfer 420 o ddisgyblion cynradd ym Mangor, ac mae gwaith o adeiladu estyniad ac adnewyddu Ysgol y Faenol yn mynd rhagddo yn ogystal. Mae'r Tîm yn brysur yn gweithio ar fwy na 30 o brosiectau adeiladu sy'n amrywio o ysgolion i gartrefi henoed i ddatblygiadau yn y maes tai, gyda 94% o'r rheini yn symud ymlaen o fewn yr amserlen ddisgwyliedig ar hyn o bryd.



Ysgol y Garnedd Newydd

Gwasanaeth Tai

Y brif her yn wynebu'r Gwasanaeth Tai yw ceisio cyfrannu tuag at gynyddu'r cyflenwad tai i bobl leol a'r opsiynau cartrefu sydd ar gael i bobl Gwynedd.

Yn 2019, mabwysiadodd y Cyngor ei Strategaeth Tai sy'n nodi'r weledigaeth o

“Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd”

Yn ystod y flwyddyn aeth heibio bu i Gynllun Gweithredu Tai y Cyngor gael ei fabwysiadu gan y Cyngor. Mae'r cynllun yn cadarnhau sut y byddwn yn sicrhau fod:


- Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un

- Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
- Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
- Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

Mae'n adnabod 33 o brosiectau penodol a fydd yn arwain at fuddsoddiad o £77M yn y maes tai yng Ngwynedd dros y 6 mlynedd nesaf.


Mae'r Cyngor yn defnyddio'r **Grant Tai Cymdeithasol** gan Lywodraeth Cymru i hwyluso gallu'r Cymdeithasau Tai i adeiladu mwy o dai i bobl leol. Mae ein cynllun Gweithredu Tai yn anelu i ddarparu 500 o dai cymdeithasol newydd ac felly byddwn yn gweld cynnydd sylweddol dros y blynyddoedd nesaf.

Nifer o unedau newydd a ddatblygwyd gyda'r Grant Tai Cymdeithasol



Yr **Uned Ddigartrefedd** yw'r uned sydd wedi ei heffeithio fwyaf gan y pandemig. Mae'r Uned wedi bod yn gweithredu er mwyn atal digartrefedd ond hefyd yn darparu cefnogaeth i deuluoedd neu unigolion sy'n canfod eu hunain yn ddigartref. Ar gychwyn y cyfnod clo ym mis Mawrth 2020, gofynnodd y Llywodraeth i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru sicrhau nad oedd neb yn cysgu allan ar y stryd. Diwygiwyd y rheoliadau cenedlaethol dros nos er mwyn sicrhau fod gan bawb, ta waeth beth eu hamgylchiadau, y gallu i gael cefnogaeth gan eu Hawdurdod Lleol os oeddent yn wynebu digartrefedd. Rydym wedi gweld cynnydd o 71% yn y nifer

sydd yn cyflwyno yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd dros y 6 mlynedd diwethaf, a chynnydd o 26% dros y flwyddyn ddiwethaf yn unig.



Mae hyn wedi rhoi pwysau aruthrol ar ein hopsiynau cartrefu dros dro ac ar hyn o bryd nid ydym yn gallu ymdopi gyda'r galw o gryn dipyn. Canlyniad hyn yw gorfod gor-ddefnyddio llety gwely a brecwast gyda'r costau hynny yn cael eu cyfarch gan gronfa argyfwng gwedd 1 Llywodraeth Cymru. Mae'r gronfa yma wedi ei ymestyn tan fis Medi 2021.

Nid oes gan y Cyngor ddigon o lety dros dro er mwyn cyfarch y galw ac nid yw parhau i ddefnyddio llety gwely a brecwast yn ateb hirdymor. Mae ein Cynllun Gweithredu Tai wedi adnabod yr angen am oddeutu 50 o unedau llety a chefnogaeth ac rydym wedi llwyddo i ddenu arian grant i gyllido'r mwyafrif o'r gost o ddatblygu unedau o'r fath.

I'r perwyl hwn, mae'r gwasanaeth wedi cychwyn ar y datblygiad tai cyntaf wrth ddatblygu unedau hyblyg 'pods' yng Nghaernarfon, sydd bellach bron a'u cwblhau. Mae cynlluniau eraill ym Mangor, Pwllheli, Dolgellau, Corris a Deiniolen wrthi'n cael eu dylunio ar hyn o bryd a byddant i gyd wedi eu cwblhau o fewn y ddwy flynedd nesaf.

I gyd-fynd gyda'r cynnydd yn y llety, byddwn hefyd yn ehangu'r tîm cefnogaeth yn fewnol a gan asiantaethau arbenigol allanol i symud pobl yn eu blaenau yn gynt a lleihau

niferoedd sydd yn ddigartref. Mae'r cyfuniad o gynnydd mewn llety a'r cynnydd mewn cefnogaeth yn golygu bellach fod gennym gynllun wedi ei lunio, ac wedi ei fabwysiadu gan y Cabinet, er mwyn dygymod â'r sefyllfa ddigartrefedd yn y sir.

Mae'r **Grant Cymorth Tai** (£6.7m y flwyddyn) yn rhoi cymorth i bobl fregus er mwyn rheoli neu gynnal eu tenantiaeth a byw'n annibynnol. Yn ystod 2020/21 mae'r rhaglen yng Ngwynedd wedi cefnogi dros 2,000 o bobl i gael mynediad a chynnal tenantiaethau parhaol neu dros dro ac atal digartrefedd.

Uned arall sydd wedi ei heffeithio'n sylweddol gan y pandemig yw'r **Tîm Opsiynau Tai**. Yn ogystal, bu i ni fabwysiadu polisi gosod lleol newydd yn ystod y cyfnod clo cyntaf, sydd yn rhoi blaenoriaeth i bobl â chysylltiad Gwynedd. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y nifer o ymholiadau a cheisiadau y mae'r tîm yn ei dderbyn. Yn ystod mis Mawrth 2021, derbyniwyd pedair gwaith yn fwy o ymholiadau e-bost nag ar gychwyn y flwyddyn. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i effaith y pandemig ar sefyllfa unigolion sy'n arwain at gynnydd mewn ceisiadau am dŷ cymdeithasol, yn ogystal â phobl eisiau gwybod sut mae'r polisi gosod newydd wedi eu heffeithio.

Yn ystod 2020/21, roedd y nifer o ddyddiau ar gyfartaledd ar restr aros am dŷ yn 741 diwrnod sydd yn adlewyrchu bod diffyg mewn nifer o dai cymdeithasol yn y Sir. Dros y flwyddyn ddiwethaf ar gyfartaledd fe gymerwyd 26.3 diwrnod i brosesu cais am restr fer am denantiaeth tŷ cymdeithasol ac mae trefniadau wedi eu rhoi mewn lle i leihau hyn yn sylweddol yn fuan yn 2021/22.

Mae'r tîm **Grantiau a Phrosiectau Tai** wedi gweld effaith y pandemig ar eu gwaith sydd wedi arwain at leihad yn y prosiectau 'Grantiau i brynwyr tro cyntaf' a 'Grantiau Tai Gwag' a'r benthyciadau 'Adnewyddu Tai Gwag' sydd

wedi eu gwireddu eleni. Nawr fod y Cynllun Gweithredu Tai yn ei le byddwn yn gallu cynyddu ein cyflawni yn y maes yma.

Nifer o dai gwag ddaethpwyd yn ôl i ddefnydd



Mae'r Tîm hefyd wedi bod yn parhau i gyflawni gwaith i wneud addasiadau i gartrefi pobl a phlant anabl gyda 141 o addasiadau wedi eu cyflawni yn ystod 2020/21.

Nifer o dai wedi eu haddasu ar gyfer unigolion ag anableddau



Mae'r nifer o ddyddiau ar gyfartaledd a gymerir i wneud addasiadau i gartrefi unigolion ag anableddau wedi lleihau o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd a gymerir i gyflawni gwaith i wneud addasiadau i gartrefi unigolion ag anabledd



Yn ystod y cyfnod clo, pan nad oedd swyddogion y tîm **Gorfodaeth** yn gallu cael mynediad i safleoedd bu iddynt gael eu dargyfeirio i roi cymorth i'r Adran Amgylchedd i drwyddedu dros 1000 o dai rhent i gartrefu gweithwyr allweddol yn ystod y pandemig. Ers mis Rhagfyr 2020, mae'r tîm hefyd wedi bod yn cynnal arolygon 'boddhad cwsmer' gydag adborth positif iawn hyd yma.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir

Adran Amgylchedd

Prif feysydd Cyfrifoldeb yr Adran Amgylchedd yw Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Trafnidiaeth a Chefn Gwlad a'r Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu.

Covid-19

Fel sy'n wir ar draws weddill y Cyngor, mae nifer o wasanaethau'r adran wedi gorfod addasu'r ffordd yr ydym yn darparu'n gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac wedi gorfod blaenoriaethu gwaith i helpu atal lledaeniad. Mae hyn wrth reswm wedi cael effaith ar waith ddydd i ddydd arferol yr adran.

Mae swyddogion yr adran wedi bod yn cynnal dyletswyddau gwahanol i'r arfer drwy gynnig arweiniad a chyngor ar fesurau Covid-19 i fusnesau, sefydliadau a'r cyhoedd. Bu'r adran hefyd yn cyfrannu at gynhyrchu a sefydlu polisiâu atal Covid-19 rhanbarthol a chenedlaethol, ac yn cynnal archwiliadau, monitro a chymryd camau gorfodaeth i ddelio â diffyg cydymffurfiaeth â gofynion statudol i atal lledaeniad yr haint ac i warchod eu gweithlu a'u cwsmeriaid. Mae rôl yr adran yn hyn o beth wedi bod yn hollbwysig i sicrhau ein bod fel cyngor yn diogelu trigolion Gwynedd i'r gorau o'n gallu mewn amgylchiadau eithriadol o heriol.

Er bod yr argyfwng wedi gosod gofynion tra gwahanol ar yr adran dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r adran wedi ymdopi'n rhyfeddol, gan flaenoriaethu'r ymateb i'r pandemig tra'n parhau i geisio darparu gwasanaethau ddydd i ddydd lle roedd hynny'n bosib neu'n angenrheidiol er mwyn ymateb i faterion risg uchel. Mae gwaith a oedd wedi ei raglennu ar gyfer 2020-21 wedi llithro, ond roedd hynny'n anochel yn yr hinsawdd sydd ohoni a byddwn yn gweithio i adfer y sefyllfa. Fodd bynnag, mae gennym bryderon am les staff mewn rhai

gwasanaethau lle mae llwyth gwaith wedi bod yn afresymol o uchel ac mae cymryd gwylliau wedi bod yn anoddach nag erioed. Un o'n blaenoriaethau yn symud ymlaen ydi i adfer sefyllfa iach i'n holl staff ar draws yr adran.

Gwarchod y Cyhoedd

Y gwasanaethau sydd wedi eu heffeithio fwyaf yn yr adran hon o ganlyniad i argyfwng Covid-19 yw'n gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd. Ers mis Mawrth 2020, maent wedi bod yn arwain ar yr ymdrechion i ymateb i argyfwng Covid-19 ac felly wedi newid eu ffordd o weithio'n sylweddol. Mae hyn wedi golygu blaenoriaethu gwaith penodol er mwyn cyfrannu at yr ymdrech o reoli ymlledaeniad yr haint.

Fel sydd wedi'i nodi ar ddechrau'r adroddiad yn y bennod yn ymwneud ag argyfwng Covid-19, bu'r Adran yn arwain ar sefydlu'r Gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu, sy'n weithredol ers Mehefin 2020 ac yn cyflogi 102 o weithwyr sydd wedi olrhain dros 11,000 o achosion o Covid-19. Bu'r gwasanaeth yma ar ei brysuraf ynghanol yr ail don o Covid-19 wrth i'r nifer o achosion a oedd angen eu holrhain gynyddu'n ddyddiol. Roedd rôl y gwasanaeth yma'n gwbl allweddol i'r gwaith o reoli ymlledaeniad yr haint ac mae mwy o wybodaeth am y trefniadau yn y bennod Covid-19.

Pan na fo'r achosion Covid-19 mor uchel, mae'r Adran wedi parhau a rôl gwbl greiddiol yn y trefniadau ail-agor ar gyfer ein busnesau, sefydliadau a chymunedau'n ehangach. Mae hyn wedi digwydd drwy:

- Rhoi cyngor arbenigol i fusnesau, adrannau eraill y cyngor, asiantaethau allanol, darparwyr gofal, ysgolion ac aelodau'r cyhoedd mewn perthynas â mesurau hylendid a chanllawiau hunan ynysu
- Cynnal archwiliadau ac ymgyrchoedd cefnogi, cyngori a monitro mewn amryw o eiddo a sectorau busnes gwahanol e.e. archfarchnadoedd, canolfannau garddio, siopau trin gwallt ayb
- Cynnal ymweliadau rhagweithiol gyda'r Heddlu i roi cyngor i fusnesau trwyddedig fel bwytai a tafarndai dros gyfnod prysur yr haf
- Ymateb i gwynion am ddiffyg cydymffurfiaeth gyda rheoliadau Covid-19 mewn busnesau trwyddedig megis tafarndai, bwytai a meysydd carfannau; a chymryd camau gorfodaeth lle mae angen er mwyn cadw pobl yn ddiogel
- Ymateb i gynnydd mewn cwynion sŵn domestig a chwynion am losgi sbwriel gardd, sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â'r ffaith fod llawer yn gweithio o adref
- Cynhyrchu gwybodaeth ar ragofalon Covid-19 i'r diwydiant tacsis
- Rhoi trefniadau mewn lle er mwyn rheoli'r cyrchfannau prysur ar draws y sir gan gynnwys rheolaeth a gorfodaeth parcio

Er mwyn rhoi syniad o faint y cynnydd yng ngwaith y gwasanaethau hyn, mewn perthynas â'r nifer o geisiadau am wasanaeth yn y maes Afiechydon Heintus, mae'r Adran wedi derbyn 1,536 yn ystod 2020 i gymharu â prin dim ceisiadau y flwyddyn flaenorol. Mae'r gwaith yma wedi cymryd holl amser swyddogion y gwasanaethau hyn yn ystod 2020/21 ac wedi golygu nad ydynt wedi gallu cyflawni eu rôl arferol yn yr un ffordd.

Yn wir, mae 55 o fusnesau risg uchel a 25 o fusnesau Prosesau Llygredd Awyr a oedd angen arolygiad yn ystod 2020-21 yn hwyr gyda'u hamserlenni'n llithro i 2021-22. Mae hyn o ganlyniad i'r ymdrechion i arwain ar ein ymateb i'r pandemig, yn ogystal â'r ffaith fod nifer o'r busnesau wedi bod ar gau a rheolau Covid-19 wedi'i gwneud yn anodd cynnal cyfarfodydd. Bydd 62% o'r sefydliadau bwyd anifeiliaid sydd angen arolygiad hefyd yn llithro i raglen 2021-22. O ganlyniad, bydd rhaglen arolygu 2021-22 y gwasanaethau hyn yn drwm iawn, ac mae pryderon am gallu a lles staff y gwasanaethau hyn wrth ymdopi ag adfer yr arolygiadau yma tra'n parhau i gyflawni eu dyletswyddau'n unol â'r argyfwng. Yn ychwanegol i hyn mae ôl-groniad sylweddol o sefydliadau bwyd (dros 1,000) sydd angen arolygiad yn unol â rhaglen archwilio Hylendid Bwyd ac rydym yn trafod gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd ynghylch y ffordd orau i ymateb i hyn.

Mae profiadau'r flwyddyn ddiwethaf wedi amlygu pwysigrwydd rôl y gwasanaethau hyn wrth warchod iechyd ein cymunedau ac, yn anffodus, wedi amlygu diffyg gwydnwch y gwasanaethau'n sgil blynyddoedd o doriadau. Mae ymateb i ddifrifoldeb y diffyg yma felly yn un o heriau'r flwyddyn o'n blaenau ac mae prosiect Blaenoriaeth Gwella newydd wedi'i gynnwys yn Adolygiad 2021/22 o Gynllun Cyngor Gwynedd er mwyn mynd i'r afael â'r mater. Un elfen o'r gwaith oedd i recriwtio swyddogion ymgysylltu cymunedol Covid-19 er mwyn, yn y tymor byr, gweithio gyda'n cymunedau i'w diogelu ond gyda llygad ar gryfhau gwydnwch y gwasanaethau hyn yn y tymor hir. Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith ymgysylltu yma ym mhennod Covid-19 yr adroddiad.

Cynllunio

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn hwyluso a rheoli datblygiadau cynaliadwy o fewn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd (nad yw'n

cynnwys ardal y Parc Cenedlaethol).

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi bod yn mesur lefel bodlonrwydd ein cwsmeriaid. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen gennym mewn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd, yn benodol o amgylch trefniadau cysylltu gyda'r gwasanaeth ac anawsterau cyfathrebu. Rydym yn gweithio ar ddatblygu dulliau amgen ar gyfer cynnal y gwaith yma drwy system swyddfa gefn newydd.

Rhwng Mawrth a Gorffennaf 2020 ni gynhaliwyd pwyllgorau cynllunio o ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19. Nid oedd posib felly penderfynu ar y ceisiadau hynny sydd angen mynd gerbron pwyllgor. Yn ychwanegol, mae diffyg capasiti o ganlyniad i salwch hirdymor a threfniadau gweithio'n ystod yr argyfwng wedi golygu fod prosesau'n cymryd yn hirach nac arfer. Mae hefyd wedi bod yn cymryd mwy o amser i ni dderbyn ymatebion gan ymgynghorai statudol. Yn sgil hyn, ar gyfartaledd yn ystod 2020/21 cymrodd geisiadau cynllunio 89 diwrnod i gyrraedd penderfyniad o'i gymharu â 62 diwrnod yn 2019/20.

Roedd 70% o'r tai a ganiatawyd drwy'r drefn gynllunio yn ystod 2020/21 yn cyfrannu at dai fforddiadwy'r sir. Mae'r ffigwr yma yn cyrraedd y targed sydd wedi'i osod gan y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd. Mae gwybodaeth bellach am ddarpariaeth cartrefi yng Ngwynedd ym mhennod yr Adran Tai ac Eiddo.

Mae gan y gwasanaeth rôl i gymryd camau gorfodaeth ar ddatblygiadau sydd heb dderbyn caniatâd cynllunio hefyd, ac yn ystod 2020/21 cwblhawyd 133 ymchwiliad, ond mae 263 o achosion yn parhau i fod yn cael eu harchwilio. Mae'r gwaith wedi cynnwys nifer o achosion cymhleth eleni lle mae'r gofyn ar amser ein swyddogion yn uwch. Mae hynny hefyd mewn cyfnod lle mae llai o gapasiti

staff ar gael i wneud gwaith gorfodaeth cynllunio gorfodaeth.

Polisi Cynllunio ar y Cyd

Buom yn gweithio ar Adroddiad Monitro Drafft ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 ond oherwydd yr argyfwng nid oedd yn bosib casglu'r holl wybodaeth arferol. Yn dilyn cyhoeddiad gan y Gweinidog Julie James AS, bydd angen i ni adrodd ar gyfnod o ddwy flynedd ym mis Hydref 2021. Casgliad yr adroddiad drafft oedd bod y cynllun yn cyflawni'r strategaeth a bod polisiau'r cynllun yn gweithio. Nid oedd unrhyw dystiolaeth fod angen adolygu'r cynllun yn gynnar, ond bydd hyn yn cael ystyriaeth pellach wrth i ni lunio'r adroddiad terfynol.

Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn atgyfnerthu gallu'r Cynllun i roi sail gadarn i wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio i'r dyfodol. Mae 2 CCA wedi cael eu mabwysiadu yn ystod cyfnod 2020/21, sef *Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu a Datblygiad twristiaeth – atyniadau a llety.*

Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd o'r enw 'Cymru y Dyfodol'. Ei ddiben yw i osod y cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Darparodd y gwasanaeth fewnbwn i'r ymgynghoriad perthnasol yn ôl ym mis Awst 2019.

Rheolaeth Adeiladu

Mae'r Uned Rheolaeth Adeiladu yn cydweithio gyda'r cyhoedd a phartneriaid er mwyn i'n cymunedau gael adeiladau diogel sy'n cwrdd â'r safonau adeiladu priodol. Mae'r uned yn parhau i roi gwasanaeth da i drigolion gyda'r sgôr bodlonrwydd yn parhau'n uchel ac

yn gymharol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf. Mewn arolwg boddhad cwsmeriaid yn 2020/21, rhoddwyd sgôr cyfartalog o 9.6 allan o 10 o'i gymharu â 9.7 yn 2019/20. Yn dilyn adolygiad Ffordd Gwynedd o'r gwasanaeth, cytunwyd ar y mesuryddion canlynol gyda'r nod o wella'r gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu i gwsmeriaid:

- Amser rhwng derbyn cais cynlluniau llawn a chymeradwyo
- Sgôr Bodlonrwydd Cwsmer
- Amser o dderbyn hysbysiad fod strwythur peryglus wedi'i ddiogelu
- Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu cais 'Enwi a rhifo tai/stryd'
- Canran o benderfyniadau a wnaethpwyd i'r amserlen statudol

Mae'n fwriad gennym i symleiddio'r holiadur rydym yn ofyn i gwsmeriaid ei lenwi hefyd, gan ganolbwyntio ar ddau gwestiwn yn unig sef sawl marc allan o ddeg a roddir am y gwasanaeth a dderbyniwyd ac os nad yw'r marc yn 10, sut mae modd i ni wella.

Un o ddyletswyddau'r Uned Rheolaeth Adeiladu yw prosesu ceisiadau Cynlluniau Llawn. Mae'r uned yn cynnal asesiad o'r cynlluniau, ac yn cyhoeddi hysbysiadau penderfyniad o fewn ei darged statudol o rhwng 5 ac 8 wythnos. Mae'r uned yn anelu i archwilio'r cynlluniau o fewn 15 diwrnod, gyda'r gwaith penderfyniad ar y cais yn cael ei ryddhau cyn gynted â phosib.

Gwelwyd gostyngiad o 21% mewn ceisiadau Rheolaeth Adeiladu yn ystod cyfnod yr argyfwng, ac o ganlyniad colled mewn incwm sylweddol. Roedd gostyngiad mewn cymwysiadau prosiectau ar raddfa ganolig i fawr hefyd yn cyfrannu at y diffyg yma.

Trafnidiaeth a Chefn Gwlad



Mae'r sector **trafnidiaeth gyhoeddus** yng

Ngwynedd wedi wynebu cyfnod cythryblus dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r gwasanaeth wedi gorfod ymateb yn gyflym i newidiadau mawr o ran y darparwyr oedd ar gael. Erbyn hyn mae'r Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad wedi dechrau ar y gwaith o gynnal arolwg cynhwysfawr o'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus. Bydd y Gwasanaeth yn cydweithio gyda Phrifysgol Bangor er mwyn cynllunio rhwydwaith fydd wedi ei seilio ar werth cymdeithasol, yn hytrach na chost a nifer teithwyr. Bydd hefyd yn ystyried dulliau arloesol o gynig rhwydwaith cludiant cyhoeddus. Yn anffodus, mae'r amserlen i'r adolygiad ddod yn weithredol wedi llithro oherwydd gofynion Covid-19 ar gapasiti'r adran. Fodd bynnag, bwriedir ailgydio yn y gwaith hwn yn ystod 2021/22.

O ganlyniad i swyddogion yn arallgyfeirio i ddyletswyddau gwahanol yn ystod argyfwng Covid-19, nid yw wedi bod yn bosib i ni gasglu'r data arferol sy'n ymwneud â phrydlondeb gwasanaethau bysiau. Fodd bynnag, rydym yn parhau i gydweithio gyda'r sector cludiant er mwyn cynnal gwasanaethau sy'n ateb anghenion Pobl Gwynedd.

Yn y maes **Parcio**, ffurfiwyd Grŵp Tasg Parcio ddiwedd 2019 er mwyn rhoi sylw i faterion parcio amrywiol a chyflwyno datrysiadau posibl i gyfarch bwlch ariannol sy'n wynebu'r Cyngor a gwella'r trefniadau parcio presennol yn yr un modd. Mae'r flwyddyn diwethaf wedi gwaethygu'r problemau megis prinder llecynnau parcio ledled y sir o ganlyniad i bobl yn aros yn y DU am wyliau yn hytrach na mentro dramor ac mae hyn wedi amlygu'r angen am bwerau ychwanegol i ymdrin â cherbydau sy'n creu rhwystr a gwell rheolaeth

o gartrefi modur.

Yn ystod 2020/21 mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad wedi canolbwyntio ar osod arwyddion i annog cadw at bellter cymdeithasol ar ein llwybrau prysuraf, delio â cheisiadau i gau llwybrau o ganlyniad i bryderon am ymlediad Covid-19 ac ymateb i achosion o gau llwybrau heb awdurdod ac achosion o dorri coed o dan orchymyn cadwraeth. Serch hynny, mae'r cyfnodau clo wedi rhoi cyfleon i bobl ail ddarganfod eu bröydd a gwerthfawrogi eu hamgylchedd leol. Gwelwyd cynnydd yn nymuniad cymunedau ac unigolion i gyfrannu at y gwaith o warchod a gwella ansawdd cefn gwlad. Llwyddwyd hefyd i fwrw ymlaen gyda rhai o'r meysydd gweithredu a adnabuwyd yn Adolygiad Ffordd Gwynedd y Gwasanaeth yn ôl yn 2019.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae graddfa ymlediad clwyf yr onnen wedi'i amlygu ynghyd â'r risgiau i ddiogelwch pobl ac eiddo yn ogystal ag oblygiadau ar fioamrywiaeth a'r tirwedd. Buom yn cydweithio â'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i ymateb i'r clwyf ac yn arwain y gwaith o baratoi ar gyfer adfer a lleihau ei effaith hir dymor ar gefn gwlad.

Rheolaeth Categori Corfforaethol


Pwrpas y gwasanaeth hwn yw cydweithio a chefnogi gwasanaethau'r Cyngor i wario arian cyhoeddus yn strategol ac yn gywir, gan sicrhau gwerth am arian ac annog cadw'r budd yn lleol.

Yn ystod 2020/21 bu'r tîm cyfan yn gyfrifol am gaffael PPE a nwyddau glanhau o safon am chwe mis cyntaf y flwyddyn. Serch hynny, llwyddwyd i arbed £72,000 ac adnabod £276,000 at y dyfodol.

Mae'r tîm yn ymdrechu i gadw'r gwariant yn lleol ble'n bosibl, a ble bo rheolau cyfreithiol yn caniatáu. Trwy ymgysylltu'n gynnar â'r farchnad leol a chydweithio â Busnes Cymru sy'n darparu cyngor a chefnogaeth i baratoi

cynigion am dendrau, roedd cynnydd o 2% yn y gwariant lleol o'i gymharu â 2019/20.

Canran gwariant lleol o fewn Gwynedd



Y flwyddyn i ddod

Wrth gwrs, bydd yr her o sefydlogi ac adfer yn dilyn yr argyfwng yn ein wynebu yn ystod 2021/22, a byddwn yn defnyddio'r gwersi sydd wedi codi wrth ystyried siâp ein gwasanaethau i'r dyfodol. Ein prif flaenoriaethau dros y flwyddyn i ddod yw:

- Cryfhau capasiti Gwarchod y Cyhoedd
- Mabwysiadu Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd
- Rhoi mewnbwn i a cheisio dylanwadu ar y broses o sefydlu'r Cydbwyllgor Corfforaethol ar gyfer Gogledd Cymru fydd yn cael effaith yn uniongyrchol ar y maes cynllunio a thrafnidiaeth
- Parhau gyda'r adolygiad cludiant cyhoeddus
- Ystyried / gweithredu y datrysiadau posib yn sgil yr adolygiad parcio
- Cychwyn o broses Adolygu gyda'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd


Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir

Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)

Mae **Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)** yn gweithredu'n fasnachol yn y maes peiranyddol ac adeiladu er mwyn sicrhau swyddi o ansawdd uchel o fewn y Sir a cheisio creu elw i helpu gyda sefyllfa ariannol y Cyngor.

Ar gyfer 2020/21 llwyddwyd i greu elw oedd £52,479 yn uwch na'r targed a osodwyd ar ein cyfer.



Yn ystod y cyfnod clo mae perfformiad cyllidol YGC wedi bod yn rhagorol, ac rydym wedi llwyddo i wneud elw dros ein targed. Hyn wedi bod yn bosib drwy gwblhau'r gwaith ar ddylunio ac adeiladu drwy gyfnod y pandemig, a pharhau i weithio ar gynlluniau drwy Ogledd, Canolbarth Cymru a Phenfro.

Yn allweddol i hyn oll roedd parodrwydd staff i weithio yn hyblyg gan ymdopi ac addasu i'r sefyllfa. Rydym wedi gwneud addasiadau sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn i'r adran a byddwn yn parhau â rhai o'r trefniadau hyn i'r dyfodol.

Perfformiad ar faes Dŵr a Llifogydd

Mae'r gwasanaeth yn amddiffyn pobl Gwynedd rhag llifogydd ac erydiad arfordirol. Maent yn gwneud hyn trwy ddatblygu cynlluniau i ddenu arian grant i'w gwireddu.

Mae'r rhain i gyd yn gymunedau sydd un ai wedi dioddef yn hanesyddol, neu ble mae tystiolaeth gref fod newid hinsawdd yn debygol o gynyddu risg yn y dyfodol. Yn y flwyddyn 2020/21 mae'r gwasanaeth wedi bod yn gweithio ar dros 20 o brosiectau i leihau risg llifogydd i gannoedd o bobl.

Mae'r prosiectau atal llifogydd yn cynnwys (noder **rhifau adeiladau** sydd yn elwa o leihad yn risgiau llifogydd):

- Viaduct Gardens, Abermaw (**33**) - datblygu opsiynau i liniaru risg llifogydd arfordirol.
- Prom Gogleddol, Abermaw (**712**) - datblygu opsiynau i liniaru lefel risg llifogydd ac erydiad arfordirol.
- Bae Hiracl, Bangor (**82**) - ymchwilio i opsiynau i ostwng lefel risg llifogydd arfordirol ynghyd â llifogydd sy'n tarddu o ddŵr wyneb.
- Afon Gwyrfa (**54**) - ymchwilio i natur ac opsiynau i ostwng lefel risg llifogydd yn nalgylch yr Afon Gwyrfa ar y cyd gyda Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.
- Dalgylch Ogwen (**95**) - paratoi cais busnes manwl i wneud gwelliannau ar hyd y dalgylch sydd am reoli a lleihau risg llifogydd.

- Dalgylch Wnion - cynllun ar y cyd gyda'r Parc Cenedlaethol a ffermwyr lleol i ddatblygu cynlluniau sydd yn lliniaru llifogydd trwy ddefnyddio dulliau mwy meddal a naturiol fel plannu coed a newidiadau mewn defnydd a thrin y tir.
- Cwblhau gwaith adeiladu cynlluniau yn Felinheli a Rhostryfan **(46+41)**.
- Mae sawl gwelliant bach ar draws y sir, er enghraifft yn Tan Lon, Aberdaron, Cricieth, Abermaw, Llanfaglan.
- Cynllun Gwyrddio Bangor **(16)** - Adnabod lleoliadau yng nghanol y ddinas sydd â photensial i droi yn dirwedd llai caled ac sydd wedyn â photensial i gyfrannu at reoli llif dŵr ac felly lliniaru risgiau llifogydd lleol. Mae hyn yn cynnwys gwaith fel creu ardaloedd i'w plannu a blodau a choed.

Monitro Asedau

Mae'r gwasanaeth wedi cwblhau archwiliadau asedau arfordirol a draenio tir y Sir. Mae'r gwasanaeth gyda 264 o asedau, sydd yn cael eu sgorio o 1 i 5, ble mai 1 yw'r sgôr gorau. Sgôr o well na 3 yw'r targed. Mae 219 o asedau gyda sgôr rhwng 1 a 3. O'r 45 sydd ddim yn cyrraedd y targed, mae'r adran â chynlluniau ar y gweill i godi lefel cyflwr yr asedau yma.

Mae'r adran hefyd yn ceisio gwneud ein holl asedau arfordirol yn fwy saff i'r cyhoedd.

Ymchwiliadau Llifogydd

Rydym yn parhau i gasglu gwybodaeth ynglŷn â lefel risg llifogydd o fewn y Sir, ac wedi datblygu mapiau a chronfeydd data penodol ar gyfer y pwrpas yma. **Yn ystod 2020/21 cofnodwyd fod 101 o eiddo preswyl a 21 o eiddo masnachol wedi dioddef o lifogydd mewnol, sef dŵr yn dod i mewn i'r adeilad.** Yn ogystal â hyn mae'r uned wedi

nodi ac ymchwilio i mewn i dros 50 o achosion ble roedd llifogydd bron a digwydd oherwydd trafferthion dŵr wyneb. Bydd yr wybodaeth yma yn bwydo nôl i ddatblygu cynlluniau i'r dyfodol i leihau'r risg llifogydd yn y Sir.

Rydym yn parhau i gydweithio gyda'r sector gyhoeddus, a chyrrff eraill drwy godi ymwybyddiaeth am beryglon llifogydd ac erydiad arfordirol

Rheoleiddio

Yn ystod 2020/21 rydym wedi prosesu 27 o geisiadau i weithio mewn cyrsiau dŵr cyffredin dros y Sir. Mae'r gwasanaeth ymgynghorol a gynigir yn golygu fod pob cais sydd wedi ei dderbyn o fewn y cyfnod hwn wedi bod yn dderbyniol, gydag ymateb wedi ei ddarparu o fewn 24 diwrnod ar gyfartaledd, lle caniateir hyd at 2 fis.

Pwrpas y broses caniatâd gweithio mewn cyrsiau dŵr ydi rheoli gweithgareddau penodol a allai gael effaith andwyol ar lifogydd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym hefyd wedi bod yn trafod gofynion yr is-ddeddfau draenio tir newydd gydag amryw o ddatblygwyr. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r oblygiadau ar ddatblygiadau i'r dyfodol. Bydd y broses codi ymwybyddiaeth yma yn parhau.

Yn ystod 2021 rydym wedi rhoi sylwadau ar dros 300 cais cynllunio, i sicrhau fod bygythiad llifogydd ac erydiad arfordirol i ddatblygiadau newydd yn amlwg a derbyniol a bod manylion y cais yn cydymffurfio a pholisïau cenedlaethol.

SDC (Systemau Draenio Cynaliadwy)

Nifer Ceisiadau

Fel roeddem yn ei ddisgwyl, mae nifer ceisiadau wedi cynyddu bob chwarter. Mae'r tabl isod yn dangos niferoedd y ceisiadau


sydd wedi eu derbyn a'u prosesu gan yr adran. Rydym hefyd wedi prosesu 55 cais i Gynghorau Môn a Wrecsam dros y cyfnod.

Rydym yn parhau i weithio gydag adrannau cynllunio'r Cyngor a Pharc Cenedlaethol Eryri, er mwyn amlygu'r gofynion i ymgeiswyr.

Mae ymwybyddiaeth o'r gofynion i weld yn cynyddu. Yn ogystal mae ansawdd y ceisiadau yn gwella oherwydd y gwasanaeth a chymorth rydym yn ei roi.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir



Gwasanaeth Cyd-gais:

Er ein bod wedi cael sêl bendith i godi ffi am y gwasanaeth yma, rydym wedi parhau i gynnig y gwasanaeth yn ddi-dâl dros y cyfnodau clo.

Gwaith tu hwnt i Wynedd.

Mae Cyngor Gwynedd wedi eu penodi gan Gyngor Ynys Môn a Wrecsam i brosesu a gwirio eu holl geisiadau SDC.

Rydym hefyd yn arwain ar waith i ddatblygu cysondeb ar draws Gogledd Cymru, ac yn cydweithio gyda Chynghorau Sir Ynys Môn, Conwy, Dinbych, Fflint a Wrecsam. Mae'r gwaith yma yn cynnwys llunio polisiau a gweithdrefnau a all gael eu defnyddio'n rhanbarthol er mwyn rhannu adnoddau a chael cysondeb yn y ffordd mae'r gofynion yn cael eu gweithredu.

Adran Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth

Mae'r Adran Cyllid yn sicrhau'r gefnogaeth briodol i'r Cyngor wrth reoli, gwarchod a datblygu ei sefyllfa ariannol, yn ogystal â darparu gwasanaethau megis casglu referniw a thalu budd-daliadau mewn ffordd deg. Yn 2020/21 talwyd cyflogau staff, anfonebau cyflenwyr, a grantiau i fusnesau yn wyneb yr argyfwng Covid-19. Mae gwasanaethau technoleg gwybodaeth y Cyngor hefyd yn rhan o'r Adran Cyllid ac maent yn cynnig arweiniad a chefnogaeth dechnegol o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo gwerthoedd sylfaenol y Cyngor.

Rheolaeth Ariannol ac Arbedion

Mae gwaith rheolaeth ariannol a chefnogaeth cyfrifwyr yr Adran Cyllid wedi bod yn gaffaeliaid i adrannau'r Cyngor wrth gyflawni i bobl Gwynedd mewn cyfnod heriol. Trwy reolaeth ariannol gydwybodol, mae'r adran wedi llwyddo i gynorthwyo'r Cyngor i gadw o fewn ei gyllideb pob blwyddyn ers 2015/16.

Yn yr hinsawdd ariannol o gyfyngiadau ar wariant cyhoeddus, cynhyrchwyd cyllidebau dibynadwy a chyfrifon cywir a theg. Yr Adran Gyllid sy'n gyfrifol am drefniadau cadarn y Cyngor, a darparu adnoddau addas i'r holl adrannau wireddu'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt.

Fel sydd wedi ei nodi yng nghyflwyniad yr adroddiad perfformiad yma, roedd 90% o'r cynlluniau arbedion, cyfanswm gwerth £31 miliwn rhwng 2015/16 a diwedd 2020/21 wedi eu cwblhau, ond roedd cynlluniau eraill yn fwy heriol i'w gwireddu. Felly, adolygwyd y cynlluniau arbedion cyfredol yn ystod 2020/21, a bu camau darbodus i ddileu rhai arbedion a llithro eraill ymlaen i 2022/23.

Cafodd yr argyfwng Covid-19 effaith ariannol sylweddol, gyda chyfuniad o gostau ychwanegol a cholledion incwm gwerth dros £20 miliwn i'r Cyngor yn 2020/21. Cyflwynodd cyfrifwyr Cyngor Gwynedd hawliadau i Lywodraeth Cymru i ddigolledu incwm gwerth £7.3 miliwn, gwariant ychwanegol o £11.6 miliwn a cheisiadau gwerth £1.5 miliwn am y cynllun saib swyddi Furlough.

O ran perfformiad ariannol y Cyngor ar gyfer 2020/21, mae effaith yr argyfwng wedi bod yn amlwg iawn ar y sefyllfa ariannol, gyda derbyniadau grantiau sylweddol cysylltiedig â Covid-19 yn hwyr yn y flwyddyn ariannol yn llwyddo i drawsnewid y sefyllfa ariannol, gan gynnwys grantiau i gyllidebau'r ysgolion, ar gyfer trawsnewid digidol, diffyg gwireddu arbedion, ac ôl-groniad Treth Cyngor.

Archwilio Mewnol

Mae gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid ac i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Yn ystod 2020/21, cyflawnwyd 23 o archwiliadau lle cadarnhawyd lefel sicrwydd 'uchel' neu 'digonol' ym mhob un. Nid oedd modd cyflawni rhai archwiliadau, felly roedd archwilwyr yn cynorthwyo gyda blaenoriaethau eraill, yn cynnwys dosbarthu grantiau busnes.

Yn ogystal ag archwilio Cyngor Gwynedd, cynhaliwyd archwiliadau mewnol ar ran Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, GwE, cwmni Byw'n Iach a 70 o gynghorau tref a


chymuned.

Pensiynau

Mae'r Gwasanaeth Pensiynau yn gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran dros 40 o gyflogwyr, gan gynnwys cyngorau Gwynedd, Môn a Chonwy. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar weithredu'n gywir a phrydlon ar ran ei aelodau.

Rydym wedi llwyddo i dalu'r pensiynwyr a bu gwelliant yn yr amser gymerwyd i brosesu ymddeoliadau a delio ag achosion profedigaeth. Bu cynnydd yn yr amser gymerwyd i drosglwyddo buddion pensiwn, oherwydd roedd rhai o'r staff wedi cynorthwyo i ddsbarthu grantiau busnes am gyfnod, a disgwylir bydd y sefyllfa yn gwella yn 2021/22.

Er ein bod yn parhau i anfon dogfennau yn y post, mae'r wefan 'Fy Mhensiwn Ar-lein' yn mynd o nerth i nerth gyda 16,000 o aelodau wedi cofrestru erbyn hyn. Mae'r opsiwn newydd ar y system i alluogi llwytho dogfennau fel ffurflen ymddeol yn cyflymu'r drefn o brosesu buddion pensiwn.



Erbyn hyn, mae'r system i-Connect yn cael ei defnyddio'n fisol gan holl gyflogwyr y Gronfa Bensiwn i ddiweddarar cofnodion cyflogau. Golygai hyn fod y wybodaeth yn y system bensiynau mor gyfredol a chywir â phosib.


Yn sgil yr argyfwng Covid-19, roedd gwerth y Gronfa Bensiwn wedi gostwng i £1.94 biliwn ar 31 Mawrth 2020, wedi'r cwmp ym marchnadoedd ecwiti byd-eang yn chwarter olaf 2019/20. Erbyn 31 Mawrth 2021 roedd

marchnadoedd wedi codi 'nôl, gyda gwerth Cronfa Gwynedd wedi codi i £2.51 biliwn.

Mae'r Pwyllgor Pensiynau a rheolwyr y Gronfa wedi gweithio ymhellach ar gynllun i sicrhau fod Cronfa Bensiwn Gwynedd, ein hymgyngorwyr a'n rheolwyr asedau yn edrych i fuddsoddi mewn asedau cynaliadwy. Ceir rhagor o fanylion yn y datganiad yma: <https://www.cronfabensiwngwynedd.cymru/cy/Gwybodaeth/Newyddion/Cronfa-Bensiwn-Gwynedd-Datganiad-Dadfuiddsoddi.pdf>

Trethi

Yn sgil y cyfyngiadau a ddechreuodd ym Mawrth 2020, gwnaethpwyd penderfyniad pendant i atal unrhyw waith o fynd ar ôl dyledion Treth Cyngor am 3 mis, ac wrth ail-gychwyn casglu gwnaethpwyd hynny'n raddol, gan gyfeirio trigolion Gwynedd i'r cymorth sydd ar gael iddynt. Er hynny, casglwyd 95.5% o Dreth Cyngor 2020/21 o fewn y flwyddyn. Mewn amgylchiadau anodd, roedd hynny'n galonogol, o'i gymharu â 96.8% yn 2019/20. Y gyfradd casglu o fewn y flwyddyn yw'r dangosydd perfformiad cenedlaethol, ond dylid nodi fod rhan helaeth o'r arian sy'n ddyledus yn cael ei gasglu yn y pen draw.



Cafodd y Gwasanaeth Trethi, gyda chymorth staff o wasanaethau eraill yr adran, y cyfrifoldeb o weinyddu grantiau Covid-19 Llywodraeth Cymru i fusnesau Gwynedd. O ganlyniad i wahanol gyfnodau clo'r argyfwng, bu 5 cynllun grant yn ystod 2020/21 a dosbarthwyd dros £106m o arian grant i gynorthwyo busnesau'r sir, gan brosesu bron i 20,000 o daliadau.

Budd-daliadau

Roedd y cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais Budd-dal Tai newydd yn 2020/21 yn 18.74 diwrnod, o'i gymharu â 15.68 diwrnod yn 2019/20. Roedd y dirywiad mewn perfformiad yn adlewyrchu'r cynnydd sylweddol mewn cyswllt gan gwsmeriaid arferol a chwsmeriaid newydd oedd wedi dioddef effaith ariannol y pandemig. Er hynny, llwyddwyd i wella'r cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau Budd-dal Tai i 3.77 diwrnod eleni, o 4.78 yn 2019/20.

Hefyd, mae'r gwasanaeth Budd-daliadau wedi cynorthwyo 1,718 o deuluoedd trwy gymorth o'r Gronfa Taliadau Tai Dewisol (DHP), sy'n gymorth ychwanegol tuag at dalu rhent. Drwy hyn, rydym wedi gallu cynorthwyo nifer sylweddol o denantiaid Gwynedd i aros yn eu cartref presennol neu i symud i eiddo newydd.

Yn ogystal, mae'r gwasanaeth Budd-daliadau wedi prosesu grant gwisg ysgol / grant datblygu disgyblion (mynediad) gyda gwerth ariannol o £148,460 i 1,423 o blant, ac wedi asesu hawl cinio am ddim i 3,049 o blant Gwynedd yn ystod 2020/21 (2,534 yn 2019/20).

Yn ychwanegol i'r gwaith arferol, mae'r gwasanaeth wedi ymgymryd â'r Cynllun Taliadau Hunan Ynysu ar gyfer Llywodraeth Cymru, ac wedi delio gyda 713 cais am daliad

ers dechrau'r cynllun ar 16 Tachwedd 2020 hyd at 31 Mawrth 2021.

Yswiriant a Risg

Bu'r gwasanaeth yn cynghori ar faterion yswiriant mewn perthynas â Covid-19, ac yn trefnu gwarchodaeth ychwanegol yn ôl yr angen. Hefyd eleni, bu tendro am yswirwyr ar gyfer gwarchodaeth eiddo, cyfrifiaduron, gwarant ffydd, a therfysgaeth. Mae'r polisïau gyda'r yswirwyr newydd wedi cychwyn ar 1 Ebrill 2021.

Lansiwyd Cofrestr Risg Corfforaethol ar ei newydd wedd ar 6 Mawrth 2021. Mae'r system newydd yn cynnig cyfleuster hwylus i ddefnyddiwr ym mhob adran wrth iddynt ystyried eu blaenoriaethau a nodi beth sydd angen ei wneud, ac i gynorthwyo aelodau i herio perfformiad a sicrhau fod y camau disgwylidig wedi cael eu cymryd.

Incwm


Mae'r Gwasanaeth Incwm yn anelu i brosesu derbyniadau arian a chasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon.

Roedd gwerth dyledion amrywiol dros 6 mis oed ar 31 Mawrth 2021 yn £1,822,462, sy'n gynnydd arwyddocaol ar y ffigwr cyfatebol o £1,280,823 ar 31 Mawrth 2020. Mae llawer o'r gor-ddyled oherwydd cyfyngiadau llif arian yn deillio o'r pandemig, ond disgwyliwn i'r sefyllfa wella wrth i'r economi ail-agor.

Serch hyn, llwyddodd y gwasanaeth i gasglu 94.59% o'r anfonebau a godwyd gan y Cyngor yn ystod 2020/21, o'i gymharu â 94.98% yn 2019/20. Oherwydd yr amgylchiadau economaidd yn ystod y flwyddyn, roedd gostyngiad o'r fath yn ddisgwylidig. Er gwaethaf hynny, roedd y gyfradd gasglwyd yn brydlon (h.y. taliad wedi ei dderbyn o fewn

y chwarter) oddeutu 92%, sy'n welliant ar flynyddoedd blaenorol er gwaethaf ardrawiad y pandemig ar yr economi.

Cyfradd casglu dyledion amrywiol o fewn y chwarter - Gwerth (%)



Taliadau

Pwrpas y gwasanaeth yw talu credydwyr y Cyngor yn gywir ac amserol. O ganlyniad i effaith Covid-19, gyda staff y Cyngor yn gweithio o adref, addaswyd i drefniadau mwy electronig, sydd wedi profi i fod yn llwyddiannus. Er mwyn delio gyda'r argyfwng, bu nifer sylweddol o daliadau ychwanegol, gan gynnwys talu arian cinio am ddim i rieni disgyblion ysgol, grantiau llawrydd ar gyfer y maes celfyddydau, taliadau hunan ynysu a grantiau i fusnesau Gwynedd. Er hynny, llwyddodd yr uned taliadau i wella'r perfformiad talu anfonebau o fewn 30 diwrnod i 93% (o'i gymharu â 92% yn 2019/20), gyda thaliadau lleol i Wynedd ar ei lefel uchaf yn 96% eleni.

Cyflogau

Pwrpas y gwasanaeth yw i dalu staff yn gywir ac ar amser, tra'n cadw cyfrifon priodol ar gyfer cyrff allanol fel CThEM (HMRC). Bu ambell achos yn ystod y flwyddyn lle roedd trefniadau argyfwng o weithio o gartref wedi arwain at fethiant i anfon gwybodaeth i'r Uned Gyflogau yn amserol, gyda'r canlyniad

fod angen gwneud addasiad i gyflogau. Er hynny, nifer fychan oedd rhain a dros gyfnod o 5 mlynedd mae nifer yr achosion misol sy'n arwain at addasiadau yn y cyflog yn parhau i ddangos tueddiad ar i lawr.


Technoleg Gwybodaeth

Mae'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth (TG) yn darparu a chefnogi technoleg o bob math i helpu staff a phobl Gwynedd i gael mynediad rhwydd at wybodaeth a systemau.

Daeth yn glir ar gychwyn cyfnod argyfwng Covid-19 bod angen newid sylweddol a chyflym i ganiatáu holl staff swyddfeydd y Cyngor i weithio o adref yn effeithiol o'r diwrnod cyntaf. Er i'r sefyllfa esblygu ar garlam, fe wnaethpwyd sawl newid i isadeiledd y Cyngor drwy gynyddu cyswllt y rhyngwrwyd, prynu a dosbarthu trwyddedau, cynyddu capasiti'r isadeiledd ac adeiladu wal dân newydd. Fe wnaethpwyd y newidiadau hyn ar seiliau cadarn oedd ar droed yn barod, gyda'r newidiadau hyn yn rhoi llwyfan iach a gwydn i alluogi parhad gwasanaeth i bobl Gwynedd. Mae'r argyfwng yn golygu y bydd gogwydd dra-wahanol ar y strategaeth ddigidol newydd sy'n cael ei baratoi ar gyfer y Cyngor.

Cyn yr argyfwng, roedd uchafswm o 138 o ddefnyddwyr yn gweithio o leoliadau tu allan i'r swyddfa, ond newidiodd hyn yn gynyddol yn 2020/21 gyda 1,450 yn gweithio o gartref.

Nifer yn gweithio gartref 2020/21



Hefyd, darparwyd dros 900 gliniadur newydd yn ystod cyfnod yr argyfwng, gan godi'r nifer gliniaduron i 2,250. Er yr holl newid, cadwyd safonau uchel gyda 99% yn adrodd eu bod yn hapus gyda gwasanaeth y Ddesg Gymorth.

Uwchraddiwyd o 'Skype' i alluogi cynnal cyfarfodydd rhithiol ar 'Teams', sydd bellach yn ran annatod o waith gwasanaethau'r Cyngor, a 'Zoom' ar gyfer cyfarfodydd gyda chyfieithu ar y pryd.

Defnydd o Teams (chwarter Ionawr – Mawrth 2021)

	Chwarter	Dyddiol
Neges chwim (chat)	669,404	10,973
Sgwrs 1:1	103,314	1,693
Amser a dreuliwyd mewn cyfarfod (munudau)	6,998,611	114,731
Cyfarfodydd a grëwyd	32,445	531

Cwblhawyd sawl prosiect isadeiledd TG yn llwyddiannus. Cryfhawyd y gallu i adfer trychineb drwy gryfhau gwytnwch, gan gynnwys generadur wrth gefn yn y Pencadlys. Hefyd, cryfhawyd ein amddiffynfeydd a'n gallu i adfer pe byddai ymosodiad seibr.

Bu gwelliant anferthol i'r isadeiledd mewn ysgolion. Uwchraddiwyd y rhwydwaith ym mhob ysgol, gan gyflwyno 300 swîts rhwydwaith a dros 1,000 o fannau cyswllt di-wifr. Gyda grant gan Lywodraeth Cymru, darparwyd 2,506 gliniadur i'r ysgolion cynradd, gyda 1,947 pellach a 893 iPad i'w dosbarthu. Bydd 1,062 gliniadur yn cael eu dosbarthu i'r athrawon cyn bod ein sylw yn troi at ein disgyblion uwchradd.

Datblygodd yr Uned Datblygu Systemau TG 26 system newydd mewn ymateb i'r argyfwng. Roedd nifer o'r rhain yn gyfleuster ar-lein uniongyrchol i'r cyhoedd, gan gynnwys ceisiadau am grantiau busnes ac apwyntiadau canolfannau ailgylchu. Hefyd,

roedd nifer o ddatblygiadau mewnol, megis system asedau fflyd sy'n rheoli manylion cerbydau.

Datblygodd yr uned 27 system TG arall, cyfanswm o 53. Derbyniwyd adborth gan 38 o'r prosiectau, gyda 37 yn datgan eu bod yn hapus ac heb unrhyw welliant i'w gynnig. Roedd cwsmer y prosiect arall yn fodlon, tra'n cynnig gwelliant o ran cyfathrebu.

Llwyddwyd i gadw achrediad 'Public Services Network' (PSN) sy'n datgan bodlonrwydd Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU gyda rhwydwaith a gwasanaethau TG y Cyngor o ran diogelwch, a parhawyd gyda'r safon 'Aur' yn genedlaethol ar safon a glendid data a geir yng nghofrestr Tir ac Eiddo Gwynedd.

Adran Cefnogaeth Corfforaethol

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Bu'n flwyddyn annisgwyl ac anarferol i'r adran gyfan efo nifer o swyddogion yn arall-gyfeirio i gyflawni gwaith oedd yn allweddol i alluogi gwasanaethau rheng-flaen i weithredu – o sicrhau cyflenwadau PPE ar gyfer staff i gadw cyswllt uniongyrchol a chefnogi'r mwyaf bregus yn ein cymunedau.

Ar ben hynny, roedd gan rhai o'r gwasanaethau rôl gritigol yn cynghori a chenhadu'r neges ynglŷn â rheolau ac arferion gorau yn ystod yr argyfwng, ac yn dilyn hynny roeddynt yn flaenllaw yn atgyfodi'r gwasanaethau y bu'n ofynnol eu rhewi am gyfnod.

Bu'n ymdrech lew i gyflawni hyn oll tra'n cynnal gwasanaethau allweddol ac mae'r crynodeb hwn o berfformiad am y flwyddyn yn adlewyrchu hynny.

Cyswllt Cwsmer



Mae'n bosib i bobl Gwynedd gael mynediad i nifer o wasanaethau ar-lein, ar amser sy'n gyfleus iddynt, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, tra'n cynnig ffordd fwy cost effeithiol o gysylltu â'r Cyngor.

Gellir cysylltu ynghylch 33 (27 yn 2019/20) o faterion megis priffyrdd, archebu a thalu am docyn parcio, trefnu ymweliad â chanolfan ail-gylchu, talu am ginio ysgol a mwy. Mae

dros 50% o geisiadau am wasanaeth mewn 17 maes (4 yn 2019/20) yn cael eu cyflwyno ar-lein gydag 88% o'r ceisiadau am apwyntiad i ymweld â chanolfan ail-gylchu yn cael eu cyflwyno yn y modd hwnnw. Yn ystod 2020/21 mae 11,689 o drigolion wedi agor cyfrif hunanwasanaeth o'r newydd, sydd yn 2,000 yn fwy na wnaeth hynny yn 2019/20.

Amser ateb galwad ffôn yn Galw Gwynedd



Rydym yn darparu gwasanaeth ffôn drwy Galw Gwynedd. Mae perfformiad eleni, o ran yr amser a gymerir i ateb galwadau, wedi gwella o'i gymharu â'r flwyddyn blaenorol ac hynny er bod 12,000 yn fwy o alwadau wedi'u derbyn h.y. o 49 eiliad ar gyfartaledd yn 2019/20 i 47 eiliad. Byddai'r perfformiad wedi gwella mwy na hyn oni bai am y nifer o alwadau yr ymdriniwyd â hwy ddechrau'r haf ynglŷn ag apwyntiadau canolfannau ail-gylchu.

Rydym yn parhau i roi sylw i hyn ac yn ymdrechu i wella perfformiad, yn bennaf trwy gyfuniad o hyrwyddo pellach ar hunanwasanaeth ac ymestyn gwasanaeth sgwrs ar-lein.

Cyfathrebu ac Ymgysylltu



Mae cynnal deialog ddwyffordd gyda phobl Gwynedd er mwyn i ni rannu gwybodaeth am wasanaethau'r Cyngor, ac i glywed barn ein trigolion, yn

flaenoriaeth. Llwyddwyd i gynnal 4 ymarferiad i gasglu barn pobl Gwynedd am wahanol wasanaethau yn ystod 2020/21 gyda 8,910 o unigolion yn manteisio ar y cyfleoedd yma i leisio barn. Yr ymarferion wnaeth ddenu y mwyaf o ymateb oedd y rhai ynglŷn â'r premiwm tai haf a'r canolfannau ail-gylchu.

Erbyn Mawrth 2021, roedd 34,172 o unigolion yn derbyn clipiau fideo, delweddau digidol a negeseuon yn ddyddiol drwy gyfrifon Twitter, Facebook ac Instagram y Cyngor, sef cynnydd o 4,672 ers y flwyddyn flaenorol.

Canolbwyntiwyd ar alluogi trigolion i gael mynediad rhwydd i wasanaethau yn ystod cyfnod pandemig Covid-19 ac i gyfleu negeseuon allweddol am faterion iechyd cyhoeddus. Sefydlwyd newyddlen electroneg i breswylwyr ("Newyddion Gwynedd Bach") a datblygwyd trefn ar gyfer cyfathrebu negeseuon i gynulleidfaoedd lleol iawn drwy'r gwefannau cymdeithasol.

Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau

Llwyddwyd i wella perfformiad o fewn y gwasanaeth gyda 94% o gofrestrïadau marwolaethau yn cael eu cofrestru o fewn 5 diwrnod, sy'n rhagori ar berfformiad y llynedd er bod y rhan helaethaf o'r cofrestru wedi'i gyflawni dros y ffôn yn sgîl y pandemig.

Dim ond 51% o enedigaethau a llwyddwyd i'w cofrestru o fewn 5 diwrnod oherwydd y cyfyngiadau yn ystod y Cyfnod Clo – hynny o'i gymharu â 98% yn 2019/20. Fodd bynnag, llwyddwyd i ymdrin a'r ôl-groniad o rai cannoedd o enedigaethau i'w cofrestru cyn diwedd y flwyddyn.

Cwtogwyd yn sylweddol ar nifer y priodasau yr oedd yn bosibl eu cynnal a bu i hyn arwain at gollod incwm i'r Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn.

Cefnogi Busnes y Cyngor


Cydlynwyd y gwaith o baratoi a chyhoeddi adroddiad perfformiad y Cyngor ar gyfer 2019/20 ac adolygu Cynllun y Cyngor ar gyfer 2021/22. Mae prosiect penodol wedi'i sefydlu er mwyn arwain ar weithrediad y Cynllun Cydraddoldeb gyda'r gwaith yn y lle cyntaf wedi bod yn canolbwyntio ar geisio cael gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau sy'n wynebu trigolion y sir yn y cyd-destun yma.

Darperir cefnogaeth i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn sy'n ceisio sicrhau bod darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio er mwyn gwella lles trigolion. Un o brif flaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw diweddarau'r Aseidiadau Llesiant ar gyfer y ddwy sir ac mae hynny yn derbyn sylw ar ddechrau 2021/22.

Ymchwil a Gwybodaeth

Fe amlygodd y pandemig yr angen am wybodaeth gywir ac amserol am natur yr argyfwng. O ganlyniad fe fu'r gwasanaeth yn gwneud gwaith sylweddol ar gasglu, dadansoddi ac adrodd data perthnasol ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor.

Nifer digwyddiadau gwybodaeth lle mae gwybodaeth am unigolyn wedi ei ddwyn/colli/mynd i'r cyfeiriad anghywir




Un mater sy'n peri pryder yw bod 30 o ddigwyddiadau gwybodaeth wedi bod ar draws y Cyngor yn 2020/21 (h.y. lle mae gwybodaeth wedi mynd ar goll neu fynd i'r person anghywir); mae hyn yn cymharu

â 20 yn ystod 2019/20. Mae dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu bod tua traean yr achosion wedi deillio o amgylchiadau gweithio-o-adref yn ystod cyfnod y pandemig. Rydym eisoes wedi paratoi canllawiau a deunydd hyrwyddo yn ymwneud â materion penodol sydd angen cofio amdanynt wrth weithio o adref, ac wedi diweddarau ein rhaglen hyfforddi a chynnal sesiynau hyfforddi rhithiol gyda thimau er mwyn mynd ar ôl y gwahanol faterion sydd wedi dod i'r amlwg.

Fe gychwynnwyd symud gwasanaethau'r Cyngor i fersiwn newydd o iGwynedd (system rheoli cofnodion electronig y Cyngor) gyda'r ymateb hyd yma gan wasanaethau sydd wedi trosglwyddo yn adrodd bod y system newydd yn hwyluso rhannu gwybodaeth a dogfennau.

Yn ystod y flwyddyn mae'r nifer o geisiadau gan unigolion sy'n dymuno gweld gwybodaeth amdanynt eu hunain (ceisiadau diogelu data) wedi gostwng i 53 (66 yn 2019/20). Ymatebwyd i 85% o'r ceisiadau hyn o fewn yr amserlen ddisgwyliedig o 1 mis calendr.



Ar ben hynny cafwyd 842 o geisiadau rhyddid gwybodaeth yn ystod y flwyddyn. Bu i'r gyfradd ymateb yn brydlon gynyddu o'i chymharu a'r flwyddyn flaenorol i 83% ac mae hynny yn galonogol o ystyried y pwysau ar wasanaethau'r Cyngor yn ystod y pandemig.

Prynu

Yn ychwanegol at y gwaith ar y prosiect Blaenoriaeth Gwella 'Cadw'r Budd yn Lleol' bu'r Gwasanaeth Caffael yn ymateb i heriau'r pandemig ac yn chwarae rhan allweddol yn nhrefniadau sicrhau cyflenwadau PPE i staff maes. Mae'r tri Tîm Categori wedi bod yn rhan allweddol o'r trefniadau hefyd ac yn parhau i fod ynghlwm â'r elfennau prynu, dosbarthu a rheoli stoc. Mae'r Tîm Categori Pobl yn ogystal yn ymdrin yn uniongyrchol â'r cartrefi henoed a'r gwasanaethau cymdeithasol yn ehangach.

Democratiaeth a laith



Pwrpas y Gwasanaeth Democratiaeth yw cefnogi Cynghorwyr er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau a gweithredu er lles trigolion Gwynedd.

Mae'r prosiect caniatáu mynediad o bell i gyfarfodydd y Cyngor wedi symud yn ei flaen yn syfrdanol yn ystod y flwyddyn gyda phob un o gyfarfodydd ffurfiol y Cyngor wedi'i gynnal yn rhithiol yn ystod y pandemig. Mae ystyriaeth yn cael ei roi ar ddechrau 2021/22 i fabwysiadu protocol ar gyfer cynnal cyfarfodydd i'r dyfodol, gyda rhagolygon y bydd nifer o gyfarfodydd ffurfiol yn parhau i gael eu cynnal yn rhithiol ar ôl i'r cyfyngiadau presennol gael eu codi.

Ar gyfer cyfnod 2020/21 bu i'r canran rhaglenni pwyllgorau sy'n cael eu cyhoeddi o fewn yr amserlen (o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod) aros ar 92%. Mae gwaith gydag awduron adroddiadau yn parhau er mwyn gwella'r perfformiad yma.

Mae safon gwaith yr Uned Gyfieithu yn parhau i gael ei werthfawrogi, gyda 98.5% o'r holiaduron bodlonrwydd a gwblhawyd yn sgorio'r gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig yn 5 allan o 5. Bu i'r Uned Gyfieithu chwarae rhan

allweddol yn galluogi cyfieithu ar y pryd ar ffurf rhithiol, gan gynorthwyo sefydliadau eraill i ddarparu yr un gwasanaeth.

Llwyddodd "Hunaniaith" (Menter Iaith Gwynedd) hefyd i newid ei ffordd o weithio gyda'r gymuned, gan ddefnyddio'r dulliau rhithiol i barhau gyda'i ymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y sir.

Adnoddau Dynol

Bu gostyngiad sylweddol yn y nifer diwrnodau salwch fesul aelod o staff yn ystod y flwyddyn i 6.3 diwrnod y pen ar gyfartaledd (i lawr o 9.78 diwrnod y pen yn 2019/20) - hynny yn bennaf oherwydd y Cyfnod Clo ond hefyd gan bod y gwaith o hybu iechyd corfforol a meddyliol yn ogystal â gwell rheolaeth o absenoldebau wedi dwyn ffrwyth. Mae'r Cyngor yn parhau i fod ymysg y cynghorau sydd â'r lefel isaf o absenoldebau salwch.

Nifer o ddyddiau a gollwyd y pen ar gyfartaledd o ganlyniad i absenoldeb salwch



Cynhaliwyd tri gwrandawriad apêl cyflogaeth yn ystod y flwyddyn gyda penderfyniadau'r Pwyllgor yn cefnogi penderfyniad gwreiddiol y cyflogwr ar y tri achlysur tra bo côd ymddygiad newydd wedi'i gymeradwyo ar gyfer staff o fewn y Cyngor.

Gwasanaeth Cefnogol

Mae'r Gwasanaeth Cefnogol yn darparu cymorth gweinyddol i staff y Cyngor. Mae'r gwaith o gyflwyno system Hunanwasanaeth

i staff sydd heb gyfrif TG yn flaenoriaeth. Golyga hyn bod gan reolwyr fynediad hwylus at statws DBS staff sydd mewn swyddi rheoledig, bod modd derbyn slip cyflog yn electroneg yn ogystal â derbyn gwybodaeth yn fwy hwylus ac yn gynt nag yn y gorffennol. Bellach mae 92% (71% yn 2019/20) o staff y Cyngor yn fyw ar y system Hunanwasanaeth gyda gwaith pellach i ymestyn y nifer yma yn ystod 2021/22.

Dysgu a Datblygu'r Sefydliad



Mae'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn cynnig cefnogaeth dysgu a datblygu i staff ac aelodau etholedig y Cyngor. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn arwain ar gynlluniau ar gyfer

hyfforddeion a phrentisiaethau yn ogystal â bod yn flaenllaw yn cefnogi diwylliant Ffordd Gwynedd y Cyngor. Datblygwyd ddulliau dysgu rhithiol yn ystod y flwyddyn gan ganolbwyntio ar greu amgylchedd dysgu o bell a chynnal canolfannau asesu ar-lein.

Derbyniodd y gwasanaeth, ar y cyd efo'r Adran Addysg, wobwr gan Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol Llywodraeth Cymru am y gwaith a gyflawnwyd yn datblygu arweinyddiaeth trwy gymhellant ym maes addysg.

Mae'r gwasanaeth yn cydlynu trefniadau ymateb i gwynion ac yn hyrwyddo'r dysgu o'r cwynion a dderbynnir. Yn ystod y flwyddyn bu i'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol ddatgan bod y Cyngor yn arwain ar ddefnyddio cwynion i wella gwasanaeth.

Erbyn hyn, mae 208 o fusnesau y sir, sef cynnydd o 24 yn y flwyddyn ddiwethaf, wedi ymuno efo'r Cynllun Buddiannau Staff a weinyddir gan y gwasanaeth. Mae'r Cynllun yn cyfrannu at hyrwyddo'r Prosiect Prynu'n Lleol gan ddefnyddio eu cysylltiadau efo'r


busnesau i'r perwyl hwn.

Iechyd, Diogelwch a Llesiant

Ail-gyfeiriwyd llawer o ymdrechion y gwasanaeth i ymdrin ag amryw agweddau o ymateb y Cyngor i'r pandemig. Cafodd dros 600 o staff bregus ymgynghoriad gyda'r Uned Iechyd Galwedigaethol er mwyn cynnig arweiniad ar lefel y risg iddynt ac ar unrhyw addasiadau i'w gwarchod yn ystod y Cyfnod Clo. Yn ogystal bu i'r gwasanaeth ymateb ac ymchwilio i achosion o'r haint ac i glystyrau mewn gweithleoedd neu ymysg gweithlu'r Cyngor.

Adroddwyd ar 146 o ddigwyddiadau i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID) yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cymharu â 51 digwyddiad yn y flwyddyn flaenorol, a hyn yn bennaf gan fod "amheuaeth rhesymol y gallai fod aelod staff wedi dal COVID wrth ei gwaith" wedi ei ychwanegu yn ystod y flwyddyn i restr o ddigwyddiadau oedd angen eu hadrodd i AGID.

Nifer damweiniau RIDDOR sydd wedi eu hadrodd



Mae gwaith parhaus hefyd wedi digwydd i gefnogi staff, yn enwedig felly yng nghyswllt llesiant meddyliol, boed hynny yn staff gofal rheng flaen neu staff yn teimlo'n ynysig yn gweithio o adref. Gwnaed hynny trwy gyfuniad o sesiynau codi ymwybyddiaeth a darparu cynhaliadau yn ogystal ag ymgynghoriadau

rhithiol (a wyneb i wyneb) gyda'r Tîm Iechyd Galwedigaethol a chwyselwyr Medra.

Er mwyn sicrhau fod ein trefniadau iechyd a diogelwch mor gadarn ag y mae modd iddynt fod, mae Cynllun y Cyngor ar gyfer y flwyddyn i ddod wedi adnabod y maes hwn fel blaenoriaeth gwella corfforaethol.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Gwasanaethau Cyfreithiol

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu gwasanaeth cyfreithiol cyflawn i holl adrannau'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys meysydd arbenigol megis cyflogaeth, eiddo masnachol, amddiffyn plant, ymglyfreithio a chynllunio.

Rydym yn derbyn adborth cadarnhaol cyson, gydag arolwg boddhad cwsmeriaid 2020/21 yn dangos bod 87% o gleientiaid yn nodi eu bod yn hollol fodlon (sgôr o 10 allan o 10) gyda'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'n anodd tynnu neges penodol o'r adborth ond rydym yn cadw llygaid cyson ar y lefel perfformiad a'r rhesymau am briodoli sgôr is na 10/10, gan ymateb i negeseuon sydd yn deillio o'r data. Mae'r wybodaeth wrth gwrs yn cyfrannu at y drefn ar gyfer rheoli a monitro ein perfformiad.

Holiadur Bodlonrwydd Cwsmeriad - sgor 10 allan o 10



Mae'n briodol nodi hefyd fod y Tîm Cyfreithiol wedi symud i gyfundrefn electroneg o weithio yn fuan yn y flwyddyn ac i weithredu yn lled ddi-bapur. Roedd ein gallu i wneud hyn yn adlewyrchu buddsoddiad oedd eisoes wedi bod mewn meddalwedd ond hefyd gwaith ac ymroddiad ar draws y tîm a'u harweinwyr. Gwnaethpwyd cryn waith hefyd yn cynghori

a chefnogi ar y newidiadau cyfreithiol a gweithredol o amgylch prosesau democrataidd y Cyngor yn ystod yr argyfwng.

O safbwynt trefniadau priodoldeb mae'r Gwasanaeth wedi cefnogi a chynghori ar brif faterion y Cyngor a sawl mater corfforaethol penodol gan gynnwys:

- Strategaeth Tai
- Safle Cartref Penrhos
- Trefniadaeth Ysgolion

Gan fod Cyngor Gwynedd yn awdurdod lletya ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru bu'r Swyddog Monitro yn arwain y gwaith cyfreithiol rhanbarthol o sefydlu Cytundeb Llywodraethu 2 ("GA2") ynghyd â chefnogi y Swyddfa Rhaglen ar yr agweddau democrataidd. Mae'r gwaith yn parhau.



Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am gefnogi y Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Cofrestru Etholiadau drwy weinyddu holl etholiadau'r sir a'r Gofrestr Etholwyr. Derbyniwyd grant gan Lywodraeth Cymru yn fuan yn 2020 i gefnogi gwaith sefydlu yr etholfraint newydd (16 oed) ynghyd ag agweddau eraill ar y thema mynediad i bleidleisio. Yn anffodus rhaid derbyn fod y sefyllfa Covid-19 wedi cael ardrawiad sylweddol ar y gwaith yma oedd yn seiliedig ar fynychu Ysgolion, Colegau a Grwpiau leuencid i hyrwyddo ac uchafu cofrestru. Bellach penodwyd aelod o staff i weithio ar y prosiect hyrwyddo a chofrestru gyda Grŵp Prosiect traws-adrannol. Bydd hyn yn caniatáu i'r prosiect symud ymlaen wrth baratoi am etholiadau'r Cyngor yn 2022.

Wrth i flwyddyn 2020/21 ddirwyn i ben roedd

gwaith sylweddol eisoes wedi cychwyn er mwyn paratoi ar gyfer etholiadau'r Senedd a Chomisiynydd yr Heddlu fis Mai.

Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu swyddogaeth statudol yn cefnogi Gwasanaeth Crwner Gogledd Orllewin Cymru. Yn dilyn ymddeoliad y Crwner yn ystod y flwyddyn penodwyd Kate Sutherland i rôl weithredol a dechreuodd trafodaethau gydag Adran Gyfiawnder Llywodraeth DU ar y camau nesaf o ran dyfodol yr ardal.